# Argyfwng Darlledu

## Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 21 Gorffennaf 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/public-service-media-review

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg....................................................3
2. Cyflwyniad....................................................10
3. Cyd-destun y Farchnad....................................................15
4. Ariannu a chynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus....................................................33
5. Cefnogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.........51
6. Grymuso cynulleidfaoedd mewn oes ddigidol....................................................65
7. Ymrwymo i ddiweddaru ein gwaith o reoleiddio teledu a radio sy'n cael ei ddarlledu......73

## Atodiad

8. Geirfa....................................................74

# 1. Trosolwg

**Mae tirwedd cyfryngau'r DU yn trawsnewid yn gyflym. Mae darlledwyr traddodiadol yn brwydro'n ffyrnig am sylw cynulleidfaoedd, ac mae amrywiaeth gynyddol o gynnwys gan gwmnïau technoleg mawr ar draws y byd yn gorlifo'r farchnad.** Nid yw'r pwysau hyn yn unigryw i'r DU. Mae gwasanaethau fel Netflix ac YouTube yn cynnig profiadau personol iawn sy'n hynod boblogaidd ymysg gwylwyr a hysbysebwyr. Mae algorithmau, argymhellion wedi'u teilwra a chyfleoedd i gael gafael ar ddeunydd ar unwaith yn ail-lunio sut mae nifer gynyddol o gynulleidfaoedd yn darganfod ac yn defnyddio cyfryngau. Mae technolegau datblygol, fel deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ("GenAI"), yn chwyldroi sut mae cynnwys yn cael ei gynhyrchu, ei ddosbarthu a'i ddefnyddio. **Mae'r newidiadau seismig hyn yn mynd rhagddynt yn dda, a bydd y blynyddoedd nesaf yn hollbwysig wrth benderfynu ar ddyfodol darlledu yn y DU.**

**Mae'r adolygiad hwn yn galw am weithredu ar frys, nawr ac yn y blynyddoedd i ddod, i gryfhau a chynnal cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu newyddion dibynadwy a chywir, yn adrodd straeon y DU, ac yn cynrychioli amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r DU.** Yn yr amgylchedd hwn sy'n fwy a mwy deinamig, mae'n hanfodol bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu cynnwys ar draws nifer o lwyfannau gan sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd yn hawdd i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ac ymgysylltu â nhw. Mae achos cryf i'r llywodraeth **ymestyn rheolau amlygrwydd** i alluogi hyn.

Rhaid i ni hefyd sicrhau nad yw rheoleiddio'n llesteirio arloesi nac yn atal buddsoddiad mewn cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ond ei fod yn cefnogi twf a chynaliadwyedd cynnwys amrywiol o ansawdd yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd rheoleiddio ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus: rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus arloesi a chreu cynnwys sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Mae cynnal a chryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gyfrifoldeb i bawb ac mae angen i bawb chwarae eu rhan.

## Mae rhan bwysig o ddiwylliant y DU dan fygythiad

Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – y BBC, ITV, STV, Channel 4, Sianel 5 ac S4C – yw prif ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o hyd. Gyda'r BBC yn rhan greiddiol, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn elwa o gyfuniad o gyllid cyhoeddus a masnachol. **Gyda'i gilydd, maen nhw'n cynnig gwasanaethau unigryw ac amrywiaeth eang o gynnwys sy'n cyrraedd holl gynulleidfaoedd y DU.** Mae eu deinameg gystadleuol wedi sbarduno rhaglenni o ansawdd uchel.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael i bawb yn gyffredinol, ac mae gofyn eu bod yn darparu newyddion dibynadwy, gan gynnwys newyddion lleol, ac amrywiaeth ddigyffelyb o raglenni o ansawdd uchel yn y DU sy'n diwallu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd y DU. Mae'r cynnwys hanfodol hwn yn cefnogi cyfranogiad mewn cymdeithas ddemocrataidd drwy ddal llywodraethau a sefydliadau i gyfrif a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynulleidfaoedd am ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Hefyd, maen nhw'n darparu rhaglenni diwylliannol a chwaraeon sy'n dod â'r wlad at ei gilydd ac yn hyrwyddo ymdeimlad o werthoedd cyffredin. **Heb ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, byddai llawer llai o gynnwys o'r DU ac mae perygl y byddai cymdeithas yn mynd yn fwyfwy darniog a barn pobl yn cael ei hollti.**

## Mae pobl ar draws y byd yn edmygu sector creadigol y DU

**Mae gan y DU un o'r sectorau creadigol mwyaf llwyddiannus yn y byd - mae'n werth £124 biliwn (dros 5% o economi'r DU), gyda ffilm, teledu, cerddoriaeth a radio yn cyfrannu £22 biliwn.**[1] Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw conglfaen sector cynhyrchu'r DU, gan gefnogi cynyrchiadau ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau a chyfrannu at ddatblygu sgiliau. Mae'n rhaid iddyn nhw gomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol, sy'n cadw eiddo deallusol y rhaglenni maen nhw'n eu gwneud. Heb y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ni fyddai gennym y gweithlu creadigol, medrus iawn sydd ar flaen y gad yn fyd-eang ym maes cynhyrchu cynnwys teledu, ffilmiau a chyfryngau digidol ac sy'n denu buddsoddiad sylweddol yn y DU.

**Mae ffrydwyr byd-eang a darlledwyr eraill yn y DU hefyd yn cyfrannu at yr amrywiaeth gyfoethog o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y mae cynulleidfaoedd yn eu mwynhau.** Mae amrywiaeth o ddarlledwyr yn darparu newyddion cywir a diduedd ac, ynghyd â ffrydwyr byd-eang, yn comisiynu drama ac adloniant o ansawdd uchel yn y DU. Mae rhai ohonyn nhw – fel *Adolescence* ar Netflix, *Say Nothing* ar Disney+ a rhaglenni *Artist of the Year* ar Sky – yn cyfrannu'n sylweddol at drafodaeth gyhoeddus a diwylliant Prydain. **Fodd bynnag, yn wahanol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, maen nhw'n aml y tu ôl i wal dalu, ac nid yw'n ofynnol iddyn nhw fod ar gael i bawb, na chomisiynu cynnwys yn y DU na buddsoddi yn y sector cynhyrchu ledled y DU.** Gallai eu strategaethau comisiynu presennol newid.

**Mae radio masnachol a chymunedol hefyd yn darparu newyddion a rhaglenni, gan gynnwys newyddion lleol, ac mae hyn yn galluogi cynulleidfaoedd i gadw mewn cysylltiad â'u cymunedau lleol.** Ar ben hynny, bu twf sylweddol mewn gwylio ar lwyfannau rhannu fideos fel YouTube, a mwy a mwy yn gwylio ar y teledu nawr bod mwy na saith aelwyd o bob deg yn meddu ar set deledu sydd wedi'i chysylltu. Mae ganddyn nhw gorff sy'n tyfu'n gyflym o gynnwys a gynhyrchir yn broffesiynol gan ddefnyddwyr. Mae'r cynnwys yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd diddordeb ac mae'n boblogaidd gyda gwylwyr ifanc ac yn gynyddol gyda rhai hŷn hefyd.

## Mae cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn brwydro i gael ei weld a'i glywed

**Mae gwylwyr nawr yn treulio llai na hanner eu hamser gwylio yn y cartref ar deledu llinol, ac mae'r ffigur hwn yn gostwng.** Wrth i bobl symud ar-lein, maen nhw'n gwylio rhaglenni ar ystod lawer mwy o wasanaethau. Mae chwaraewyr fideo ar-alw'r darlledwyr ddim ond yn cyfrif am 9% o'r holl wylio, sy'n sylweddol is na gwasanaethau ffrydio drwy danysgrifio (15%) a llwyfannau rhannu fideos (19%).

**Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ymateb drwy roi cynnwys ar wasanaethau trydydd parti, fel YouTube.** Mae eu strategaethau'n esblygu wrth iddyn nhw ddysgu beth sy'n gweithio, ond mae ein hymchwil yn dangos mai dim ond cyfran fach o'r hyn y mae cynulleidfaoedd y DU yn ei wylio ar YouTube yw cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a'u bod nhw'n cystadlu â phob crëwr cynnwys arall yn y byd. **Felly, bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithio'n llawer caletach i greu cynnwys y mae cynulleidfaoedd eisiau ei wylio ar y llwyfannau hyn.** Ar ben hynny, y llwyfan sy'n penderfynu pa gynnwys sy'n cael ei hyrwyddo ymysg defnyddwyr. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn

---

[1] Amcangyfrifon Economaidd GVA yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2023 (dros dro) – GOV.UK.

golygu nad yw ar gael i bawb a gallai olygu bod cynulleidfaoedd yn dod i gysylltiad â llai o genres neu safbwyntiau. Mae'r duedd hon yn arbennig o amlwg ymysg plant a phobl ifanc – er enghraifft mae plant rhwng 4 a 15 oed yn treulio llawer mwy o amser yn gwylio YouTube na gwasanaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd. **Os na fydd plant yn troi at gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth iddyn nhw fynd yn hŷn, mae dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y fantol.**

**Mae mynediad cynulleidfaoedd at newyddion cywir lleol, cenedlaethol a rhyngwladol maen nhw'n ymddiried ynddo yn sylfaen trafodaeth ddinesig a chymdeithas ddemocrataidd.** Mae saith oedolyn o bob deg yn cael eu newyddion nawr gan wasanaethau ar-lein, gydag oddeutu hanner yr oedolion yn cael newyddion ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at fanteision o ran amrywiaeth eang y newyddion sydd ar gael, ond mae'n golygu hefyd fod gan **algorithmau rôl bwysig o ran penderfynu beth mae cynulleidfaoedd yn ei weld ac efallai na fydd hi'n hawdd dod o hyd i newyddion dibynadwy o ansawdd uchel, gan gynnwys newyddion gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.** O'n dadansoddiad, rydym wedi gweld bod defnyddwyr sy'n cael newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol yn llai tebygol o adnabod gwybodaeth ffeithiol bwysig yn gywir, eu bod yn ymddiried llai mewn sefydliadau, a bod mwy o hollti barn yn eu plith. Mae mwy o siawns hefyd o ddod ar draws camwybodaeth a thwyllwybodaeth. Nid yw'n syndod bod gan **bobl lawer llai o ffydd mewn newyddion ar gyfryngau cymdeithasol na gwasanaethau newyddion** sy'n cael eu darlledu sy'n gorfod darparu newyddion cywir a diduedd.

## Bydd heriau ariannol sylfaenol yn dal i fodoli

**Yn yr amgylchedd hwn sy'n fwy a mwy deinamig, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chael yn llawer anoddach ariannu'r gwaith o gynhyrchu a dosbarthu cynnwys o ansawdd uchel o'r DU i bob cynulleidfa.** Mae refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ffi'r drwydded deledu a hysbysebion teledu llinol wedi gostwng dros chwarter mewn termau real ers 2016, gyda thwf mewn refeniw gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr yn methu â gwneud iawn am hyn. Mae costau yn cynyddu hefyd. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu cynnwys ar draws gwasanaethau llinol ac ar-lein, ac maen nhw'n buddsoddi fwyfwy mewn cynnwys drutach o safon uchel i ddenu gwylwyr i'w gwasanaethau. Mae hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau comisiynu darlledwyr a'r gallu i barhau i ddarparu amrywiaeth o gynnwys a rhai genres sy'n denu llai o refeniw hysbysebu fel newyddion a rhaglenni plant.

Mae hyn hefyd yn effeithio ar sector cynhyrchu'r DU gan fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn hanfodol o hyd i ddatblygu busnesau a thalentau ledled y DU - yn enwedig ar gyfer cwmnïau cynhyrchu llai a'r rheini yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'n bosibl y bydd cyflymder datblygiadau technolegol, gan gynnwys integreiddio deallusrwydd artiffisial i'r gadwyn gyflenwi, yn arwain at arbedion o ran costau, ond mae graddfa ac amseriad hyn yn bell o fod yn sicr.

## Mae angen gweithredu nawr

Gan adeiladu ar yr heriau a nodwyd gennym ym mis Rhagfyr, rydym wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau a allai helpu i gefnogi darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Fel rhan o hyn, rydym wedi cwrdd â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector - gan gynnwys darlledwyr, cynhyrchwyr, llwyfannau, a grwpiau cynulleidfaoedd. Yn y ddogfen hon rydym yn trafod opsiynau y gallai gwahanol gyfranogwyr yn y diwydiant, yn ogystal ag Ofcom a'r Llywodraeth, eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

Bydd y diwygiadau hanfodol i'r Ddeddf Cyfryngau, ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith, yn helpu i gefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys gwneud eu chwaraewyr ar-alw yn amlwg ar setiau teledu sydd wedi'u cysylltu. Fodd bynnag, ac ystyried y lefelau cynyddol o gynnwys mae cynulleidfaoedd yn ei wylio ac yn gwrando arno ar wahanol wasanaethau, mae'n annhebygol o fod yn ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu yn y dyfodol. Mae llwyfannau trydydd parti, gan gynnwys llwyfannau rhannu fideos fel YouTube, yn rhan fwyfwy pwysig erbyn hyn o sector cyfryngau'r DU ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd yn y DU.

## Argymhellion ar gyfer camau gweithredu

Nid oes un ateb penodol a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu. Rydym yn argymell bod camau gweithredu'n canolbwyntio ar chwe chanlyniad allweddol. Bydd angen i bawb sy'n gysylltiedig - y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain, cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos, y Llywodraeth ac Ofcom – newid.

Dyma'r chwe chanlyniad allweddol:

1. **Amlygrwydd a pha mor hawdd yw canfod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar y llwyfannau trydydd parti y mae cynulleidfaoedd yn troi atyn nhw fwyfwy. Er mwyn cyflawni hyn:**
    - Mae angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i addasu i'r hyn sydd orau gan gynulleidfaoedd drwy herio eu hunain yn gyson i brofi a defnyddio ffyrdd newydd o ddosbarthu a chreu cynnwys sawl gwaith drosodd ar gyfer grwpiau cynulleidfa amrywiol.
    - Mae'n hollbwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a YouTube yn cydweithio i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg ar ei wasanaethau, ac ar delerau masnachol teg. Mae hyn yn bwysig er mwyn i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus barhau i gysylltu â phob cynulleidfa, yn enwedig ar gyfer newyddion, sy'n cefnogi democratiaeth, ac ar gyfer rhaglenni plant yn y DU sy'n helpu cynulleidfaoedd ifanc i ddysgu a thyfu.
    - Dylai'r Llywodraeth ystyried a oes angen deddfwriaeth wrth gefn hyn. Byddai hyn yn gofyn am waith sylweddol ond byddai'n rhoi cefnogaeth statudol i amlygrwydd cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar YouTube, yn union fel y mae'r Ddeddf Cyfryngau yn rhoi amlygrwydd i chwaraewyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar setiau teledu sydd wedi'u cysylltu a dyfeisiau eraill.
    - Ar lefel ehangach, efallai y bydd y Llywodraeth am edrych ar amlygrwydd newyddion ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau eraill, er y byddai ei weithredu'n gymhleth ac y byddai angen adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae llwyfannau'n hyrwyddo cynnwys i ddefnyddwyr. Yn y cyfamser, mae angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithio gyda llwyfannau rhannu fideos a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill i sicrhau bod eu cynnwys ar gael ac yn hawdd i ddefnyddwyr ddod o hyd iddo.
2. **Cyllid sefydlog a digonol i gynnal ystod eang o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus,** sy'n cynnwys newyddion dibynadwy a chywir, a rhaglenni sy'n dangos yr amrywiaeth ledled y DU ac sy'n dod â'r wlad ynghyd:
    - Mae rhanddeiliaid wedi galw am amrywiaeth o fesurau i gefnogi cyllid ar gyfer cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, er enghraifft, ardollau a newidiadau i gredydau treth

i ariannu genres penodol o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mater i'r Llywodraeth yw ystyried y rhain, ac arwain gwaith ar gyllido'r BBC yn y dyfodol drwy'r Adolygiad o'r Siarter. Fodd bynnag, os bydd cyllid newydd, rydym yn argymell y dylai flaenoriaethu genres sy'n werthfawr yn gymdeithasol ond yn llai hyfyw yn fasnachol ac yn denu refeniw hysbysebu is, fel newyddion, newyddion lleol, a rhaglenni plant.

- Mae angen i grewyr cynnwys gael elw teg am eu gwaith ar lwyfannau trydydd parti, gan gynnwys pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio i hyfforddi gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae'r Llywodraeth yn ystyried ymatebion i'w hymgynghoriad ar ddeallusrwydd artiffisial a hawlfraint. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi agor ymgynghoriad yn ddiweddar hefyd ar Google Search, sy'n cynnwys nifer o ymyriadau posibl a ddylai helpu i wella telerau masnachol ar gyfer crewyr cynnwys sy'n dibynnu ar yr adnodd chwilio.
- Bydd gwaith rheoleiddio Ofcom yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu cynnwys sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU - yn enwedig yn y gwledydd a'r rhanbarthau - gan gynnwys drwy gwotâu penodol a chymesur.

3. **Eglurder ar frys ynghylch sut bydd teledu'n cael ei ddosbarthu yn y dyfodol.** Mae'n ofynnol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod ar gael i bawb. Wrth i wylwyr symud fwyfwy ar-lein, mae'n rhaid iddyn nhw ddarlledu dros deledu daearol digidol gan fuddsoddi hefyd mewn dosbarthu cynnwys ar draws nifer o lwyfannau. Yn y cyd-destun hwn, mae darparu cynnwys dros Deledu Daearol Digidol yn newid yn gyflym o fod yn un o fanteision mwyaf gwerthfawr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i fod yn gost sylweddol. Gellid defnyddio'r adnoddau hyn, fel arall, i greu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac arbrofi â strategaethau ar gyfer ymgysylltu â phob cynulleidfa mewn sector sy'n esblygu'n gyflym.

   - Y llynedd, cyhoeddodd Ofcom adolygiad o'r opsiynau ar gyfer dyfodol teledu daearol digidol, gan gynnwys y goblygiadau ar gyfer defnyddio sbectrwm a seilwaith digidol. Fe wnaethon ni ddweud y byddai angen penderfyniad gan y Llywodraeth o fewn y ddwy flynedd nesaf, ac rydym yn dal i gredu y byddai penderfyniad ddechrau 2026 yn caniatáu digon o amser. Gallai penderfyniad diweddarach danseilio'r buddsoddiad a'r arloesedd sydd eu hangen i roi dosbarthiad teledu cyffredinol ar sylfaen sy'n gynaliadwy ac yn gynhwysol i bob cynulleidfa.

4. **Partneriaethau mwy uchelgeisiol ymysg y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.** Mae angen technoleg ar sefydliadau cyfryngau modern er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd a chystadlu â llwyfannau byd-eang maen nhw'n dibynnu arnyn nhw, mewn rhai achosion, i gyrraedd gwylwyr. Mae maint a graddfa yn hanfodol er mwyn i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr domestig allu cysylltu â phob cynulleidfa mewn sector sy'n symud yn gyflym:

   - Bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (a darparwyr eraill yn y DU) fod yn uchelgeisiol wrth fynd ar drywydd partneriaethau strategol newydd ym maes technoleg a sut maen nhw'n cyrraedd cynulleidfaoedd.
   - Mae angen i reoleiddwyr, gan gynnwys Ofcom, asesu unrhyw uno neu bartneriaethau yng nghyd-destun asesiad cyfredol o amodau'r farchnad, gan gydnabod bod yna newid sylfaenol yn y sector o hyd.
   - Yn ei Gynllun Sector Diwydiannau Creadigol mae'r Llywodraeth wedi gofyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gyda chefnogaeth Ofcom, asesu sut gallai newidiadau yn y sector effeithio ar gymeradwyo partneriaethau strategol neu gydweithredu posibl rhwng darlledwyr a allai fod o fudd i'w cynaliadwyedd ariannol a'u cynulleidfaoedd.

5. **Mae buddsoddi mewn ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn hollbwysig er mwyn i bawb allu defnyddio gwasanaethau a deall ac ymwneud yn feirniadol â newyddion a chynnwys.** Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cael ei ddiffinio fel y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau. Gyda dyfodiad technolegau newydd (gan gynnwys mathau newydd o ddeallusrwydd artiffisial), bydd tirwedd y cyfryngau yn mynd yn fwy cymhleth a phersonol. Mae darlledwyr mewn sefyllfa unigryw i gefnogi cynulleidfaoedd i ymgysylltu'n feirniadol â chynnwys newyddion o amrywiaeth o ffynonellau, gwahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen, darparu tryloywder ynghylch sut maen nhw'n sefydlu ffeithiau, a chodi ymwybyddiaeth o ddamcaniaethau camarweiniol a chynllluniau twyll cyffredin. Er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ddatblygu eu sgiliau yn y cyfryngau a llythrennedd digidol:

   > Mae angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fuddsoddi a chyfrannu at ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU a defnyddio eu perthynas unigryw a dibynadwy â chynulleidfaoedd i roi'r hyder iddyn nhw ddefnyddio gwasanaethau digidol.

   > Mae'r BBC yn chwarae rhan bellach, gan gefnogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ei fentrau addysg i blant. Mae hefyd yn ystyried sut gall gefnogi sgiliau llythrennedd digidol pobl ifanc ymhellach er mwyn iddynt allu asesu gwybodaeth ddibynadwy yn well ac adnabod twyllwybodaeth.

   > Ochr yn ochr â darlledwyr, dylai llwyfannau ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos, alluogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddyluniad. Yr hydref hwn, bydd Ofcom yn cyhoeddi Datganiad o Argymhellion o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, sy'n nodi sut gall darlledwyr a llwyfannau ar-lein rymuso eu defnyddwyr i ddeall ac ymgysylltu â chyfryngau a gwasanaethau ar-lein.

   > Mae gan Ofcom ddyletswyddau ers tro i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac i helpu eraill i wneud gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Ond o ran gwariant ar y cwricwlwm ac addysg, mater i Lywodraethau - yn San Steffan ac yn y gwledydd - yw sicrhau bod y system addysg fodern yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant ac oedolion ar gyfer y dyfodol.

6. **Rheoliadau symlach sy'n cael gwared ar unrhyw hen gyfyngiadau diangen.** Cafodd y rhan fwyaf o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol ei ddylunio ar gyfer byd llinol. Mae angen adolygiad sylfaenol i benderfynu beth sydd ei angen i gefnogi cynulleidfaoedd wrth iddyn nhw newid eu harferion gwylio a gwrando ar-lein ac i annog twf ac arloesedd.

   > Mae Ofcom eisoes yn gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau sy'n darparu cymorth hanfodol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn benodol drwy roi mwy o hyblygrwydd iddyn nhw gyflawni eu rhwymedigaethau ar draws eu gwasanaethau llinol ac ar-lein a gwneud eu chwaraewyr ar-alw yn amlwg ar setiau teledu sydd wedi'u cysylltu.

   > Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar ei hadolygiad o Siarter y BBC a fydd yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

   > Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn adolygu ein gwaith o reoleiddio rhaglenni teledu a radio sy'n cael eu darlledu. Byddwn yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid ynghylch y meysydd blaenoriaeth ar gyfer diwygio'r broses reoleiddio a chefnogi'r gwaith o ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Byddwn yn edrych ar ba ddiwygiadau pellach sydd eu hangen i sicrhau bod y gwaith rheoleiddio'n cefnogi pob cynulleidfa sy'n elwa ar gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, a sut gallwn ni sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu rhag niwed lle bynnag y bônt. Gall hyn gynnwys newid deddfwriaethol yn ogystal â newidiadau i'n gwaith rheoleiddio.

- Cyn diwedd y flwyddyn, byddwn yn cyhoeddi cais cynhwysfawr am dystiolaeth ar y gwaith rydym yn bwriadu ei wneud.

**Os na fydd dim byd yn cael ei wneud, bydd bodolaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus - sef prif ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – dan fygythiad. Mae amser yn brin i achub yr elfen hollbwysig hon o ddiwylliant a ffordd o fyw yn y Deyrnas Unedig.**

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae canfyddiadau ein hadolygiad a'r rhesymeg a'r dystiolaeth wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cyflwyniad

## Dyletswyddau Ofcom i adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae’n rhaid i Ofcom adolygu, o leiaf unwaith bob pum mlynedd, i ba raddau y mae’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda’i gilydd, wedi cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus drwy ddarparu eu sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[2] Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw: y BBC, darparwyr pob gwasanaeth Sianel 3 (mae pob un ohonyn nhw’n is-gwmni i ITV Plc neu STV Plc), Channel 4 Corporation, Channel 5 Broadcasting Limited (un o is-gwmnïau Paramount Global), ac S4C. Y gwasanaethau perthnasol maen nhw’n eu darparu at ddibenion ein hadolygiad yw pob un o wasanaethau darlledu teledu’r BBC, pob gwasanaeth Sianel 3, Channel 4, Channel 5 ac S4C (“sianeli’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus”).

Fe wnaethom gyhoeddi ein hasesiad diweddaraf ar gyfer 2019 – 2023 ym mis Rhagfyr2024 lle daethom i'r casgliad bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, wedi cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[3] Fe wnaethom ni hefyd drafod y cyfraniad y mae darparwyr eraill wedi’i wneud i gyflawni amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus dros y cyfnod, gan gynnwys sianeli portffolio masnachol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gwasanaethau teledu sy’n cael eu darparu gan y sector aml-sianel, gwasanaethau radio, gwasanaethau fideo ar-alw, a gwasanaethau ar-lein eraill (lle mae gan berson reolaeth olygyddol dros y deunydd ar y gwasanaeth).

## Dull ar gyfer yr adolygiad hwn

Ym mis Rhagfyr, yn ogystal â’n hasesiad o sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni eu cylch gwaith, fe wnaethom nodi'r heriau sylweddol o ran darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae’r ddogfen hon yn edrych ar yr atebion posibl i fynd i’r afael â’r heriau hyn a sut y gellir cynnal cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a’u cryfhau yn y dyfodol. I adnabod yr opsiynau o ran atebion, rydym wedi cwrdd ag ystod eang o randdeiliaid o bob rhan o'r sector, gan gynnwys darlledwyr, cynhyrchwyr, llwyfannau, academyddion, a grwpiau cynulleidfaoedd. Rydym yn nodi'r opsiynau eang sydd wedi cael eu codi gyda ni ac sy'n cael eu trafod mewn cyhoeddiadau cysylltiedig fel Cynllun Sector Diwydiannau Creadigol y Llywodraeth ac adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ffilm a theledu o safon o Brydain.

Mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gwerthfawrogi’n fawr am newyddion dibynadwy a chywir, a straeon addysgiadol a difyr o’r DU sy’n adlewyrchu amrywiaeth y DU gyfan. Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – y BBC, ITV, STV, Channel 4, Channel 5 ac S4C – yw darparwyr allweddol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac maen nhw’n rhan bwysig o ddiwylliant y DU. Maen nhw ar gael i bawb ac mae’n ofynnol iddyn nhw ddarparu newyddion dibynadwy, cywir sy’n ddiduedd sy’n cefnogi cyfranogiad mewn cymdeithas ddemocrataidd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynulleidfaoedd am eu hardaloedd lleol a'r byd o'u cwmpas. Mae angen i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd

[2] Mae ein dyletswyddau cyfreithiol perthnasol wedi'u nodi yn Atodiad 1 (Fframwaith Cyfreithiol) ein Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-2023) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.

[3] Diben darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yw darparu gwasanaethau teledu sydd ag ystod eang o genres a rhaglenni o ansawdd uchel sy’n diwallu anghenion a diddordebau llawer o gynulleidfaoedd gwahanol. Maen nhw’n cael eu bodloni os cyflawnir yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

ddarparu amrywiaeth o raglenni o safon uchel sy'n adrodd straeon y DU ac sy'n diwallu anghenion a diddordebau llawer o gynulleidfaoedd gwahanol. Hefyd, maen nhw’n darparu rhaglenni diwylliannol a chwaraeon sy'n dod â'r wlad at ei gilydd ac yn hyrwyddo ymdeimlad o werthoedd cyffredin. Ar ben hynny, nhw yw conglfaen sector cynhyrchu'r DU, gyda gofynion i gomisiynu cynnwys gan gynhyrchwyr annibynnol cymwys ledled y DU.

Mae cynulleidfaoedd hefyd yn mwynhau cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar wasanaethau darlledu eraill, gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a llwyfannau rhannu fideos sy’n cynnig amrywiaeth eang o gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n broffesiynol a'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr o bob cwr o'r byd. Fodd bynnag, yn wahanol i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, nid oes yn rhaid iddyn nhw ddarparu cynnwys o’r DU na buddsoddi mewn cynhyrchu ar draws y DU gyfan, na gwneud yr un ystod o gynnwys i apelio i gynulleidfaoedd y DU. Yn ogystal, mae eu cynnwys yn aml y tu ôl i wal dalu.

Yn y ddogfen hon, rydym yn trafod opsiynau i gefnogi'r gwaith o ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, a allai fod gan amrywiaeth eang o ddarparwyr. Rydym hefyd yn trafod atebion i gefnogi cynaliadwyedd ariannol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel prif ddarparwyr cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

# Gwaith arall sy’n berthnasol i’r prosiect hwn

## Rhoi’r Ddeddf Cyfryngau ar waith

Deddf Cyfryngau 2024 (“Y Ddeddf Cyfryngau”) yw’r newid mwyaf i’r fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn dau ddegawd. Mae’n moderneiddio cylch gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut mae eu cynnwys yn cael ei ddarparu a’r gofynion y mae’n rhaid i’w cynnwys eu bodloni. Mae hyn yn hanfodol i ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac rydym yn canolbwyntio ar roi rhaglen y Ddeddf Cyfryngau ar waith. Mae'r argymhellion rydym yn eu nodi yn y ddogfen hon yn adeiladu ar ein hadolygiad diwethaf o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – a'r gwaith o weithredu'r Ddeddf Cyfryngau. Maen nhw’n cynrychioli'r cam nesaf ar hyd y llwybr i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Mae’r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno nifer o fesurau a fydd yn helpu i gynnal cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a’u cryfhau:

- **Amlygrwydd ar setiau teledu sydd wedi’u cysylltu**: rheolau newydd i helpu pobl i ddod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a sicrhau ei fod ar gael, a’i fod yn hygyrch ac yn hawdd dod o hyd iddo ar lwyfannau teledu poblogaidd sydd wedi’u cysylltu, fel setiau teledu clyfar (sy'n cael eu rheoleiddio am y tro cyntaf). Rydym wrthi'n sefydlu Codau, canllawiau a phrosesau datrys anghydfodau newydd sydd wedi’u llunio i sicrhau system deg a chynaliadwy sy’n gwasanaethu cynulleidfaoedd.
- **Moderneiddio fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus:** diweddaru’r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, ac mae’n rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt o ran ble a sut maen nhw’n cyflawni eu cylchoedd gwaith a’u gofynion. Nod y newid yw helpu i sicrhau bod pob cynulleidfa yn cael ei gwasanaethu'n dda, lle bynnag maen nhw’n dewis gwylio cynnwys. Un o’r effeithiau yw y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio eu gwasanaethau ar-alw am y tro cyntaf i gyflawni eu rhwymedigaethau. Hyd yma, rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriadau sy'n diweddaru ein canllawiau ar ddatganiadau polisi rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cwotâu a chanllawiau wedi’u diwygio ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar eu codau ymarfer ar gyfer comisiynu.

- **Radio**: mae’r Ddeddf Cyfryngau yn dileu rhywfaint o’r gofynion ar gyfer radio masnachol fel ‘cymeriad gwasanaeth’ pob gwasanaeth (gan gynnwys y mathau o gerddoriaeth maen nhw’n eu chwarae), a darparu deunydd lleol, gan gynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud yn lleol. Ochr yn ochr â’r newidiadau dadreoleiddio hyn, mae’r Ddeddf Cyfryngau hefyd yn diogelu’r ddarpariaeth newyddion a gwybodaeth leol drwy gyflwyno gofynion newydd ynghylch darlledu newyddion a gwybodaeth leol ar orsafoedd radio masnachol analog lleol.[4] Ar ben hynny, mae'n cyflwyno gofynion ar gynorthwywyr llais i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau radio yn y DU.

Lle y bo’n berthnasol, rydym wedi ystyried effaith bosibl y newidiadau hyn yn y Ddeddf Cyfryngau, yn ein dadansoddiad a'n hystyriaethau yn yr adroddiad hwn.

## Dyfodol dosbarthu teledu

Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ym mis Mai 2024 yn amlinellu sut mae pobl yn treulio llai o amser yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu dros Deledu Daearol Digidol ac y gallai costau newid arwain at drobwynt yn y degawd nesaf lle na ellir cynnal buddsoddiad mewn teledu daearol digidol. Hefyd, fe wnaethom osod tri dull cyffredinol i gynllunio ar gyfer dyfodol hirdymor teledu sy’n cael ei ddarlledu. Mae'r Llywodraeth nawr yn cynnal ei phrosiect ei hun ar ddyfodol dosbarthu teledu, gan geisio deall sut mae pobl yn derbyn teledu nid yn unig nawr ond yn ystod y degawd nesaf. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 4.

## Adolygiad cyfnodol ac Adolygiad o Siarter y BBC

Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy’n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Mae iddo bum Diben Cyhoeddus, sef:

(i) darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o’u cwmpas;

(ii) cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed;

(iii) dangos yr allbwn a’r gwasanaethau mwyaf creadigol ac unigryw o’r ansawdd gorau;

(iv) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau’r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig wrth wneud hynny; a

(v) adlewyrchu’r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a’i gwerthoedd i’r byd.

Dan Gytundeb a Siarter y BBC, mae’n ofynnol bod Ofcom yn *cynnal ac yn cyhoeddi dau neu fwy o adolygiadau cyfnodol manwl ar i ba raddau y mae’r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o’r Dibenion Cyhoeddus, ac yn mynd i’r afael ag unrhyw faterion penodol sy’n peri pryder a nodwyd gan Ofcom.*[5]

Fe wnaethom gyhoeddi ein Hadolygiad Cyfnodol cyntaf o’r BBC ym mis Mehefin 2022, a byddwn yn cynnal yr ail adolygiad eleni. Rydym yn defnyddio data a gwybodaeth am berfformiad y BBC ers ein

[4] Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad i roi'r newidiadau hyn ar waith. Gweler Newyddion a gwybodaeth leol ar radio masnachol analog.
[5] Mae Siarter y BBC yn nodi Dibenion Cyhoeddus a Chenhadaeth y BBC. Mae’r Cytundeb yn sefyll ochr yn ochr â’r Siarter, ac mae’n nodi manylion am sawl agwedd ar y Siarter.

Hadolygiad Cyfnodol cyntaf, a bydd ein hadroddiad yn rhan o'n mewnbwn i broses y Llywodraeth i Adolygu'r Siarter. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar ben hynny, mae Siarter bresennol y BBC yn rhedeg tan ddiwedd 2027. Mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd yn lansio adolygiad o Siarter y BBC yn nes ymlaen eleni a bydd yn edrych ar amrywiaeth o faterion i wneud yn siŵr bod y BBC wir yn cynrychioli ac yn cyflawni ar gyfer pob person yn y DU, gan gynnwys gwasanaethau'r BBC a'u dosbarthiad. Rydym yn deall y bydd proses yr Adolygiad o'r Siarter yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn galluogi cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid i roi eu barn. Mae dyfodol y BBC, a'r gwaith o'i reoleiddio, yn ganolog i lwyddiant parhaus cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a byddwn yn ymgysylltu â'r Llywodraeth ynghylch yr adolygiad sydd ganddi ar y gweill.

### Y Ddeddf Diogelwch Ar-lein

Cafodd Ofcom ei benodi yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein ym mis Hydref 2023 o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gwmnïau sydd ag ystod eang o wasanaethau ar-lein i gadw pobl, yn enwedig plant, yn fwy diogel ar-lein. Mae'n cyflwyno system i gategoreiddio rhai gwasanaethau ar-lein sy'n cael eu rheoleiddio ar sail nodweddion allweddol, gan gynnwys nifer y defnyddwyr a swyddogaethau. Bydd rhai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn cael eu dynodi'n wasanaethau categori 1, 2A neu 2B os ydynt yn bodloni trothwyon penodol. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr y gwasanaethau hyn sy'n cael eu categoreiddio gydymffurfio â rhai dyletswyddau ychwanegol – yn dibynnu ar y categori y maent yn perthyn iddo.

Rydym yn mynd ati fesul cam i weithredu'r Ddeddf hon. Roedd camau un a dau yn canolbwyntio ar ddyletswyddau yn ymwneud â niwed anghyfreithlon ac amddiffyn plant. Mae'r trydydd cam yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar rai o'r gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mwyaf o ran maint a phoblogrwydd ('wedi'u dynodi'n 'categori 1') i ddiogelu cynnwys cyhoeddwyr newyddion a chynnwys newyddiadurol sy'n cael ei bostio ar-lein, gan gynnwys cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Yn benodol, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth categori 1 roi gwybod i gyhoeddwyr newyddion cydnabyddedig er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw gyflwyno sylwadau cyn cymryd camau mewn perthynas â'u cynnwys. Pan fo'r cynnwys dan sylw yn gynnwys newyddiadurol hefyd, rhaid i'r darparwr gwasanaeth egluro sut y bu iddo roi ystyriaeth i bwysigrwydd mynegiant rhydd y cynnwys hwnnw. Mae cynnwys gan gyhoeddwyr newyddion wedi'i eithrio o'r dyletswyddau diogelwch yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein; mewn geiriau eraill, nid oes yn rhaid i wasanaethau ar-lein gymryd unrhyw gamau ar gynnwys gan gyhoeddwyr newyddion cydnabyddedig i fodloni eu dyletswyddau o ran cynnwys anghyfreithlon neu amddiffyn plant o dan y Ddeddf hon.

Bydd Ofcom yn ymgynghori ar ganllawiau ar gyfer dyletswyddau cynnwys cyhoeddwyr newyddion i helpu gydag unrhyw gydymffurfio, fel rhan o'n trydydd cam o weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

## Strwythur yr adroddiad a'r atodiadau ategol

### Strwythur y ddogfen hon

Rydym wedi strwythuro'r adroddiad hwn fel a ganlyn.

3. Cyd-destun y farchnad
4. Ariannu a chynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus
5. Cefnogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus
6. Grymuso cynulleidfaoedd mewn oes ddigidol
7. Ymrwymo i ddiweddaru ein gwaith o reoleiddio teledu a radio sy'n cael ei ddarlledu

Mae dau atodiad i'r ddogfen hon:

- Atodiad 1: Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn oes y llwyfannau: Astudiaeth Achos YouTube
- Atodiad 2: Cefnogi'r gwaith o gynhyrchu cynnwys drwy fesurau polisi penodol: astudiaethau achos rhyngwladol

# 3. Cyd-destun y Farchnad

**Yn yr adran hon, rydym yn:**

- Defnyddio data allweddol i bennu sut mae ymddygiad y sector a chynulleidfaoedd yn newid; a
- Crynhoi'r heriau a nodwyd gennym yn ein cyhoeddiad ym mis Rhagfyr, gan gyflwyno dadansoddiad wedi'i ddiweddaru lle bo hynny ar gael.

## Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr, fe welsom fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni yn erbyn eu cylch gwaith, a bod cynulleidfaoedd yn fodlon â nhw ar y cyfan. Yn 2024, dywedodd saith o bob deg (68%) o wylwyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu bod yn fodlon â’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y cyfan.[6] Mae hyn wedi parhau’n gyson ers 2021. Yn gyffredinol, roedd gwylwyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i ddweud eu bod nhw’n darparu 'yn dda' ar draws gwahanol briodoleddau. Roedd hyn yn cynnwys *‘rhaglenni wedi’u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd y DU’* (67%), *‘amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon’* (67%) a chynnwys a oedd yn *‘apelio at ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd’* (63%).[7]

Er bod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, maen nhw’n wynebu heriau sylweddol sy'n bygwth eu gallu i barhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i'r DU. Hefyd, mae'n rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ledled y byd gynhyrchu cynnwys er budd y cyhoedd, yn aml gyda llai o adnoddau, a gyda llai o refeniw a mwy o gystadleuaeth am gynulleidfaoedd gan lawer o'r un llwyfannau ffrydio byd-eang a llwyfannau rhannu fideos.

Yng ngweddill yr adran hon rydym yn nodi:

- sut mae gwylio a gwrando llinol yn dal i ostwng wrth i gynulleidfaoedd wylio mwy a mwy o lwyfannau rhannu fideos a fideos ar-alw drwy danysgrifio;
- bod cynulleidfaoedd yn debygol o wylio llai o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus nag roedden nhw’n arfer ei wylio, er gwaethaf twf y gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr;
- yr her enfawr i ymgysylltu â phlant a phobl iau, sydd mewn perygl o beidio â gweld cynnwys o’r DU sy’n gallu eu helpu i dyfu;
- bod pobl yn cael eu newyddion fwyfwy gan ddarparwyr ar-lein nad ydynt efallai mor ddibynadwy â newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus;
- sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn addasu eu strategaethau i roi cynnwys ar wasanaethau trydydd parti;
- bod y datblygiadau hyn yn y farchnad yn golygu bod pwysau sylweddol ar gyllidebau comisiynu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus; a

[6] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2024. Mae gwylwyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu diffinio fel oedolion 16 oed a hŷn a wyliodd sianeli neu wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis diwethaf.
[7] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2024.


- sut mae newidiadau mewn comisiynu yn effeithio ar sector cynhyrchu'r DU.

## Mae cynulleidfaoedd yn debygol o fod yn gwylio llai o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Isod, rydym yn nodi'r prif dueddiadau ar gyfer gwylio a gwrando ar gynnwys. Bydd ein hadroddiad Cyfryngau'r Genedl, a gyhoeddir yn nes ymlaen y mis hwn, yn rhoi sylw manylach i'r tueddiadau hyn.

### Mae gwylio gwasanaethau ar-lein yn parhau i dyfu

**Ffigur 1: Munudau y dydd ar gyfartaledd o wylio fideos yn y cartref ar draws pob dyfais, pob unigolyn: 2024**




*Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu yn y cartref. Mae'r saethau'n dangos a yw'r amser gwylio ar gyfer y categori hwnnw wedi newid ers 2023.*[8]

Mae lefelau gwylio ar sianeli llinol wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae disgwyl i'r gostyngiad hwn barhau. Erbyn hyn, mae'n cyfrif am lai na 40% o'r holl amser gwylio yn y cartref.[9] Wrth i gynulleidfaoedd symud ar-lein, mae eu ffyrdd o wylio yn rhannu rhwng ystod eang o lwyfannau rhannu fideos, gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a gwasanaethau fideo ar-alw


---

[8] Gwasanaethau fideo ar-alw a gefnogir gan hysbysebion (er enghraifft, Tubi). Mae 'Cynnwys gan ddarlledwyr' yn cynnwys teledu byw, chwarae'n ôl rhaglenni wedi'u recordio, a gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Mae 'defnydd arall o setiau teledu' yn cynnwys gwylio rhai gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio/gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu cefnogi gan hysbysebion/llwyfannau rhannu fideos na ellir eu mesur yn bendant, yn ogystal â rhai sianeli darlledu heb eu mesur, rhywfaint o bori ar yr Amserlen Rhaglenni Electronig/dewislen, gwylio pan fydd y sain yn dawel, copïo neu ddosbarthu anghyfreithlon, setiau bocs heb eu mesur/cynnwys talu-i-wylio, a gweithgarwch rhyngrwyd heb fod yn fideo drwy gyfrifiadur personol neu ddyfais arall sydd wedi'i chysylltu â'r teledu. Nid yw gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio/gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu cefnogi gan hysbysebion yn cynnwys gwylio NOW, sy'n gynwysedig o fewn gwasanaethau fideos ar-alw gan ddarlledwyr ynghyd â Sky Go/Sky TV On Demand (mae'r ddau wasanaeth hyn yn ffrydio'r un cynnwys, felly ni ellir gwahanu gwylio wedi'i fesur).

[9] Barb fel y'i gwyliwyd. Mae 'gwylio ar sianeli llinol' yma'n cyfeirio at wylio sianeli'n fyw, ar adeg eu darlledu (ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref sydd wedi'u cysylltu â WiFi y cartref).

gan ddarlledwyr. Mae hyn wedi arwain at wylwyr yn symud oddi wrth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er gwaethaf y twf sylweddol yn y gwasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr.

**Ffigur 2: Cyfran cyfanswm y fideos a wyliwyd yn y cartref yn ôl gwasanaeth: 2024**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwelwyd, pob unigolyn.*

Fel y mae Ffigur 2 yn dangos, er bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i ddenu cyfran fawr o amser gwylio, mae gwasanaethau eraill – yn enwedig YouTube (14%) a Netflix (8%) – yn denu cyfran sylweddol hefyd. Mae'r llwyfannau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y dirwedd cyfryngau yn y DU, ond mae cyfran cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar y gwasanaethau hyn yn eithaf bach. O ganlyniad, mae'n debygol iawn bod gwylwyr yn y DU yn cael llai o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae hyn yn golygu bod pobl yn llai tebygol o weld cynnwys sy'n adlewyrchu'r DU gyfan ac sy'n dod â'r wlad ynghyd. Maen nhw hefyd yn llai tebygol o weld newyddion dibynadwy a chywir sy'n cael ei amserlennu'n rheolaidd ac sydd felly yn haws dod o hyd iddo ar deledu llinol. Wrth wylio llai o gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae cynulleidfaoedd yn llai tebygol hefyd o fod yn cael yr holl amrywiaeth o genres.

Mae cystadleuaeth am gynulleidfaoedd a refeniw hysbysebu yn rhoi pwysau ar allu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynnal nifer y rhaglenni newydd, gan effeithio ar rai genres yn fwy nag eraill. Er bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddarparu llawer iawn o raglenni newyddion a materion cyfoes sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, mae nifer y rhaglenni ar gyfer nifer o genres arbenigol wedi bod yn gostwng. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer rhaglenni celfyddydol a cherddoriaeth glasurol (gyda'u horiau wedi gostwng 55% rhwng 2014 a 2024), rhaglenni plant (43%) a chomedi (39%).[10]

## Mae lefelau gwylio gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn parhau i gynyddu

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn cyfrif am 15% o'r amser gwylio yn y cartref. Fe wnaethom ddweud ym mis Rhagfyr bod disgwyl i lefelau gwylio gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio arafu, yn dilyn nifer o flynyddoedd o dwf sylweddol. Hyd yma yn 2025, mae nifer yr

[10] Ofcom/darlledwyr. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys BBC ALBA a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.

aelwydydd sydd â thanysgrifiadau gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio wedi sefydlogi,[11] ond mae'r amser gwylio wedi parhau i gynyddu.[12]

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn codi ffioedd tanysgrifio, ond mae sawl un hefyd yn gwerthu hysbysebion, gyda phecynnau tanysgrifio premiwm sydd weithiau'n caniatáu i ddefnyddwyr optio allan o hysbysebion wrth wylio. Mae gan rai o'r gwasanaethau hyn gynnyrch ategol sy'n caniatáu iddyn nhw fwndelu eu gwasanaethau cynnwys clyweledol â chynnyrch eraill. Er enghraifft, mae Apple yn bwndelu Apple TV+ wrth brynu dyfais Apple. Mae mynediad at gynnwys Amazon Prime Video yn rhan o aelodaeth Amazon Prime.

Mae gan y mwyafrif helaeth o wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio fel Netflix, Disney+ ac Apple TV+, gynulleidfaoedd sylweddol ar draws y byd. Mae ganddyn nhw gyllidebau cynnwys sylweddol oherwydd eu bod yn gallu adennill eu buddsoddiad yn fyd-eang ac mae hyn yn caniatáu iddyn nhw fuddsoddi mewn cynnwys o ansawdd uchel sy'n apelio'n rhyngwladol fel *Squid Game* a *Lupin*.[13] Maen nhw hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cynyrchiadau yn y DU, ac mae rhai ohonyn nhw'n adrodd straeon y DU sydd hefyd ag apêl ryngwladol (fel *Toxic Town* ar Netlix, *Clarkson's Farm* ar Amazon Prime Video, a fersiwn Disney o *Blind Date*). Mae graddfa fyd-eang y gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio hefyd yn caniatáu iddyn nhw fuddsoddi yn natblygiad technegol eu gwasanaethau, gan argymell cynnwys wedi'i deilwra i gynulleidfaoedd. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gwylio dramâu, ffilmiau, cynnwys i blant ac adloniant ar wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn bennaf.

Hefyd, nid yw'r gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn cynnig yr un faint o gynnwys o'r DU â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac yn hanesyddol maen nhw wedi canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o genres, er mae rhai'n dechrau ehangu'r hyn maen nhw'n ei gynnig, gan gynnwys drwy bartneriaethau. Mae Netflix ac Amazon Prime Video wedi bod yn prynu hawliau chwaraeon – Netflix gyda WWE a rhai gemau NFL ac mae Amazon wedi cael hawliau Uwch Gynghrair Lloegr ac erbyn hyn, hawliau gemau pêl-droed Cynghrair y Pencampwyr. Mae rhai gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio hefyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chrewyr cynnwys sy'n boblogaidd ar lwyfannau rhannu fideos, er enghraifft, Mr Beast gydag Amazon a Netflix gyda'r crëwr cynnwys plant Ms Rachel.

## Mae'r nifer sy'n gwylio llwyfannau rhannu fideos wedi cynyddu'n gyflym - yn enwedig ar setiau teledu

Mae llwyfannau rhannu fideos wedi bod yn un o'r ffurfiau o wylio sydd wedi tyfu cyflymaf yn y blynyddoedd diwethaf gydag YouTube yn arwain y ffordd. Yn 2024, roedd 60% o'r holl unigolion yn gwylio fideos YouTube dros eu cysylltiad band eang cartref. Cafodd y twf diweddar ei sbarduno gan wylio ar setiau teledu sydd wedi'u cysylltu, gyda 42% o wylio YouTube yn y cartref (i fyny o 34% yn 2023) nawr bod mwy na saith aelwyd o bob deg yn meddu ar set deledu sydd wedi'i chysylltu.[14] Mae

---

[11] Arolwg Sefydliad BARB hyd at Ch1 2025. Mae cyfran yr aelwydydd sydd â gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio wedi aros ar y un lefel (68%) yn ystod tri o'r pedwar chwarter diwethaf.
[12] Barb fel y'i gwyliwyd.
[13] Er enghraifft, mae Netflix wedi dweud ei fod yn disgwyl gwario tua $18 biliwn (£13 biliwn) ar raglenni gwreiddiol a thrwyddedig yn 2025, mae Disney wedi dweud ei fod yn disgwyl gwario tua $23 biliwn (£17 biliwn) ar gynnwys yn ei flwyddyn ariannol 2025 (er bod cyfran sylweddol o hyn yn mynd ar hawliau chwaraeon yn yr Unol Daleithiau) ac mae Apple, yn ôl y sôn, wedi bod yn gwario tua $5 biliwn (tua £3.5 biliwn) y flwyddyn ar raglenni ar gyfer Apple TV+.
[14] Traciwr Technoleg 2025 Ofcom. Mae'r ffigur wedi cael ei ail-seilio o bob aelwyd gan mai dim ond i'r rheini sydd â set deledu a mynediad i'r rhyngrwyd gartref y gofynnwyd hynny.

cynulleidfaoedd hŷn hefyd yn troi fwyfwy at YouTube, er enghraifft mae pobl 75 oed a hŷn bellach yn gwylio deg munud o YouTube y dydd ar gyfartaledd (cynnydd o 46% ers 2022).[15]

Yn wahanol i wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, mae llwyfannau rhannu fideos yn dibynnu ar gynnwys sy'n cael ei lwytho i fyny gan eraill - gan gynnwys crewyr cynnwys digidol yn unig fel dylanwadwyr, podledwyr a stiwdios digidol, yn ogystal â fideos cerddoriaeth, darlledwyr gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, a sefydliadau nad ydynt yn gyfryngau fel prifysgolion. Mae gan y llwyfan rhannu fideos a ddefnyddir fwyaf, YouTube, swmp ac amrywiaeth unigryw o gynnwys o'r DU ac o bob cwr o'r byd. Mae llwyfannau rhannu fideos yn cael eu hariannu drwy hysbysebion ac mae gan YouTube haen tanysgrifio heb hysbysebion hefyd.

Hyn a hyn o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd am yr hyn mae pobl yn ei wylio ar YouTube. Rydym wedi gwneud gwaith dadansoddi - wedi'i grynhoi yn Atodiad 1 - sy'n rhoi darlun dangosol. Mae hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o wylio (tua dwy ran o dair) ar gynnwys a gyhoeddir gan grewyr 'brodorol ddigidol', hynny yw, ffynonellau ar wahân i ddarlledwyr teledu, dosbarthwyr a stiwdios ffilm neu deledu, neu labeli cerddoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys dylanwadwyr, podledwyr a sianeli adloniant mewn amrywiaeth o genres fel 'chwarae gemau', 'agor bocsys' ac 'ymateb'.

Dim ond tua un rhan o bump o'r amser sy'n cael ei dreulio gan ddefnyddwyr YouTube yn y DU sy'n mynd ar gynnwys gwreiddiol o'r DU, tra bo dros hanner yn mynd ar gynnwys o Ogledd America. Fodd bynnag, mae YouTube – a llwyfannau ar-lein eraill – hefyd yn helpu crewyr cynnwys y DU i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, gan gynnwys yn rhyngwladol. Er enghraifft, mae gan gwmni cyfryngau'r DU, Goalhanger, fwy a mwy o gynulleidfa yn yr Unol Daleithiau ar gyfer ei bodlediadau fel *The Rest Is History*.

Mae cynulleidfaoedd yn dod o hyd i gynnwys ar YouTube mewn sawl ffordd. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu fod un o bob dau ymweliad yn y porwr â fideo YouTube yn deillio o wylio fideo YouTube arall. Efallai bod hyn yn cael ei sbarduno gan bobl yn clicio ar argymhellion yn y nodwedd Up Next ar YouTube. Tudalen hafan YouTube yw'r elfen fwyaf arwyddocaol nesaf sy'n sbarduno ymddygiad defnyddwyr, ac roedd hyn yn rhagflaenu tua 15% o fideos.[16] Mae hyn yn awgrymu bod y cynnwys mae pobl yn ei wylio ar YouTube yn cael ei sbarduno'n bennaf gan argymhellion YouTube. Yn ôl YouTube, mae eu system argymhellion yn esblygu'n gyson yn seiliedig ar arwyddion fel hanes gwylio, hanes chwilio, tanysgrifiadau, hoff bethau, cas bethau, "dim diddordeb" a dewisiadau adborth "ddim yn argymell sianel", ac arolygon bodlonrwydd.

## Mae cynulleidfaoedd hefyd yn gwylio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol

Mae cynulleidfaoedd hefyd yn treulio amser yn gwylio cynnwys fideo ar gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig pobl iau.[17] Er enghraifft, cyrhaeddodd Facebook/Messenger 93% o oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2025, a chawson nhw eu defnyddio 39 munud y dydd ar gyfartaledd. Cyrhaeddodd Instagram 78% o oedolion yn y DU ym mis Mai 2025, gyda defnyddwyr rhyngrwyd y DU yn treulio 20 munud y dydd ar gyfartaledd arno. Mae faint o amser sy'n cael ei dreulio ar y gwasanaethau hyn yn

---

[15] Barb fel y'i gwyliwyd. Meini prawf cyrhaeddiad: Gwylio 3 munud a mwy yn olynol o YouTube yn y cartref ar ddyfais wedi'i chysylltu, bob wythnos.

[16] Dadansoddiad Ofcom o ddata ffrwd glicio Ipsos Iris, 15 Ionawr i 15 Chwefror 2025. Sylfaen o 7,828 o banelwyr 15+ yn y DU. Mae'r data'n cynnwys gweithgarwch yn y porwr yn unig (nid defnydd ar y teledu na defnydd arall o'r ap). Mae'r dadansoddiad hwn wedi'i gyfyngu i sut mae fideos YouTube yn cael eu darganfod ar borwyr gwe. Rydym yn cydnabod bod 41% o'r gwylio yn y cartrefi ar YouTube yn y DU yn digwydd ar setiau teledu. Edrychwch ar Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion.

[17] Nid yw gwylio fideos ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol y cyfeirir atyn nhw yn y paragraff hwn wedi'i gynnwys ym mesuriad Barb ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y ffigurau gwylio fideos yn y cartref y cyfeirir atyn nhw yn gynharach yn ffigur 1.

amrywio gydag oedran. Er enghraifft, treuliodd defnyddwyr Instagram rhwng 18 a 24 oed yn y DU 40 munud y dydd ar Instagram tra bo defnyddwyr 65 oed a hŷn wedi treulio chwe munud y dydd arno. Mae pobl ifanc hefyd yn defnyddio Snapchat (18-24 oed: cyrraedd 73%, 48 munud y dydd ar gyfartaledd) a TikTok (18-24 oed: cyrraedd 81%, 62 munud y dydd ar gyfartaledd).[18]

### Mae gwasanaethau radio a sain hefyd yn symud ar-lein ond ar gyfradd arafach

Mae cynnwys sain yn boblogaidd iawn ymysg cynulleidfaoedd, gyda 93% o bobl yn gwrando ar ryw fath o gynnwys sain bob wythnos.[19] Mae gwrando ar y radio yn dal yn boblogaidd, gyda'r ffigurau RAJAR diweddaraf yn rhoi nifer y gynulleidfa wythnosol ar 87% o oedolion yn y DU,[20] ond mae cyfran fawr o bobl hefyd yn gwrando ar fathau mwy newydd o gynnwys sain. Er enghraifft, mae ymchwil Ofcom yn dangos bod cynifer o bobl nawr yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth fel Spotify ac Amazon Music bob wythnos (61%) ag y maen nhw'n gwrando ar radio cerddoriaeth (62%), gyda phobl ifanc dros ddwywaith yn fwy tebygol o wrando ar y gwasanaethau hyn na phobl 55 oed a hŷn.[21] Mae gwrando ar y radio ei hun hefyd yn digwydd fwyfwy ar-lein. Mae setiau radio analog a DAB yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o'r gwrando ar y radio (69%) ond mae gwrando ar-lein drwy seinyddion clyfar a dyfeisiau eraill (28%) wedi bod yn cynyddu'n araf (cynnydd o chwe phwynt canran yn ystod y tair blynedd diwethaf). Roedd seinyddion clyfar yn unig yn cyfrif am ychydig o dan un rhan o bump o'r gwrando ar y radio yn Ch1 2025 (18%).[22]

Y BBC yw'r unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu gorsafoedd radio ar gyfer cynulleidfaoedd, er bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn darparu podlediadau (yn ogystal â'r BBC). Mae radio masnachol hefyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cerddoriaeth a siarad, ac mae radio cymunedol yn darparu gwasanaethau mewn ardaloedd neu gymunedau penodol. Mae cynulleidfaoedd hefyd yn gwrando'n eang ar ffynonellau eraill (heb eu rheoleiddio'n gyffredinol), fel podlediadau gan amrywiaeth o ddarparwyr eraill.

Mae llwyfannau rhannu fideos hefyd yn chwarae rhan gynyddol bwysig o ran gwrando ar gynnwys sain, a YouTube yw'r gwasanaeth sain ar-lein y gwrandewir arno fwyaf, ac yna Spotify. BBC Sounds yw'r pedwerydd gwasanaeth y gwrandewir arno fwyaf. Mae cynulleidfaoedd yn defnyddio YouTube ar gyfer fideos cerddoriaeth fel gwrando cefndirol, cerddoriaeth ar-lein a phodlediadau. Maen nhw hefyd yn defnyddio YouTube i wylio podlediadau - mae'n well gan bron i 30% o bobl sy'n defnyddio podlediadau wneud hynny gyda fideo.[23]

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn datblygu eu strategaethau

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddatblygu eu gwasanaethau fideo ar-alw fel bod modd cael gwasanaeth sydd wedi'i deilwra mwy a helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys. Maen nhw'n cynyddu faint o gynnwys sydd ar eu chwaraewyr ac, mewn rhai achosion, yn ychwanegu at nifer y sianeli byw y gall cynulleidfaoedd gael gafael arnyn nhw. Mae llawer o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn newid eu strategaethau comisiynu i dargedu genres sy'n

[18] Ipsos Iris, defnyddiwyd samplau 18+, 18-24 a 65+, Mai 2025.
[19] Ofcom's Audio Listening in the UK Report: 2025, t4.
[20] RAJAR Ch1 2025.
[21] Arolwg Sain Ofcom 2025.
[22] RAJAR Ch1 2025.
[23] Mae trafodaeth fanylach am bodlediadau ar gael yn ein hadroddiad Audio Listening in the UK.

llwyddiannus ar wasanaethau ffrydio (er enghraifft, dramâu premiwm a rhaglenni adloniant) a chynnwys effaith uchel i ddenu gwylwyr at eu chwaraewyr fideo ar-alw.

Er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi mwy a mwy o'u cynnwys ar lwyfannau rhannu fideos fel YouTube. Fel y trafodwyd yn Atodiad 1, roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio llwyfannau rhannu fideos fel YouTube ar y dechrau i ddangos clipiau a oedd yn hyrwyddo eu cynnwys llinol neu eu cynnwys fideo ar-alw gyda'r bwriad o ddenu cynulleidfaoedd yn ôl at y gwasanaethau hyn. Ond, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Channel 4 wedi dechrau gosod penodau hyd llawn ar y llwyfan (roedd nifer y bobl a oedd yn gwylio penodau llawn ar Channel 4 wedi cynyddu 169% i 110 miliwn yn 2024),[24] ac mae ITV wedi dechrau treialu hyn yn ddiweddar hefyd. Mae Channel 4 yn comisiynu cynnwys ar gyfer llwyfannau digidol ac mae gan Channel 4 ac ITV asiantaethau mewnol sy'n creu cynnwys yn benodol ar gyfer eu chwaraewyr eu hunain ac ar gyfer llwyfannau rhannu fideos.

Yn aml, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio strategaethau gwahanol ar gyfer genres penodol. Er enghraifft, maen nhw'n teilwra eu cynnwys newyddion i wahanol gynulleidfaoedd a llwyfannau ac yn rhoi clipiau a chrynodebau o ddigwyddiadau chwaraeon allweddol, fel goliau, ar lwyfannau fel YouTube, TikTok ac Instagram. Mae'r BBC yn datblygu ei strategaeth ar gyfer cynnwys i blant, i gynnwys fideos wedi'u gwneud yn benodol ar gyfer YouTube yn ogystal â chyfres o sianeli byw ar y llwyfan. Mae gan y rhan fwyaf o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus strategaethau ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau ar TikTok a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, er bod hyn yn tueddu i fod yn gynnwys hyrwyddo ar ffurf fwy byr. Er enghraifft, ar TikTok roedd gan y BBC glipiau feirol o Sabrina Carpenter a Tony Bellew tra bo 14.5 miliwn o wylwyr yn y DU wedi gwylio rhagflas o *Married at First Sight UK* gan Channel 4.


Fel y trafodir yn Adran 5, rydym yn cydnabod bod strategaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar wasanaethau trydydd parti yn esblygu, a byddan nhw'n parhau i newid wrth iddyn nhw ddysgu mwy am ddisgwyliadau cynulleidfaoedd ar lwyfannau fel YouTube a TikTok.

## Efallai na fydd pobl ifanc yn ffurfio cysylltiad â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Fel y trafodwyd ym mis Rhagfyr, mae arferion gwylio pobl iau yn wahanol iawn i grwpiau oedran hŷn. Fel y dengys Ffigur 3 isod, mae'r grwpiau hyn hefyd yn wahanol o ran lle maen nhw'n chwilio am gynnwys y tro cyntaf. Mae YouTube a Netflix yn gyrchfannau cyntaf poblogaidd i blant (4-15 oed) a phobl iau (16-34 oed) ac mae pobl 35 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddechrau eu teithiau gwylio gyda BBC One.

[24] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2024, t.71.


### Ffigur 3: Y cyrchfannau cyntaf ar gyfer gwylio yn ôl sianel/gwasanaeth, Tachwedd 2024




*Ffynhonnell: Ofcom/TRP TV Viewer Journeys*

Mae plant a phobl ifanc yn treulio llawer llai o amser yn gwylio gwasanaethau darlledwyr nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae plant 4-6 oed y dyddiau hyn yn treulio cyfran fwy o'u hamser gwylio gartref ar YouTube (27%) nag y maen nhw ar yr holl wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd (21%). Mae'r patrymau hyn yn cynyddu gydag oed y plant: Mae plant 7-12 oed yn treulio dros draean o'u hamser gwylio yn y cartref (35%) ar YouTube ac mae plant 13-15 oed yn treulio bron i hanner (49%) ar YouTube a TikTok. Mae gwasanaethau ffrydio fel Netflix a Disney hefyd yn perfformio'n dda ymysg plant, gyda'r rheini rhwng 4 a 6 oed yn treulio cymaint o'u hamser gwylio ar Netflix (15%) ag y maen nhw'n ei dreulio ar wasanaethau'r BBC (14%).

### Ffigur 4: Cyfran y gwylio yn y cartref yn ôl grŵp oedran a darparwr: 2024




*Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwyliwyd. Wedi'i gyfrifo o'r munudau sy'n cael eu gwylio ar bob gwasanaeth o gyfanswm yr amser gwylio fideos yn y cartref (gan gynnwys gwylio nad oedd modd ei adnabod), ar draws setiau teledu a phob dyfais sydd wedi'i chysylltu â band eang y cartref.*


Nid oes gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o ba gynnwys sy'n cael ei gyflwyno i blant ar lwyfannau rhannu fideos fel YouTube a beth maen nhw'n dewis ei wylio - gan gynnwys pa mor aml maen nhw'n dod o hyd i gynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ac yn ei wylio. Fodd bynnag,

mae'n debygol nad yw llawer o'u hamser gwylio yn gynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[25] Mae arferion gwylio a gwrando presennol pobl ifanc yn peri risg i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a nodau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol os na fydd y bobl ifanc yn dewis gwylio a gwrando ar gynnwys gwasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth iddyn nhw fynd yn hŷn.

## Mae cynulleidfaoedd yn croesawu newyddion ar-lein

Mae newyddion a materion cyfoes yn chwarae rhan hanfodol wrth hwyluso dealltwriaeth ddinesig a chynnig trafodaeth deg a gwybodus i'r cyhoedd. Mae sector newyddion lluosog a dibynadwy yn elfen hanfodol democratiaeth sy'n gweithio'n dda. Mae gan y DU gyfoeth o sefydliadau newyddion a chyfryngau sy'n darparu newyddion o ansawdd uchel ar y teledu, y radio, ar-lein, ar bodlediadau ac mewn print. Rydym yn nodi tueddiadau yn y sector sy'n berthnasol i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yma ac mae ein trosolwg blynyddol o sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion yn y DU yn edrych ar y rhain a materion eraill yn fanylach.

**Ffigur 5: Defnyddio gwahanol lwyfannau ar gyfer newyddion**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025*[26]

Yn unol â thueddiadau ehangach, mae cynulleidfaoedd yn troi at ffynonellau ar-lein i gael newyddion. Mae saith oedolyn o bob deg yn dweud eu bod yn cael gafael ar newyddion ar-lein ac mae llawer o hyn drwy gyfryngwyr ar-lein fel y cyfryngau cymdeithasol (51%), peiriannau chwilio (28%) a gwasanaethau cyd-gasglu newyddion (15%). Meta yw'r cyfryngwr ar-lein a ddefnyddir fwyaf o hyd (39%) gyda Facebook y gwasanaeth unigol a ddefnyddir fwyaf cyffredin (30%) a TikTok yr un sy'n tyfu gyflymaf (11% i fyny o 1% yn 2020). Ymysg y cynulleidfaoedd sy'n cael mynediad uniongyrchol at wefannau ac apiau sefydliadau newyddion ar gyfer eu newyddion, yr un a ddefnyddir fwyaf yw BBC News (59%), wedyn Sky News (21%), a The Guardian (20%).

---

[25] Mae ymchwil feintiol ar gyfer Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau yn rhoi rhagor o syniad o arferion gwylio plant. Er enghraifft, rydym yn gwybod mai fideos doniol neu'r rheini sy'n cynnwys pranciau neu heriau yw'r math mwyaf poblogaidd o fideos gyda phlant, yn enwedig gyda phlant hŷn. Mae'r ail fath mwyaf poblogaidd o gynnwys - cartwnau, animeiddiadau, fideos byr iawn a chaneuon - yn arbennig o boblogaidd ymysg grwpiau oedran iau.

[26] Cwestiwn: C1. Pa rai o'r llwyfannau canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sylfaen: Pob oedolyn 16+ 2025=4573, 2024=5466, 2023=4556, 2022 W2*=2792, 2020=4576, 2019=4691, 2018=4618 *2022 W1, and 2021, data heb ei ddangos oherwydd nad oedd gwaith maes wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod pandemig Covid-19. Mae 'ar-lein' yn cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, podlediadau a gwefannau/apiau eraill mae modd cael gafael arnyn nhw drwy unrhyw ddyfais Ychwanegwyd gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr yn 2023.

Mae lefelau gwylio newyddion sy'n cael ei ddarlledu ar set deledu yn parhau i ostwng (63% i lawr o 66% y llynedd) ond mae'n dal yn bwysig i lawer, yn enwedig cynulleidfaoedd hŷn. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i chwarae rhan allweddol yn y ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion, gyda 74% o oedolion yn dweud eu bod yn defnyddio o leiaf un gwasanaeth newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (er bod hyn yn gostwng yn araf). Y BBC yw'r darparwr newyddion sy'n cael ei ddarlledu a ddefnyddir fwyaf gan gyrraedd dwy ran o dair o oedolion yn y DU, ac yna ITV (34%).[27]


## Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r ffynhonnell newyddion fwyaf dibynadwy o hyd

Er bod cynulleidfaoedd yn defnyddio mwy a mwy o lwyfannau ar-lein i gael gafael ar newyddion, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, maen nhw fel arfer yn rhoi sgôr is i'r gwasanaethau hyn na newyddion sianeli darlledu ar nifer o nodweddion.[28] Mae llai na hanner y rheini sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i gael newyddion yn rhoi sgôr uchel iddo o ran cywirdeb (43%), dibynadwyedd (44%) a diduedddrwydd (44%). I'r gwrthwyneb, mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus lefelau uwch o ymddiriedaeth yn y newyddion maen nhw'n ei ddarlledu – 68% ar gyfer defnyddwyr rheolaidd y BBC, a thebyg i wylwyr rheolaidd prif ddarparwyr newyddion teledu eraill; ITV (68%), Sky (67%), Channel 4 (72%), a Channel 5 (60%).[29] Mae cynulleidfaoedd yn dal i weld newyddion o ansawdd uchel fel rhywbeth pwysig, gyda 49% o oedolion yn y DU yn dweud bod darparu newyddion dibynadwy a chywir ymysg y tair nodwedd bwysicaf i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu darparu i gymdeithas yn gyffredinol.[30]

---

[27] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.
[28] Pan gymerir hyn fel cyfartaledd ar draws yr holl wasanaethau ar-lein.
[29] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025. Dylid nodi bod cynnwys newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd ar gael ar wasanaethau cyfryngau cymdeithasol ac mae'r sgoriau hyn yn dangos yr heriau wrth asesu priodoleddau darparwyr newyddion unigol ar gyfryngau cymdeithasol oherwydd mae'n hawdd iddyn nhw fynd ar goll ynghanol yr amrywiaeth eang o gynnwys arall nad yw'n cael ei reoleiddio.
[30] Traciwr PSM Ofcom 2023. Gofynnwyd y cwestiwn hwn i'r holl ymatebwyr a lenwodd yr arolwg ar-lein, heb gynnwys y rheini a gwblhaodd yr arolwg dros y ffôn.

**Ffigur 6: Defnyddwyr rheolaidd sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chyfryngwyr ar-lein a roddodd sgôr uchel iddyn nhw (ystod 7-10) ar gyfer ymddiriedaeth, 2025**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.*[31]

Mae newyddion lleol hefyd yn cael ei werthfawrogi o ran ymddiriedaeth ynddo a'i gywirdeb. Mae bron pob oedolyn (93%) yn dweud eu bod yn defnyddio newyddion neu wybodaeth leol. Roedd 80-90% o ddefnyddwyr yn credu bod teledu, radio, ffynonellau wedi'u hargraffu, a gwefannau papur newydd lleol i gyd yn ddibynadwy ac yn gywir ar y cyfan, ac roedd tua 60% o ddefnyddwyr yn ymddiried mewn newyddion lleol ar gyfryngau cymdeithasol ac apiau negeseuon, gan godi i 71% ar gyfer peiriannau chwilio.[32]

Fodd bynnag, canfu ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol fod yr heriau sy'n wynebu newyddion lleol yn debyg i'r sector newyddion yn fwy cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cynulleidfaoedd yn symud o ffynonellau newyddion teledu a phrint i ffynonellau ar-lein, y gostyngiad a fu ar yr un pryd mewn refeniw hysbysebion, a rôl gynyddol cyfryngwyr ar-lein yn y gadwyn gwerth newyddion. Fe welsom hefyd fod cystadleuaeth ar-lein am sylw cynulleidfaoedd sydd, i raddau helaeth, yn anfodlon talu am newyddion, yn ogystal â niferoedd cynyddol o bobl sy'n ymddieithrio oddi wrth newyddion neu'n mynd ati i osgoi newyddion yn ehangach.

Mae mwy a mwy o ymwybyddiaeth a defnydd o offer deallusrwydd artiffisial gan gynulleidfaoedd newyddion, ond mae lefelau ymddiriedaeth yn y dechnoleg yn isel ar hyn o bryd. Mae tua thri oedolyn o bob deg (31%) yn dweud eu bod wedi defnyddio offer deallusrwydd artiffisial fel ChatGPT a Gemini, o'i gymharu â llai na chwarter (23%) yn 2023.[33] Mewn mathau eraill o ymchwil, dywedodd 37% o'r ymatebwyr y bydden nhw'n ystyried defnyddio offer chwilio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i grynhoi'r prif straeon newyddion.[34] Fodd bynnag, yn gynharach eleni, cyhoeddodd y BBC ymchwil ar

[31] Cwestiwn: E3. Ac i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y datganiadau a ganlyn yn berthnasol i <BRAND> fel ffynhonnell newyddion? Atebwch gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10; Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio pob ffynhonnell ar gyfer newyddion o leiaf unwaith yr wythnos 2025: BBC TV=2314, ITV=1320, Channel 4=512, Channel 5=236, YouTube=871, Instagram=783, TikTok=494, X=622, Facebook=1376.

[32] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau a Newyddion Lleol 2025.

[33] Ofcom, Adroddiad ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau 2025

[34] 'Thinks Insight & Strategy' ar ran y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF), 2025. Deall Defnydd Defnyddwyr o Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol.

gywirdeb sgwrsfotiau deallusrwydd artiffisial ar gyfer deall a chrynhoi ei gynnwys newyddion ac mae'n honni ei fod wedi canfod 'cryn anghysondebau' yn yr atebion a ddeilliodd.

### Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn datblygu eu strategaethau newyddion

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn rhoi newyddion ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos ers nifer o flynyddoedd - er enghraifft, mae gwasanaethau newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod ar YouTube ers dros ddegawd. Dros y blynyddoedd diwethaf, maen nhw wedi llwyddo i ymgysylltu mwy â llwyfannau rhannu fideos a chyfryngau cymdeithasol ac wedi bod yn arbrofi gyda chreu cynnwys yn benodol ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn, gan gynnwys drwy dreialu gwahanol fformatau a hyd y straeon newyddion ac ymhle maen nhw'n eu dosbarthu.

Mae'r BBC yn frand newyddion sy'n cael ei gydnabod yn fyd-eang ac mae wedi llwyddo i ddenu miliynau o danysgrifwyr a dilynwyr byd-eang i'w dudalennau newyddion ar lawer o lwyfannau rhannu fideos a gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd wedi ymrwymo i ehangu presenoldeb ei newyddion ar lwyfannau YouTube, TikTok ac Instagram eleni yn ogystal â buddsoddi rhagor er mwyn gallu cyflwyno fideos fertigol a fideos ffurf byr.

Mae ITV wedi cynyddu'n sylweddol y cynnwys mae'n ei roi ar YouTube Shorts eleni i wella ymgysylltiad â gwahanol grwpiau oedran. TikTok oedd y llwyfan a dyfodd gyflymaf ar gyfer Channel 4 News yn 2024, gyda dros biliwn o wylwyr i gyd ar draws y byd.[35] Tynnodd Channel 4 sylw at y ffaith ei fod yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn fformatau arloesol i adrodd straeon sy'n bodloni'r Genhedlaeth Z ond yn cynnal cywirdeb a didueddrwydd dyladwy.[36]

## Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chael yn llawer anoddach ariannu'r gwaith o gynhyrchu a dosbarthu cynnwys o ansawdd uchel o'r DU

Mae darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn dibynnu ar gyllid sefydlog a digonol. Yn y DU, mae'r system bresennol o gymorth ariannol ar gyfer creu a dosbarthu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol yn canolbwyntio ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda chymorth ffi'r Drwydded Deledu, refeniw hysbysebion, trwyddedau teledu daearol digidol, ac amlygrwydd ar amserlenni rhaglenni electronig. Rydym yn disgwyl i ddarpariaethau amlygrwydd newydd y Ddeddf Cyfryngau ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar setiau teledu sydd wedi'u cysylltu a dyfeisiau eraill arwain at fanteision amlwg o ran pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ond nid yw wedi cael ei roi ar waith yn llawn eto.[37] Mae'r gwaith o gynhyrchu cynnwys teledu a ffilm yn cael ei gefnogi hefyd gan system o gredydau treth sy'n cymell cynhyrchu cynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant y DU ac sy'n cefnogi twf y sectorau clyweledol yn y DU.

---

[35] Adroddiad a Datganiadau Ariannol Channel Four Television Corporation 2024


[36] Channel 4, 2025. Gen Z: Trends, Truth and trust.

[37] Gweler gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau am yr amserlen a'r cynnydd.

## Mae refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dan straen sylweddol

Mae refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real dros y degawd diwethaf, fel y dangosir yn Ffigur 7. Gostyngodd cyllid ffi'r Drwydded Deledu Gyhoeddus[38] i £2.7 biliwn yn 2024, ar ôl gostwng dros £300m mewn termau real ers 2019 (-11%) ac £1 biliwn (-28%) ers 2014. Mae refeniw hysbysebion teledu llinol ar brif sianeli a sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol wedi gostwng bron i £1 biliwn (-30%) mewn termau real ers 2019 (gostyngiad o £1.5 biliwn, neu 39%, ers 2014), gan ddisgyn i £2.3 biliwn yn 2024. Er bod refeniw hysbysebion ar wasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr wedi cynyddu, nid yw wedi gwneud iawn am y gostyngiad hwn. Fe wnaeth cyfanswm refeniw gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr (gan gynnwys gwasanaethau aml-sianel, er bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am y mwyafrif helaeth) gynyddu tua £500m mewn termau real rhwng 2019 a 2024, i £1.1 biliwn, gan adael diffyg amlwg.

**Ffigur 7: Refeniw teledu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ôl math, a chyfanswm refeniw gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr: 2019-2024**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*[39]

## Mae'n anodd gwneud arian a'i briodoli ar lwyfannau trydydd parti

Er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi mwy o gynnwys ar lwyfannau trydydd parti. Ond er bod nifer sy'n gwylio llwyfannau cymdeithasol yn fwy na cheisiadau am raglenni fideo ar-alw gan ddarlledwyr, mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod gwerth cyfartalog

---

[38] Mae refeniw ffi'r drwydded deledu wedi'i ddyrannu i wasanaethau teledu ar sail dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. Yn ei adroddiad dywedodd y BBC mai £3.8 biliwn oedd cyfanswm incwm ffi'r drwydded deledu yn ei flwyddyn ariannol 2024/5.

[39] Cyflwynir y ffigurau mewn termau real (wedi'u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer chwyddiant). Mae refeniw ffi'r drwydded deledu yn cael ei ddyrannu i sianeli a ariennir gan arian cyhoeddus ar sail dadansoddiad Ofcom o ddata'r BBC. *Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am y mwyafrif helaeth o'r gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Hysbysebion yw refeniw gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys rhai elfennau eraill, fel refeniw tanysgrifiadau. Mae refeniw 'arall' yn cynnwys nawdd, gosod cynnyrch, incwm tanysgrifwyr, siopa ar y teledu, gwasanaethau rhyngweithiol, gwerthu rhaglenni, talu-i-wylio, a ffynonellau eraill. Mae 'sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol' yn cynnwys y canlynol: ITV, STV, ITV Breakfast, Channel 4, Channel 5 ac S4C.

gwylio cyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau rhannu fideos yn is o lawer na gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr.[40] Mae hyn yn tynnu sylw at yr her sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol o ran gwneud arian o gynnwys ar lwyfannau trydydd parti. Mae ITV a Channel 4 wedi dod yn bartneriaid gwerthu hysbysebion swyddogol i YouTube, gan ganiatáu iddynt werthu eu rhestr eu hunain o sianeli YouTube ar gyfradd well o ran cyfran refeniw.

Wrth wylio cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau trydydd parti, mae perygl nad yw cynulleidfaoedd yn sylweddoli pwy sydd wedi comisiynu'r cynnwys. Drwy roi eu cynnwys ar lwyfan trydydd parti, mae'n bosibl y bydd brand y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei golli o dan frand y sawl sy'n lletya'r cynnwys. Mae hwn yn broblem benodol i'r BBC, sy'n credu bod angen i wylwyr briodoli'r cynnwys i'r BBC er mwyn iddyn nhw ddeall y gwerth y mae'n ei ddarparu ac i gefnogi'r ffaith fod pobl yn talu ffi'r drwydded.

## Ar yr un pryd, mae nifer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu costau cynyddol

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu costau buddsoddi yn eu llwyfannau fideo ar-alw eu hunain a chreu cynnwys newydd a fydd yn llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd i'w gwasanaethau. Mae angen iddyn nhw hefyd ddod o hyd i ffyrdd o gyrraedd cynulleidfaoedd ar lwyfannau trydydd parti, gan gynnwys comisiynu gwahanol fathau o gynnwys i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar y gwasanaethau hyn, ac ysgwyddo holl gostau rhedeg sianeli teledu llinol.

Mae nifer o randdeiliaid wedi dweud wrthym fod cost cynhyrchu a chomisiynu cynnwys wedi cynyddu, yn enwedig cynnwys premiwm wedi'i sgriptio. Efallai fod y cynnydd mewn buddsoddiad gan gomisiynwyr rhyngwladol wedi dylanwadu ar hyn, gan arwain at alw mawr am dalent ac adnoddau, ynghyd â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynyddu gwerthoedd cynhyrchu eu cynnwys i gystadlu.

Fel y nodwyd gennym ym mis Rhagfyr, mae'n bosibl y gallai integreiddio deallusrwydd artiffisial ar draws y gadwyn gyflenwi arwain at rai arbedion mewn costau i ddarlledwyr. Mewn arolwg diweddar gan Pact, dywedodd 57% o'r cwmnïau cynhyrchu eu bod eisoes yn defnyddio deallusrwydd artiffisial neu'n bwriadu defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol agos yn eu proses gynhyrchu. Mae'r diwydiant yng nghamau cynnar defnyddio'r dechnoleg hon ac mae'n anodd rhagweld beth fydd maint tebygol unrhyw ostyngiad mewn costau.

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ymateb i'r heriau ariannol drwy newid y ffordd maen nhw'n comisiynu cynnwys

Yn wyneb heriau ariannol, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cael trafferth cynnal lefelau buddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU. Mewn termau real, gostyngodd eu gwariant uniongyrchol ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf i £2.8 biliwn yn 2024, o'i gymharu ag uchafswm o £3.5 biliwn wedi'i addasu yn ôl CPI yn 2016. Mae gostyngiadau yng ngwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi cael eu gwrthbwyso i raddau gan gyfraniadau o gyllid trydydd parti, a oedd bron £700m yn 2024.[41] Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y buddsoddiad mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y

[40] Data cyfrinachol sy'n cael ei gasglu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

[41] Mae hyn yn cynnwys cyd-gynyrchiadau, ffi ymlaen llaw am ddosbarthu, benthyciadau a ffynonellau cyhoeddus, yn enwedig credydau treth a chyllid gan gyrff cyhoeddus (er enghraifft, asiantaethau sgrin a chyrff cyhoeddus fel BFI yn cefnogi cynyrchiadau ledled y DU, ac mae cynlluniau fel Cronfa Sgrin Fyd-eang y DU yn cefnogi cynhyrchwyr yn y DU i gael gafael ar gyllid rhyngwladol).

tro cyntaf yn £3.5 biliwn yn 2024, o'i gymharu â £3.9 biliwn wedi'i addasu yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2016. Roedd dwy ran o dair (65%) o’r cyllid trydydd parti ar gyfer cynyrchiadau drama yn 2024, ond mae hefyd yn cefnogi mathau penodol o raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws amrywiaeth o genres.[42] Fodd bynnag, mae opsiynau cyllido amgen mwy cyfyngedig ar gyfer cynnwys o'r DU sydd â llai o apêl ryngwladol.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn newid y math o gynnwys maen nhw'n ei gomisiynu hefyd, gan symud cyllidebau buddsoddi i lai o gynyrchiadau sy'n cael mwy o effaith i ddenu gwylwyr i'w gwasanaethau fideo ar-alw. Mae hyn wedi bod ar draul rhai rhaglenni gwerth canolig fel operâu sebon a dramâu parhaus. Mae adroddiad Changing UK Content Investment gan Pact yn awgrymu bod comisiynau gwerth canolig yn gostwng, wrth i wariant gael ei begynnu mwy rhwng cynyrchiadau cyllideb uwch ac is.

Mae darparu amrywiaeth eang o gynnwys yn rhan o rwymedigaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac roedd ein hadroddiad ym mis Rhagfyr yn dweud eu bod, gyda'i gilydd, wedi cyflawni eu dibenion a'u hamcanion drwy gydol cyfnod yr adolygiad. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn oriau genres arbenigol, gan gynnwys rhaglenni arbenigol ffeithiol, celfyddydol, cerddoriaeth glasurol, a rhaglenni plant.

Mae pwysau penodol ar gynhyrchu cynnwys sy'n llai masnachol hyfyw, fel rhaglenni plant a newyddion. Mae'r ddau genre yn denu llai o refeniw hysbysebu - er enghraifft, mae gan deledu plant gyfyngiadau ychwanegol o ran hysbysebu. Gall hawliau eilaidd hefyd fod yn llai gwerthfawr i'r genres hyn - yn enwedig ar gyfer newyddion (pan fydd yn aml wedi dyddio ar ôl ei ddarlledu) a chynnwys diwylliannol ar gyfer plant (ond yn llai felly ar gyfer animeiddio). Mae digwyddiadau diweddar wedi tanlinellu'r heriau ariannol o ran comisiynu cynnwys. Er enghraifft, mae Sky wedi dweud na fydd yn comisiynu rhaglenni gwreiddiol i blant mwyach, ac mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyhoeddi ymchwiliad i ddarpariaeth teledu plant yn y DU yn y dyfodol.

## Efallai na fydd cyllid trydydd parti yn parhau i wrthbwyso cyllidebau is y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chael hi'n anoddach gwneud iawn am ddiffygion yn y cyllidebau cynnwys mewn marchnad fyd-eang sy'n fwy heriol ac yn ceisio osgoi risg. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym fod nifer o ddramâu sy'n canolbwyntio ar y DU yn cael eu cymeradwyo i'w comisiynu, ond na allant fwrw ymlaen oherwydd nad yw'r cyllid trydydd parti sydd ei angen gan gyllid rhyngwladol a’r cam cyn-gwerthu yn ddigonol. Mae hyn ynddo'i hun yn fwy a mwy o adlewyrchiad o'r tarfu ar y marchnadoedd gwylio a’r marchnadoedd hysbysebu yn fyd-eang, yn enwedig yn yr Unol Daleithiau. Mae’r ffaith bod cyfraniadau o'r fath at raglenni gwreiddiol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi sefydlogi yn profi hyn, a oedd mewn termau real wedi gostwng 2% o un flwyddyn i'r llall i £677m yn 2024.[43] Mae’r ffaith bod llai o risg yn cael ei gymryd yn cael ei adlewyrchu hefyd yn y gyfran gynyddol o gomisiynau’r DU sy’n cael eu hadnewyddu yn hytrach na’u bod yn sioeau newydd.[44]

---

[42] Ofcom/darlledwyr.
[43] Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.
[44] Gweler adroddiad Ampere Analysis ar gyfer ScreenSkills a 4Skills, 2025. Sizing up: workforce composition and capacity in the screen industries. An Ampere Analysis report for ScreenSkills and 4Skills, t. 29. Roedd yr adroddiad yn dangos bod comisiynau teledu sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU wedi gostwng o 61% yn 2020 i 52% yn 2024; roedd adnewyddu cyfresi sydd eisoes yn bodoli wedi cynyddu o 37% yn 2020 i 40% yn 2024; ac roedd comisiynau ffilmiau wedi cynyddu o 3% yn 2020 i 8% yn 2024.

Mae safbwyntiau cymysg am gyflwr y farchnad cyd-gomisiynu. Roedd adroddiad i'r Gymdeithas ar gyfer Darlledwyr Masnachol a Gwasanaethau Ar-alw (COBA) ar Dueddiadau Cyd-gomisiynu yn awgrymu bod cyfanswm cyd-gynyrchiadau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u sgriptio gyda ffrydwyr o'r Unol Daleithiau a stiwdios yn yr Unol Daleithiau (sy'n gymwys ar gyfer credydau treth teledu o safon) wedi gostwng o uchafswm o 35 yn 2019 ond wedi cynyddu 40% rhwng 2023 a 2024 (o 19 i 27 o gynyrchiadau).[45] Fodd bynnag, efallai nad yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'n llawn y pwysau diweddar sy'n effeithio ar y prosesau comisiynu presennol. Mae'r BBC a Channel 4 wedi dweud eu bod nawr yn gwneud llai o gyd-gomisiynau gyda'r ffrydwyr byd-eang a chyn bartneriaid cydgynhyrchu eraill sy'n cystadlu â nhw am gynulleidfaoedd y DU, am hawliau cynnwys ac am dalent greadigol.

### Mae trefniadau cyllido yn arwain at risgiau penodol ar gyfer creu cynnwys sy'n berthnasol i'r DU

Er bod cyllid trydydd parti yn helpu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynulleidfaoedd i gael rhaglenni cost uwch, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud bod dibynnu ar gyllid rhyngwladol yn eu rhoi ar drugaredd modelau busnes a phenderfyniadau cwmnïau rhyngwladol mawr nad oes ganddynt yr un amcanion gwasanaeth cyhoeddus. Mae cynhyrchwyr hefyd wedi dweud y gall fod yn fwy heriol gwneud arian, yn y tymor byr o leiaf, ar gynnwys sy'n ddiwylliannol berthnasol yn y DU sydd â llai o apêl ryngwladol. Ar ben hynny, pan fydd rhaglenni'n cael eu hariannu gan ddiffyg, yn gyffredinol mae angen i gynhyrchwyr aros nes bydd y dosbarthwr wedi adennill ei fuddsoddiad o werthiannau eilaidd yn y dyfodol cyn iddyn nhw gael unrhyw elw o'u heiddo deallusol.[46] Gall y mathau hyn o fargeinion roi straen penodol ar gynhyrchwyr llai a allai, o'u cymharu â chynhyrchwyr mawr, fod â llai o fynediad at gyfalaf ac asedau (fel eiddo deallusol) a llai o brofiad o lunio cytundebau ariannol cymhleth. Ac ystyried y pwysau cyllidebol sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr, gallai dibynnu ar gyllid trydydd parti greu’r risg y bydd cynnwys yn llai perthnasol i’r DU neu’n llai tebygol o gynnwys talent a syniadau newydd, wrth i gynnwys gael ei ddatblygu gyda golwg ar chwaeth ryngwladol a chwaeth sydd wedi ennill ei thir.

## Mae pwysau cyllidebol a phatrymau comisiynu sy'n newid yn ail-lunio sector cynhyrchu'r DU

Er mwyn darparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu ar sector cynhyrchu amrywiol a chadarn. Mae maint ac amrywiaeth gwaith comisiynu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn sail i ddatblygu sector ffyniannus yn y DU, sy'n cynnwys busnesau sy'n amrywio'n sylweddol o ran maint a ffocws.[47] Fodd bynnag, mae’r sector yn profi cyfnod cythryblus wrth iddo addasu i'r heriau ariannol sy’n wynebu’r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, y newid yn y galw gan gynulleidfaoedd a chomisiynwyr, a chynnydd mewn costau cynhyrchu cynnwys.

---

[45] Adroddiad ar gyfer COBA gan Ben Keen yn seiliedig ar ddata BFI, 2025. Co-commissioning Trends in UK High-End TV. Roedd yr adroddiad hefyd yn dangos bod cyd-gomisiynau wedi'u sgriptio gyda grwpiau Ewropeaidd wedi gostwng 50% o 8 yn 2023 i 4 yn 2024, er bod hyn wedi codi o 2 yn 2019.

[46] Mae cynhyrchwyr yn aml yn cymryd blaensymiau gan ddosbarthwyr i lunio cyllidebau rhaglenni ac yn elwa'n gyffredinol o werthiannau eilaidd ar ôl i'r buddsoddiad cychwynnol gael ei ad-dalu, gan rannu'r taliadau sy’n weddill â dosbarthwyr ac, mewn rhai achosion, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (yn ogystal â chyfarwyddwyr a thalentau eraill).

[47] Yn y sector mae nifer fach o stiwdios darlledwyr mawr a chwmnïau annibynnol mawr, a rhes hir o gwmnïau cynhyrchu annibynnol llai sydd yn aml yn fwy arbenigol

## Mae’r sector wedi dod yn fwy dibynnol ar ffynonellau buddsoddi sydd, o bosib, yn anodd eu rhagweld

Er mai’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy’n cyfrannu mwyaf o hyd at refeniw comisiynu sylfaenol cynhyrchwyr annibynnol, mae’r gyfran hon wedi gostwng dros amser oherwydd cynnydd sylweddol mewn mewnfuddsoddi o gwmnïau rhyngwladol, gan gynnwys gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio. Roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am 51% o’r refeniw comisiynu yn 2023 (wedi gostwng o 65% yn 2013), tra bod darparwyr rhyngwladol yn cyfrif am 39% (i fyny o 15% yn 2013). Yn gyffredinol, mae refeniw comisiynu sylfaenol cynhyrchwyr annibynnol wedi cynyddu 12% mewn termau real rhwng 2013 a 2023. Fodd bynnag, roedd 18% o ostyngiad mewn termau reall rhwng 2022 a 2023 – ac mae data lefel uchel cynnar o Gyfrifiad 2025 Pact yn dangos bod gostyngiad pellach, er ei fod yn llai, o 4% rhwng 2023 a 2024.[48]

Mae buddsoddiad gan ddarparwyr ar draws y byd wedi creu cyfleoedd sylweddol i dalent a busnesau yn y DU. Mae mewnfuddsoddiad wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'n dal yn sylweddol: yn 2021-22 gwelwyd cynnydd mewn gwariant cynhyrchu ar ôl pandemig Covid-19 ac yna gwelwyd gostyngiad yn 2023.[49] Roedd hyn yn adlewyrchu cyfuniad o ffactorau gan gynnwys dirywiad yn y farchnad yn dilyn yr adferiad dwy flynedd ar ôl Covid ac effaith streiciau'r awduron a'r actorion yn Hollywood. Cyfrannodd hyn at wneud mwy o weithwyr llawrydd yn ddi-waith ac mae wedi dangos yr effaith sylweddol y gall digwyddiadau rhyngwladol ei chael ar sector y DU. Ers hynny, mae mewnfuddsoddiad mewn teledu o safon wedi adfer i ryw raddau[50] ond os bydd cyllidebau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ostwng, efallai y bydd y sector yn dibynnu mwy fyth ar ffynonellau buddsoddi a allai fod yn gyfnewidiol.

## Mae newidiadau mewn patrymau comisiynu yn cael effaith amlwg ar rai cynhyrchwyr

Rydym yn deall bod y newidiadau mewn comisiynu tuag at gael llai o raglenni effaith uchel yn cael effaith benodol ar gynhyrchwyr annibynnol llai a chanolig (y mae llawer ohonynt wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau) a'r rheini sy'n gweithio mewn genres penodol (gan gynnwys genres sydd yn y fantol) sy'n fwy tebygol o ddibynnu ar gomisiynau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae darlledwyr a chynhyrchwyr wedi dweud wrthym fod gor-gapasiti mewn cwmnïau cynhyrchu llai, sy'n fwy tebygol o weithio mewn genres lle mae'r galw'n gostwng, a bod y farchnad bellach yn profi cyfnod 'cywiro'. Tra bod llawer o gynhyrchwyr yn awyddus i arallgyfeirio,[51] mae rhai cwmnïau cynhyrchu annibynnol llai sydd wedi hen ennill eu plwyf wedi cau, wedi uno â chwmnïau eraill, neu'n wynebu amgylchiadau heriol.[52]

---

[48] Cyfrifiad Pact ynghylch y Sector Cynhyrchu Teledu yn y DU, dadansoddiad Oliver and Ohlbaum. Mae refeniw wedi’i addasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar brisiau 2024. Mae data Pact yn cynrychioli refeniw i gynhyrchwyr nad ydynt yn eiddo llwyr i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae Cyfrifiad Pact yn casglu gwybodaeth ariannol gan gynhyrchwyr sy’n cymryd rhan drwy arolwg, a dywedir bod hyn yn cynrychioli tua 80%-90% o gyfanswm refeniw’r diwydiant.

[49] Mewnfuddsoddwyd £4.43 biliwn mewn teledu o safon yn 2022 ac roedd y ffigur hwn 49% yn is yn 2023, sef £2.25 biliwn. Gweler Sefydliad Ffilm Prydain, 2025. Film and high-end television programme production in the UK, 2024, t.7.

[50] Cynnydd o 25% yn 2024 i £2.82 biliwn. Sefydliad Ffilm Prydain, 2025. Film and high-end television programme production in the UK, 2024, t.7.

[51] Er enghraifft, canfu adroddiad Changing UK Content Investment gan Pact fod cynhyrchwyr sy’n gweithio gyda sgriptiau yn edrych yn benodol ar gyfleoedd rhyngwladol (80%) a bod cynhyrchwyr nad ydynt yn gweithio gyda sgriptiau yn edrych yn benodol ar genres newydd (47%) ac yn ystyried cynnwys wedi'i frandio (53%). t.57.

[52] Mae’r enghreifftiau’n cynnwys RDF Television, Endor Productions, Euston Films a ZigZag Productions.

Mae data'n awgrymu bod cyflenwad y gweithlu yn fwy na'r galw mewn llawer o feysydd yn y sector cynhyrchu: roedd gan weithlu sgrin y DU gapasiti o 60% (% o'r gweithwyr sydd ar gael sy'n cymryd rhan mewn prosiect) yn 2023-2024 i lawr o 80%-90% yn 2022, yn ôl adroddiad ScreenSkills a 4Skills Sizing Up[53]. Rydym wedi clywed bod rhai gweithwyr llawrydd yn gadael y diwydiant ac y gallai'r gostyngiad mewn gwaith gael mwy o effaith ar y rheini o gefndiroedd penodol, gan gynnwys y rheini sydd â llai o adnoddau ariannol i ymdopi â newid sydyn mewn incwm.

## Mae newidiadau comisiynu yn cyflwyno heriau o ran cynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar draws y DU

Gall heriau ariannol parhaus i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gofynion newidiol y gynulleidfa effeithio ymhellach ar gyfansoddiad y sector cynhyrchu. Hyd yma, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynhyrchu amrywiaeth eang o gynnwys, gan ddarparu 'ysgol ddatblygu' ar gyfer pobl a busnesau sy'n gweithio ym maes cynhyrchu i symud ymlaen o gomisiynau cyllideb is i gomisiynau cyllideb uwch. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd comisiynau gwerth canolig (fel dramâu parhaus a rhaglenni yn ystod y dydd) yn parhau i ostwng. Mae'r comisiynau hyn wedi darparu gwaith ar gyfer cwmnïau cynhyrchu llai i ganolig (yn enwedig y tu allan i Lundain), wedi gweithredu fel sylfaen hyfforddi ar gyfer y sector, ac wedi rhoi cyfle i gyflwyno talent a syniadau newydd i gynulleidfaoedd yn y DU.[54] Yn fwy cyffredinol, mae newidiadau comisiynu ar draws y diwydiant wedi cyfrannu at brinder sgiliau mewn rhai rolau ac ar lefel ganolig i lefel uwch, sy'n parhau i fodoli, er bod rhai rhannau eraill o'r gweithlu yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith.

Mae gwahanol wledydd a rhanbarthau'n wynebu heriau penodol o'r newidiadau mewn comisiynu sy'n ymwneud â chyfansoddiad eu gweithlu ac arbenigeddau genre. Er enghraifft, canfu adroddiad diweddar fod gweithluoedd yn yr Alban a de-orllewin Lloegr yn gwyro tuag at brosiectau teledu heb eu sgriptio a phrosiectau teledu i blant ac felly mae'r gostyngiad mewn comisiynu yn y genres hyn wedi cael effaith benodol yn y lleoliadau hyn.[55]

Mae cwotâu cynyrchiadau rhanbarthol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn mynnu bod cyfran benodol o oriau a gwariant cymwys rhaglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain ac (ar gyfer Channel 4 a'r BBC) yn y gwledydd, gan ddarparu gwasanaeth wrth gefn sy'n cefnogi canolfannau cynhyrchu ledled y DU. Yn ymarferol, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi rhagori ar y cwotâu hyn ac wedi symud mwy o'u cynyrchiadau rhwydwaith i rannau eraill o'r DU.[56] Fodd bynnag, awgrymwyd, wrth i gyllidebau leihau, fod comisiynau ac adnoddau mewn perygl o gael eu gwasgaru'n rhy denau, a gallai hyn greu rhai risgiau i gynnal más critigol mewn canolfannau cynhyrchu rhanbarthol dros y tymor hwy. Yn y pen draw, gallai hyn effeithio ar yr amrywiaeth o gynnwys a syniadau creadigol sy'n cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU.

---

[53] Gweler Sizing Up report for ScreenSkills and 4Skills, t.36.

[54] Er enghraifft, mae rhanddeiliaid wedi gwneud sylwadau'n ddiweddar ar fwriad y BBC o ddod â'r ddrama barhaus, River City, i ben ac wedi dweud ei bod yn sylfaen hyfforddi ar gyfer datblygu talent yn yr Alban. Gweler, er enghraifft, ddatganiad Bectu ar 18 Mawrth 2025 ac adroddiad Swyddogol Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban ar 15 Mai 2025

[55] Mae'r Adroddiad 'Sizing Up' ar gyfer ScreenSkills a 4Skills yn nodi bod y prinder hwn yn deillio o ddau ffactor: cyflogi a dyrchafu pobl yn gyflym yn ystod y cynnydd mewn cynhyrchu ar ôl COVID, a lefel uchel o arbenigedd yn y gweithlu sy'n golygu bod rhai genres a mathau o gynnwys yn dal i wynebu galw uchel ymysg y gweithlu (er enghraifft, teledu wedi'i sgriptio sydd â chyllideb uchel). t.6.

[56] Edrychwch ar ddogfen Ofcom, 2024. Public Service Broadcasting Annual Compliance Report 2024.

# 4. Ariannu a chynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

**Yn yr adran hon, rydym yn:**

- Edrych ar yr opsiynau ar gyfer sicrhau bod digon o gyllid ar gael yn y tymor hir, er mwyn i bawb allu parhau i gael gafael ar gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.
- Ystyried opsiynau i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy dros y tymor hwy.

## Cyflwyniad

Mae cynaliadwyedd ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal o dan bwysau sylweddol. Maen nhw wedi gweld gostyngiad mewn refeniw o hysbysebion teledu llinol ac o ffi'r drwydded deledu. Maen nhw hefyd yn ysgwyddo costau cyrraedd cynulleidfaoedd ar draws nifer o lwyfannau, ac maen nhw wedi bod yn addasu i gyrraedd cynulleidfaoedd ar lwyfannau trydydd parti.

Os na chaiff hyn ei reoli, bydd sefyllfa ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy’n gwaethygu yn ei gwneud yn fwyfwy anodd iddyn nhw gyflawni eu rhwymedigaethau o ran amrywiaeth, nifer ac ansawdd y rhaglenni teledu a gomisiynir. Mae'n debygol y bydd yr effaith fwyaf yn cael ei theimlo ymysg genres llai masnachol fel rhaglenni teledu i blant, newyddion a newyddion lleol.

Yma, rydym ni'n ystyried opsiynau i wella'r gefnogaeth i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol, er enghraifft drwy gynyddu refeniw neu leihau costau darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Ac ystyried y pwysau ar ddarparu cynnwys llai masnachol, rydym hefyd yn ystyried sut y gellid targedu cymorth at y meysydd lle mae angen hyn fwyaf. Rydym yn edrych ar ffyrdd o gynnal a gwella'r gefnogaeth i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus drwy set ehangach o gyfranwyr.

Mae comisiynu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gonglfaen i sector cynhyrchu llwyddiannus y DU ac mae wedi sbarduno datblygiad sgiliau a busnes ledled y DU, gan alluogi cynhyrchwyr i ddenu buddsoddiad rhyngwladol sylweddol. Wrth i gyllidebau darlledu gwasanaeth cyhoeddus leihau, rydym yn ystyried ffyrdd o gefnogi'r sector i barhau i addasu i newidiadau mewn comisiynu a’r galw gan gynulleidfaoedd.

Byddai angen i’r Llywodraeth neu reoleiddiwr arall weithredu ar nifer o’r opsiynau a amlinellwn, ac os felly, byddwn yn amlinellu ein dealltwriaeth a’r ystyriaethau polisi allweddol.

# Opsiynau i roi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar sylfaen ddiogel

## Bydd dyfodol ffi'r drwydded deledu yn cael effaith sylweddol ar y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Refeniw o drwyddedau teledu yw un o'r ffynonellau mwyaf o gyllid ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a dyma'r brif ffynhonnell refeniw ar gyfer y BBC ac S4C, gan ddarparu ychydig o dan £3.8 biliwn o refeniw yn 2024/5.[57]

Ym mis Tachwedd 2024, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y BBC ar sylfaen ariannol sefydlog ac y byddai cost trwydded deledu yn cynyddu yn unol â chwyddiant bob blwyddyn tan 2027.[58]

Bydd y llywodraeth yn ystyried dyfodol model cyllido'r BBC fel rhan o'r broses nesaf i adolygu'r Siarter a fydd yn dechrau yn 2025, gan gyflwyno Siarter newydd erbyn diwedd 2027.[59] Mae wedi dweud y bydd yr adolygiad yn sicrhau bod y BBC yn cael ei rymuso i barhau i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol sy'n cael ei ariannu mewn ffordd gynaliadwy, gan ddarparu BBC sy'n gallu cynnal ymddiriedaeth a chefnogaeth y cyhoedd mewn cyfnod anodd, cefnogi'r ecosystem ehangach, ac sydd wedi'i sefydlu i sbarduno twf ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.[60]

Ac ystyried pwysigrwydd y BBC ac S4C fel sefydliadau cyhoeddus, a phwysigrwydd refeniw trwydded deledu ar gyfer ariannu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, bydd y canlyniad yn ffactor hollbwysig wrth benderfynu ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.

## Gellid defnyddio rhwymedigaethau buddsoddi, ardollau a chronfeydd y gellir cystadlu amdanynt i gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

Mae amrywiol gymhellion ariannol yn cael eu defnyddio mewn rhai gwledydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu a chynhyrchu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Tra bo Llywodraeth y DU wedi gwrthod cyflwyno ardoll ar hyn o bryd, mae rhai rhanddeiliaid wedi galw am yr adnoddau hyn i gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, felly rydym wedi'u cynnwys fel opsiynau i'w hystyried ar gyfer y tymor hwy.

Mae sawl ffordd o osod rhwymedigaethau buddsoddi, ardollau a chronfeydd y gellir cystadlu amdanynt gyda gwahanol ffyrdd o greu buddsoddiad, gweinyddu cynlluniau a dosbarthu arian. Yn ymarferol, mae unrhyw ymyriad polisi yn gallu cyfuno sawl elfen hefyd:

Mae **rhwymedigaethau buddsoddi** yn mynnu bod darparwyr cyfryngau dethol yn buddsoddi canran o'u refeniw mewn meysydd a bennir yn y rheoliad. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys gofynion manwl ar le dylid targedu'r buddsoddiad, fel rhaglenni sy'n ymwneud â gwlad neu ranbarth penodol, cefnogi ieithoedd brodorol, datblygu talent neu hyfforddiant, a gwasanaethau mynediad ar gyfer cynulleidfaoedd anabl.

---

[57] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2024/2025, Gorffennaf 2025, t.58.
[58] Dadl Tŷ'r Cyffredin, 29 Tachwedd 2024, BBC Funding Model: Licence Fee and Simple Payment Plan, cyf 757, col61WS.
[59] Dadl Tŷ'r Cyffredin, 17 Rhagfyr 2024, BBC Charter Review, cyf 759, col290
[60] Yr Adran Busnes a Masnach a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Mehefin 2025. Cynllun Sector Diwydiannau Creadigol, t. 46.

Mae **ardollau** yn mynnu bod darparwyr cyfryngau dethol yn talu cyfran o'u refeniw i gronfa ganolog. Mae hyn yn cael ei weinyddu fel arfer gan gorff annibynnol sy'n dosbarthu arian i gyflawni amcan penodol. Er enghraifft, gall grantiau gael eu dyrannu i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu math penodol o gynnwys.

Mae **cronfeydd y gellir cystadlu amdanynt** yn ffordd o ddosbarthu cyllid. Gallai hyn ddod gan ddarparwyr cyfryngau drwy ardoll, neu gallai ddod gan y llywodraeth (er enghraifft, fel grant neu drwy ddyraniad o refeniw o ffi'r drwydded deledu). Mae'r cronfeydd yn cael eu gweinyddu fel arfer gan gorff annibynnol, sydd ag amcanion wedi'u diffinio'n glir, drwy broses ymgeisio cystadleuol.

## Mae gan randdeiliaid farn gymysg ar rwymedigaethau buddsoddi, ardollau a chronfeydd y mae modd cystadlu amdanynt

Rydym wedi siarad â llawer o randdeiliaid sydd wedi awgrymu rhwymedigaethau buddsoddi, ardollau a/neu gronfeydd y gellir cystadlu amdanynt fel ffordd o gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Fe wnaeth ymchwiliad diweddar gan Dŷ'r Cyffredin i 'British Film and High-End Television' ystyried y dylai ffrydwyr ddarparu mwy o gefnogaeth i gynhyrchu cynnwys diwylliannol Brydeinig ac y dylent dalu 5% o'u refeniw tanysgrifwyr y DU i gronfa ddiwylliannol.[61] Wrth ymateb, dywedodd y Llywodraeth nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i gyflwyno ardoll ar wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, oherwydd bydd galluogi mewnfuddsoddiad cryf yn arwain at fanteision i'r diwydiant cynhyrchu domestig a'r economi ehangach. Fodd bynnag, mae wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau rhag twf, gan gynnwys cynyddu'r gefnogaeth gan gyllid cyhoeddus a'r gronfa o ddyled ac ecwiti sydd ar gael i ddiwydiannau creadigol.

Mae Channel 5 wedi awgrymu y dylid cyfeirio cyllid y gellir cystadlu amdano at gynnwys na fyddai fel arall yn fasnachol hyfyw. Dywedodd Sky fod nifer o opsiynau posibl, gan gynnwys cronfeydd y gellir cystadlu amdanynt ar gyfer cynnwys sydd mewn perygl. Dywedodd Children's Media Foundation nad oes digon o fuddsoddiad i sicrhau bod cynnwys o ansawdd uchel sy'n berthnasol yn gymdeithasol, ac yn ddiwylliannol ac yn briodol i oedran yn cael ei greu i bobl ifanc. Fodd bynnag, roedd COBA a Creative UK yn dadlau y gallai ardoll gymell pobl i beidio â buddsoddi yn y DU.[62] Dywedodd Creative UK y byddai'n rhoi gormod o faich ar ffrydwyr ac yn gwneud y DU yn llai cystadleuol i fewnfuddsoddwyr.[63]

## Mae amrywiaeth o gymhellion ariannol wedi cael eu defnyddio i gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y Du ac mewn gwledydd eraill

Sefydlodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y Gronfa Cynnwys i Gynulleidfaoedd Ifanc a oedd yn cael ei rhedeg gan y BFI rhwng 2019 a 2022. Roedd yn gronfa y gellid cystadlu amdani gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o gynhyrchu a datblygu cynnwys i blant. Roedd y cynllun yn darparu grantiau cynhyrchu (cyfanswm o £44m) i 160 o brosiectau datblygu a 61 o gynyrchiadau go iawn. Daeth gwerthusiad i'r casgliad fod y gronfa wedi cyflawni ei nod o fynd i'r afael â diffygion allweddol mewn rhaglenni plant, a'i bod yn effeithlon, yn economaidd ac yn deg.[64]

---

[61] Tŷ'r Cyffredin, y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Ebrill 2025, British film and high-end television, Adroddiad Cyntaf y Sesiwn 2024-25, t. 26-27.
[62] Tŷ'r Cyffredin, y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Ebrill 2025, British film and high-end television, Adroddiad Cyntaf y Sesiwn 2024-25, t. 25
[63] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Creative UK i Dŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Dethol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y sector Teledu o Safon a Ffilmiau o Brydain, para. 95.
[64] Ymchwil Bigger Picture, Rhagfyr 2022. Young Audiences Content Fund Pilot: End of term evaluation.

Mae rhwymedigaethau buddsoddi ac ardollau wedi cael eu gosod ar ddarlledwyr domestig yn Ffrainc ers y 1980au[65], a chyflwynwyd rheolau tebyg yn 2021 ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (gweler Atodiad 2). Canfu adolygiad fod y rhwymedigaethau buddsoddi yn cyfrif am tua $866m (tua £745m) mewn buddsoddiad gan Netflix, Amazon a Disney+ rhwng 2021 a 2023, a bod yr ardoll wedi codi tua $178.3M (tua £155m) yn 2023;[66] a gafodd ei fuddsoddi'n bennaf mewn rhaglenni gwreiddiol yn yr iaith Ffrangeg.[67] Mae Canada hefyd wedi mynnu bod gwasanaethau fideo ar-alw yn darparu amcangyfrif o $200 miliwn Canada (tua £100m) y flwyddyn mewn cyllid newydd ar gyfer cynnwys o Ganada a chynnwys brodorol. Mae hyn yn cael ei herio gan y Motion Picture Association of Canada, sy'n cynrychioli cwmnïau fel Netflix a Disney.[68]

## Efallai bod rhai manteision i'r ymyriadau hyn ond byddai heriau o ran polisi

Gall rhwymedigaethau buddsoddi, ardollau a chronfeydd y gellir cystadlu amdanynt gynnig ffynhonnell newydd o gyllid gan amrywiaeth eang o ddarparwyr cyfryngau, a gellir eu targedu at gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei danariannu neu sydd fwyaf mewn perygl.

Byddai angen llunio rhwymedigaethau buddsoddi ac ardollau mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw'r farchnad na chystadleuaeth yn cael ei hystumio. Er enghraifft, drwy ledaenu'r baich o gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mor eang â phosibl, gan sicrhau bod cwmnïau sy'n cystadlu â'i gilydd yn wynebu'r un baich a bod unrhyw gronfa'n agored i bob darparwr cyfryngau. Byddai angen i unrhyw system newydd gyd-fynd hefyd â'r mathau presennol o gymorth i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i ffurfio pecyn cydlynol (gan gynnwys credydau treth a drafodir isod).

Byddai angen i'r Llywodraeth bennu pa gynnwys ddylai gael ei gefnogi gan unrhyw gronfa a pha feini prawf a fyddai'n berthnasol. Byddai angen i'r Llywodraeth hefyd ystyried y goblygiadau posibl i sector cynhyrchu'r DU, gan gynnwys y goblygiadau o ran sgiliau a datblygu busnes, a gwydnwch y sector yn y dyfodol.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon y gallai rhwymedigaethau o'r fath atal buddsoddiad yn y sector cynhyrchu ac y byddai angen eu llunio i gynnal a datblygu buddsoddiadau yn y DU. Mae gwasanaethau fideo ar-alw rhyngwladol wedi buddsoddi symiau sylweddol mewn cynhyrchu yn y DU yn y blynyddoedd diwethaf, oddeutu 24% o gyfanswm refeniw comisiynu sylfaenol annibynnol y DU yn 2023.[69] Fel enghraifft o hyn, roedd gwariant blynyddol Netflix ar gyfartaledd ar gynyrchiadau yn y DU yn 2023 bron i ddwy ran o dair o gyfanswm ei refeniw yn y DU.[70]

Mae gwledydd eraill, fel Ffrainc, wedi llwyddo i lunio rhwymedigaethau sy'n hybu faint sy'n cael ei fuddsoddi neu sicrhau lefel sylfaenol o fuddsoddiad gan ddarparwyr cyfryngau cymwys. Fodd bynnag, pe bai system yn arwain at lai o fuddsoddiad, gallai effeithio'n sylweddol ar gynulleidfaoedd a sector cynhyrchu'r DU.

Ar ben hynny, gallai unrhyw fesurau polisi clyweledol fel ardollau a chredydau treth fod yn rhan o drafodaethau rhyngwladol ehangach ynghylch polisi masnach.

---

[65] CNC, Rhagfyr 2010. Regulation of film-television relations.
[66] CNC, 2023. Bilan.
[67] CNC, Tachwedd 2024. Implementation of the decree applicable to SVOD services, t. 2.
[68] Motion Picture Association – Canada, 2024. Canada Files for Review of CRTC Decision to Force Global Entertainment Streaming Services to Pay for Local News.
[69] Cyfrifiad 2024 Pact ynghylch y Sector Cynhyrchu Teledu yn y DU, dadansoddiad Oliver and Ohlbaum.
[70] Dywedodd Netflix fod ganddo refeniw o bron i £1.7bn yn y DU yn 2023, ac mae'n honni ei fod yn buddsoddi bron i $1.5 biliwn (~£1.1 biliwn) bob blwyddyn mewn sioeau sy'n cael eu gwneud yn y DU.


## Gellid defnyddio credydau treth i gymell buddsoddiad mewn cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n llai masnachol

Yn y DU, mae system ers tro o gredydau treth sydd wedi'u llunio i gymell cynhyrchu cynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant y DU ac sy'n cefnogi twf y sectorau clyweledol. Gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus elwa o gredydau treth pan fyddan nhw'n gwneud neu'n comisiynu cynnwys sy'n gymwys.

Mae cwmnïau'n gymwys i gael credydau treth os ydyn nhw'n ymwneud â chynhyrchu neu ddatblygu ffilmiau, rhaglenni teledu o safon (os yw'r rhaglen yn ddrama, yn gomedi neu'n rhaglen ddogfen), rhaglenni teledu i blant neu animeiddiadau sydd wedi'u hardystio'n rhai Prydeinig.[71] Mae'r cynllun presennol yn cynnig didyniadau ychwanegol i gynhyrchwyr cymwys i leihau eu bil treth neu gredyd taladwy os bydd colled.

Mewn gwerthusiad o'r rhyddhad treth ar gyfer y diwydiannau creadigol a gomisiynwyd gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn 2022, daethpwyd i'r casgliad bod tystiolaeth gref bod rhyddhad treth wedi arwain at fwy o gynyrchiadau'n digwydd yn y DU. Roedd ei ddadansoddiad yn amcangyfrif bod rhyddhad treth teledu o safon wedi ychwanegu £0.7 biliwn i £1.0 biliwn at yr economi yn 2019/20. Mae'r dadansoddiad o'r rhyddhad treth a dalwyd rhwng 2021 a 2023 i'w weld yn Ffigur 8 isod. Yn 2024, cafodd y system rhyddhad treth ar gyfer y diwydiannau creadigol ei diwygio i gredydau gwariant a chodwyd y gwerth ar gyfer rhaglenni teledu i blant, animeiddiadau, ffilmiau annibynnol ac effeithiau gweledol.[72]

**Ffigur 8: Rhyddhad treth i ddiwydiannau creadigol (£ miliwn, ar sail croniadau) a dalwyd mewn perthynas â blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben yn 2021, 2022 a 2023**




*Ffynhonnell: HMRC Creative industries statistics commentary: Awst 2024*

[71] Mae rhyddhad treth ar gael hefyd i gwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchu neu ddatblygu gemau fideo, cynyrchiadau theatrig, cyngherddau cerddorfaol, arddangosfeydd mewn amgueddfeydd neu orielau.
[72] Gweler Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2024. The creative industries tax reliefs: Policy and development; Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, 2024. Papur polisi: Additional tax relief for visual effects (VFX); ac, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2024. Datganiad i'r wasg: UK's world-class film sector handed major jobs and growth boost by tax reliefs.

## Mae cefnogaeth eang i ehangu'r system credydau treth

Rydym wedi nodi nifer o gynigion ar gyfer sut gallai cynllun estynedig dargedu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn gwahanol ffyrdd.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi galw am ddiwygio ac ymestyn y system credydau treth i gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ymhellach. Roedden nhw'n awgrymu y gallai credydau treth gefnogi genres allweddol a genres sydd mewn perygl, er enghraifft, rhaglenni plant, newyddion rhanbarthol, ieithoedd lleiafrifol, comedi, drama barhaus neu gomedi wedi'i sgriptio neu ddrama o safon sy'n rhoi sylw i'r DU. Fe wnaethon nhw awgrymu hefyd fod credydau treth yn cael eu defnyddio i ddatblygu amcanion gwasanaeth cyhoeddus, fel cynhyrchu y tu allan i Lundain, gwarchod eiddo deallusol yn y DU, a chydgynhyrchu gyda nhw eu hunain. Fe wnaethon nhw ystyried y gallai system sydd wedi'i llunio'n dda, gyda phrofion diwylliannol gwell, a chefnogaeth ar gyfer ffenestri darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sicrhau dyfodol ar gyfer amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Galwodd Sky am ehangu'r system dreth bresennol - er enghraifft i gynnwys ymchwil a datblygu creadigol a wnaed fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Ffilm a Theledu. Er bod y Llywodraeth wedi dweud nad yw'n bwriadu newid rheolau presennol ar gyfer ymchwil a datblygu, bydd CThEF yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig i egluro beth yw'r gweithgareddau celfyddydol sydd o fewn diffiniad rhyddhad treth presennol ar gyfer ymchwil a datblygu.[73]

Galwodd rhai rhanddeiliaid hefyd am fwy o hyblygrwydd yn y system rhyddhad treth - er enghraifft, drwy leihau cyfran y gwariant cymwys y mae'n rhaid ei wneud yn y DU, a allai ei gwneud yn haws cydgynhyrchu gyda phartneriaid rhyngwladol.

Roedd fforwm Dinasyddion y Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn siarad o blaid defnyddio credydau treth yn y dyfodol i ariannu cynnwys sydd ar gael i holl ddinasyddion Prydain ac nid y tu ôl i wal dalu.

Dywedodd Channel 4 fod credydau treth ar gyfer teledu o safon wedi helpu i ddenu buddsoddiad rhyngwladol, ond ei fod wedi cyfrannu at chwyddiant sylweddol mewn costau sy'n golygu y gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael eu prisio allan yn llwyr o rai genres cynnwys.

Roedd y Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd cynnal ein safle cryf fel cyrchfan ar gyfer mewnfuddsoddi. Tynnodd sylw at fentrau sydd eisoes ar waith i gefnogi twf yn y sector, gan gynnwys cymorth treth ychwanegol ar gyfer ffilmiau annibynnol a chynnydd ar gyfer effeithiau gweledol. Fodd bynnag, dywedodd fod llu o ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar ryddhad trethi newydd y tu hwnt i elw ar fuddsoddiad ac effaith ar y sector. Mae wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl arian cyhoeddus yn cael ei wario a'i dargedu'n effeithiol ar draws holl ystod y diwydiannau creadigol a'r economi.[74]

## Gallai'r Llywodraeth ystyried defnyddio credydau treth i gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

Mae gan system credydau treth ar gyfer y diwydiant creadigol gefnogaeth eang o ran denu buddsoddiad rhyngwladol i sector cynhyrchu'r DU, ac mae wedi helpu i ariannu amrywiaeth eang o brosiectau ffilm a theledu yn y DU, yn enwedig cynyrchiadau ffilm a theledu o safon. Mae'n bosibl bod hyn hefyd wedi helpu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gomisiynu amrywiaeth eang o raglenni. Fel

---

[73] Tŷ'r Cyffredin, Y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Gorffennaf 2025, British film and high-end television:Government response, Pedwerydd Adroddiad Arbennig y Sesiwn 2024/25.
[74] Tŷ'r Cyffredin, Y Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Gorffennaf 2025, British film and high-end television:Government response, Pedwerydd Adroddiad Arbennig y Sesiwn 2024/25, t. 6.

y trafodir yn Atodiad 2, defnyddir credydau treth i hyrwyddo'r gwaith o gynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau mewn llawer o wledydd ledled y byd.

Byddai angen ystyried yn ofalus unrhyw ehangu neu ddiwygio ar gymhellion treth o ran eu heffeithiolrwydd ochr yn ochr â (neu yn lle) mathau eraill o gymorth ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae credydau treth eisoes ar gael yn y DU ar gyfer rhaglenni teledu i blant. Yn 2024, cawsant eu cynyddu o 34% i 39%; y lefel uchaf o gredyd treth sydd ar gael ar draws pob genre.[75]

Nid yw newyddion a newyddion rhanbarthol yn gymwys i gael unrhyw gredydau treth ar gyfer y diwydiant creadigol ar hyn o bryd.[76] Gellid defnyddio credydau treth i helpu i wella cymhellion ariannol i gynhyrchu newyddion. Byddai angen ystyried ymarferoldeb credydau treth i gymell cynhyrchu rhanbarthol yn ofalus, ac ystyried natur gymhleth cynyrchiadau sy'n aml yn cael eu gwneud ar draws gwahanol leoliadau.

Byddai angen i'r llywodraeth hefyd ystyried effeithiau eraill unrhyw ehangu. Er enghraifft, gallai ehangu credydau treth i dargedu llai o gynnwys masnachol arwain at refeniw treth is neu gallai eu hehangu mewn meysydd lle mae galw mawr am adnoddau cynhyrchu eisoes arwain at risg o chwyddiant pellach mewn costau.

## Sicrhau enillion teg i gomisiynwyr a chrewyr cynnwys ar-lein

Mae'n bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a chomisiynwyr a chrewyr cynnwys eraill yn gweld enillion teg pan fydd eu cynnwys yn cael ei wylio ar lwyfannau trydydd parti fel Google, YouTube, TikTok, Facebook neu Instagram, neu pan fydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth arall fel crynodeb deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae gan grewyr cynnwys bryderon ers tro am y telerau maen nhw'n eu cael gan rai llwyfannau trydydd parti. Mae hyn yn cynnwys honiadau bod anghydbwysedd yn y pŵer bargeinio rhwng llwyfannau a chrewyr cynnwys[77] a phryderon ynghylch cystadleurwydd marchnadoedd hysbysebu digidol.[78] Maen nhw wedi mynegi pryderon hefyd am hawlfraint a'u gallu i reoli'r defnydd o'u cynnwys mewn gwasanaethau deallusrwydd artiffisial, a chael eu talu amdano.

### Mae cyfraith cystadleuaeth yn gallu helpu i sicrhau enillion teg ar lwyfannau trydydd parti

Cyflwynodd Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 bwerau newydd i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymchwilio i broblemau cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol ac, os oedd angen, mynd i'r afael â nhw. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymgynghoriad ar ei gynnig i ddynodi bod gan Google 'statws marchnad strategol' mewn hysbysebion chwilio a chwilio cyffredinol. Mis Hydref 2025 yw dyddiad cau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i gyhoeddi unrhyw Hysbysiad am Benderfyniad ynghylch Statws Marchnad Strategol, ac mae'n disgwyl cyhoeddi ymgynghoriad ar y gofynion ymddygiad cychwynnol yn fuan ar ôl unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch statws

[75] Cyflwynwyd credydau treth newydd hefyd ar gyfer Effeithiau Gweledol a ffilmiau annibynnol. New tax credits for British film, TV and video game makers start from today - GOV.UK.

[76] Newyddion sydd wedi'i eithrio'n benodol o gredydau treth teledu o safon. Gweler canllawiau CThEF, Claiming High-end Television Tax Relief for Corporation Tax.

[77] Gweler Ofcom and CMA joint advice to the Secretary of State i gael crynodeb o'r pryderon hyn.

[78] Ymchwiliwyd i'r pryderon hyn gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn 2020 yn ei Online platforms and digital advertising market study.

marchnad strategol.[79] Ar yr olwg gyntaf, mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi canfod bod gan Google bŵer dwfn sylweddol mewn hysbysebion chwilio a chwilio cyffredinol. Os caiff hyn ei gadarnhau, bydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn gallu cyflwyno, yn amodol ar ragor o brosesau cyfreithiol, ymyriadau sy'n effeithio ar sut mae Google yn rhyngweithio â'i gwsmeriaid a'i gyflenwyr i liniaru unrhyw ganlyniadau a allai fod yn niweidiol yn y farchnad honno. Fel rhan o hyn, maen nhw'n ystyried pryderon sy'n ymwneud â thelerau teg a rhesymol i gyhoeddwyr, gan gynnwys telerau talu a rheolaethau annigonol ynghylch sut mae eu cynnwys yn cael ei ddefnyddio mewn Trosolwg o Ddeallusrwydd Artiffisial, crynodeb chwilio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol Google.

Ni fydd yr ymchwiliad hwn yn edrych ar lwyfannau eraill fel YouTube, Facebook neu Instagram na marchnadoedd hysbysebu digidol y tu hwnt i hysbysebion wrth chwilio.[80] Serch hynny, mae'n gam cyntaf pwysig i archwilio'r pryderon cystadleuaeth sydd gan grewyr cynnwys ac mae Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr yn adnodd newydd pwerus i ymchwilio ac, os oes angen, i ddatrys problemau cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar yr ymchwiliad hwn i sicrhau bod buddiannau cynulleidfaoedd a chrewyr cynnwys yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio yn cael eu cynrychioli, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud yn flaenorol gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar lwyfannau a chyhoeddwyr.

## Mae'r Llywodraeth yn ystyried diwygiadau i hawlfraint

Mae gwarchodaeth hawlfraint gref yn galluogi crewyr o bob math i ennill elw ar eu buddsoddiad mewn cynnwys. Mae deiliaid hawliau wedi dweud eu bod yn ei gweld hi'n anodd rheoli'r defnydd o'u gwaith i hyfforddi modelau deallusrwydd artiffisial, a chael eu talu amdano. Er enghraifft, mae rhai darparwyr newyddion wedi dweud bod modelau iaith mawr yn gallu copïo ac amlyncu eu cynnwys i greu cynnwys deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol heb ganiatâd na chydnabyddiaeth ariannol deg. Mae'n bosibl hefyd y gallai darllenwyr newyddion ddechrau dibynnu ar y crynodebau hyn yn hytrach na chael gafael ar ddarnau llawn o gynnwys gan ddarparwyr newyddion, a allai leihau'r traffig i wefannau cyhoeddwyr.

Mae rhai darparwyr newyddion wedi trwyddedu eu cynnwys i'w ddefnyddio mewn modelau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i gynhyrchu refeniw, gan gynnwys Sky, DMGT, The Guardian a The Financial Times, ond efallai y bydd risg, wrth i'r darparwyr newyddion mwyaf wneud cytundebau â chwmnïau deallusrwydd artiffisal, y gallai darparwyr llai, gan gynnwys rhai darparwyr lleol, gael eu gadael ar ôl. Mewn mannau eraill, mae darparwyr eraill gan gynnwys y BBC, CBC Radio Canada (darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Canada), New York Times ac NDTV yn India wedi lansio neu fygwth achos llys yn erbyn rhai o'r cwmnïau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mwyaf yn y byd am ddefnyddio eu deunydd heb ganiatâd na thâl. Cyhoeddodd yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2024 gyda chynigion ar gyfer diwygio hawlfraint sy'n ceisio cefnogi deiliaid hawliau i reoli eu cynnwys a'u gallu i gael tâl am gael defnyddio'r cynnwys hwnnw. Mae hefyd yn ceisio helpu i ddatblygu modelau deallusrwydd artiffisial gyda'r gorau yn y byd yn y DU drwy sicrhau mynediad eang a chyfreithlon at ddata o ansawdd uchel a hyrwyddo mwy o ymddiriedaeth a thryloywder rhwng y sectorau creadigol a deallusrwydd artiffisial. Mae'r llywodraeth

[79] Mewn proses ochr yn ochr â hyn, mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ymchwilio hefyd a ddylid ystyried bod gan Google ac Apple Statws Marchnad Strategol mewn cysylltiad â'u hecosystemau symudol.
[80] Yn yr Unol Daleithiau, mae Google wedi bod yn destun dau achos ffederal ar wahân a ddygwyd gan Adran Gyfiawnder yr Unol Daleithiau a sawl talaith yn (i) Llys Dosbarth Rhanbarth Columbia mewn perthynas â pheiriannau chwilio a hysbysebion wrth chwilio a (ii) y Llys Dosbarth ar gyfer Rhanbarth Ddwyreiniol Virginia mewn perthynas â thechnoleg hysbysebu. Mae'r cwmni hefyd yn herio dirwy gwrthglymbleidiol a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2018 ynghylch ei system weithredu symudol Android.

hefyd wedi nodi ei bwriad i sefydlu Cyfnewidfa Cynnwys Creadigol i hwyluso marchnad ar gyfer y cynnwys hwn.[81]

Cafwyd llawer o drafodaeth gyhoeddus ar y materion hyn a gallai canlyniad y drafodaeth hon arwain at oblygiadau pwysig i gynaliadwyedd ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chrewyr cynnwys eraill.

## Gallai partneriaethau uchelgeisiol helpu i gynnal darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

Gall cydweithredu a chyfuno fod yn ffordd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gweithredwyr eraill ddatblygu a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon. Gallai hyn helpu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i addasu i'r heriau ariannol maen nhw'n eu hwynebu a bydd o fudd i gynulleidfaoedd yn y DU os byddan nhw'n arwain at sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn well.

Dywedodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y bydd angen i bob un o chwaraewyr y DU, neu rai ohonyn nhw o leiaf, ddatblygu'r hyn maen nhw'n ei ddarparu er mwyn cael mwy o siawns o lwyddo yn y dyfodol. Fe wnaethon nhw ofyn i reoleiddwyr a'r Llywodraeth fabwysiadu dull gweithredu o blaid y DU o ran defnyddio cyfraith cystadleuaeth. Roedden nhw o'r farn y dylai hyn fod yn seiliedig ar ddull deinamig a blaengar o ddadansoddi'r farchnad, sy'n cydnabod natur fyd-eang y marchnadoedd y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu ynddyn nhw erbyn hyn ac amcanion polisi cyhoeddus sy'n cael eu rhoi iddyn nhw.

Dywedodd y Llywodraeth yn y Cynllun Sector Diwydiannau Creadigol y bydd yn cefnogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i bob cynulleidfa, gan gynnwys drwy gyd-gynyrchiadau, annog y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i greu partneriaethau strategol dwfn, a sicrhau eu bod yn parhau i fod wrth galon sector teledu domestig cryf a gwydn. Gofynnodd i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac Ofcom nodi sut gellid ystyried newidiadau yn y sector - fel cydgyfeirio darlledu, ar-alw a rhannu fideos - fel rhan o unrhyw asesiad o farchnadoedd teledu a hysbysebu yn y dyfodol.[82] Byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i wneud hyn.

Mater i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r diwydiant ehangach yw datblygu cynigion penodol i bartneriaethau dyfu a datblygu, ac rydym yn deall eu bod yn ystyried amrywiaeth eang o gyfleoedd. Credwn y byddai'n werth i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus edrych ar gydweithio o ran technoleg a deallusrwydd artiffisial. Maen nhw wedi cyhoeddi bod Sky, ITV a Channel 4 wedi datblygu llwyfan hysbysebu ar y cyd, ac y bydd ITV a Disney yn cario gwasanaethau ffrydio ei gilydd. Ym mis Mai, awgrymodd Alex Mahon, prif weithredwr Channel 4 a fydd yn gadael y swydd, y gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio partneriaethau i leihau costau technoleg, ac mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, Tim Davie, wedi sôn am y posibilrwydd o bartneriaethau gyda'r cyfryngau lleol a sefydliadau diwylliannol.

Yn yr Almaen, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ZDF ac ARD yn cydweithio i ddatblygu system weithredu ar y cyd i reoli rhannau craidd o'u gwasanaethau ffrydio. Mae eu technoleg hefyd yn ffynhonnell agored, gan ganiatáu i ddarparwyr cynnwys arall er budd y cyhoedd, fel mudiadau diwylliannol, elwa ohoni. Yn Ffrainc, mae cynigion yn cael eu hystyried i uno'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus France Télévisions, Radio France, France Médias Monde a'r Institut national de audiovisuel,

[81] Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2025. Cynllun Sector Diwydiannau Creadigol, t. 17.
[82] DBT a Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Mehefin 2025. Cynllun Sector Diwydiannau Creadigol, t. 46.

yn un daliad, gyda'r nod o gefnogi arloesedd a chynaliadwyedd er budd y cyhoedd. Ar ben hynny, yn ddiweddar gwnaeth Amazon Prime Video gytundeb gyda Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus Ffrainc, France Télévisions, a fydd yn rhoi mynediad i'r ffrydiwr i'w gynnwys byw ac ar-alw, ac mae gan Netflix gytundeb â'r darlledwr masnachol o Ffrainc, TF1 i gario cynnwys llinol ac ar-alw (gan gynnwys chwaraeon byw).

Er bod partneriaethau'n gallu sicrhau manteision, maen nhw hefyd yn gallu peri risgiau i gystadleuaeth a lluosogrwydd. Mae cystadleuaeth rhwng gwasanaethau fideo am sylw cynulleidfaoedd yn gymhelliant pwerus i ddarparwyr fuddsoddi yn eu gwasanaethau unigol, i ddarparu cynnwys deniadol ac i roi profiad da i'w gwylwyr. Mae cynulleidfaoedd hefyd yn elwa o amrywiaeth o ddarparwyr, ac mae hyn wedi galluogi pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i ddatblygu brand cryf y mae pobl yn ymddiried ynddo, datblygu llais unigryw ac arloesi i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd. Mae cyfraith cystadleuaeth a rheolau lluosogrwydd y cyfryngau ar waith i ddiogelu'r manteision hyn.

Mae'r frwydr am sylw cynulleidfaoedd y DU wedi cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf. Nid oes angen i ddarparwyr cyfryngau gael mynediad at sbectrwm radio na rhwydwaith lloeren mwyach, ac erbyn hyn mae gan Netflix, Amazon, Disney+ ac Apple TV+ gyfran sylweddol o wylwyr yn y DU. Gan eu bod yn cyrraedd cynulleidfaoedd ar lefel fyd-eang, mae hyn yn caniatáu iddyn nhw fuddsoddi mewn cynnwys grymus a datblygiadau technolegol helaeth ac adennill costau'r buddsoddiadau hynny mewn marchnadoedd ledled y byd. Maen nhw wedi dangos eu bod yn gallu darparu cynnwys o amrywiaeth o genres, gan gynnwys cynnwys sy'n canolbwyntio ar y DU. Mae llwyfannau rhannu fideos fel YouTube hefyd wedi ennill cyfran sylweddol o wylwyr teledu gydag ecosystem sy'n cynhyrchu dewis helaeth o gynnwys newydd arloesol.

Er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau fideo ar-alw yn gallu cystadlu â'r llwyfannau hyn, mae angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fuddsoddi mewn technoleg yn ogystal â chynnwys i ddenu sylw cynulleidfaoedd y DU. Maen nhw dan anfantais wrth wneud buddsoddiadau o'r math hwn oherwydd nad oes ganddyn nhw ffrydwyr a llwyfannau rhannu fideos blaenllaw ar raddfa fyd-eang. Mae hyn yn golygu ei bod yn fwyfwy pwysig dod o hyd i bartneriaethau effeithiol a all eu helpu i wneud y buddsoddiadau angenrheidiol hyn ac adennill yr arian.

Mae marchnad hysbysebion y DU wedi cael ei thrawsnewid yn ystod y ddau ddegawd diwethaf hefyd. Mae twf llwyfannau ar-lein wedi cael effaith fawr ar hysbysebion teledu, gan arwain at newidiadau mewn modelau hysbysebu. Mae'r newidiadau hyn yn ail-lunio'r diwydiant, gan wneud hysbysebu clyweledol yn fwy hygyrch i ystod ehangach o fusnesau, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, a symud ffocws hysbysebu o allbynnau (er enghraifft, maint cynulleidfa) i ganlyniadau (er enghraifft, camau gweithredu gan ddefnyddwyr mewn ymateb i hysbyseb).

Os gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio sy'n cofnodi manteision cystadleuaeth a lluosogrwydd, bydd hyn yn helpu i gynnal y ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Yn y pen draw, mae cyfraith cystadleuaeth yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth a byddem yn disgwyl y bydd unrhyw asesiad o gystadleuaeth yn ystyried y manteision a ddaw yn sgil y bartneriaeth a'r realiti newydd sydd ynghlwm wrth gystadleuaeth.

## Mae angen eglurder ar frys ynghylch sut bydd teledu'n cael ei ddosbarthu yn y dyfodol

Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom ddweud bod costau dosbarthu yn gyfran sylweddol o gostau darlledwyr nad ydynt yn ymwneud â chynnwys. Yn 2023, talodd darlledwyr masnachol (darlledwyr gwasanaeth

cyhoeddus ac eithrio'r BBC) gyfanswm o £218m mewn costau darlledu sy'n cynnwys teledu daearol digidol, lloeren a chebl. Ar ben hyn, mae costau sylweddol yn gysylltiedig â chynnal gwasanaeth o sianeli llinol. Mae gwylwyr yn treulio llai o amser yn gwylio teledu dros deledu daearol digidol, ac mae hyn yn ei wneud yn llai cost-effeithiol fesul gwyliwr. Disgwylir i hyn barhau ac mae darlledwyr wedi dweud wrthym y bydd pwynt tyngedfennol lle nad yw cefnogi teledu daearol digidol yn ei ffurf bresennol yn fasnachol hyfyw mwyach.

Yn ein hadroddiad Dyfodol Dosbarthu Teledu, rydym yn nodi gwahanol ffyrdd o sicrhau teledu sy'n cael ei ddarlledu'n gyffredinol ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n dibynnu arno. Roedd y rhain yn cynnwys cryfhau'r rhwydwaith teledu daearol digidol drwy leihau ei gost neu gefnogi cynulleidfaoedd i fudo i deledu protocol rhyngrwyd. Gallai'r opsiwn olaf gael ei ategu gan wasanaeth 'Nightlight' wrth gefn sy'n cael ei ddarparu gan deledu daearol digidol neu loeren ar gyfer y rheini nad oes modd eu cefnogi i gael darpariaeth ar-lein. Fe wnaethom dynnu sylw hefyd at ystyriaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r diwydiant teledu. Er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau ar gael i bawb drwy'r amser, efallai y bydd angen cefnogi defnyddwyr i fanteisio ar fynediad i'r rhyngrwyd, a fyddai'n arwain at fanteision ategol ar gyfer cynhwysiad digidol. Pe na bai teledu daearol digidol yn cael ei ddefnyddio ar y rhwydwaith cyfan neu rywfaint ohono yn y dyfodol, gallai arwain at gostau i wasanaethau hanfodol eraill ar y rhwydwaith fel radio.

Yn dilyn cyflwyno ein hadroddiad y llynedd, mae'r Llywodraeth wedi lansio ffrydiau gwaith amrywiol gan gynnwys ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ac ymchwil i ddatblygu ei hymateb i'r her o sicrhau dyfodol dosbarthu teledu i bawb.

## Cefnogaeth i drawsnewid teledu daearol digidol i deledu protocol rhyngrwyd, ond mae pryderon ariannol yn parhau

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi newid i deledu protocol rhyngrwyd yn y 2030au gan ei bod yn dod yn fwyfwy heriol talu dwbl y costau wrth gynnal nifer o lwyfannau dosbarthu. Fe ddywedon nhw y byddai'r newid (sydd, o reidrwydd, yn golygu mabwysiadu cysylltiad â'r rhyngrwyd yn ehangach ar draws pob aelwyd) yn arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol.

Roedden nhw o'r farn y dylid rhoi darpariaethau ar waith i gefnogi mynediad cyffredinol at deledu protocol rhyngrwyd ac, os oes angen, gwasanaeth dros dro i hwyluso'r broses bontio i gynulleidfaoedd. Fe wnaethon nhw ddweud hefyd na ddylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dalu'r costau pontio wrth ystyried maint y costau a'r budd cyhoeddus llawer ehangach sydd dan sylw. Roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn credu, os yw'r Llywodraeth yn parhau i fynnu bod teledu daearol digidol yn darparu gwasanaeth sydd ar gael i bawb, y dylai'r Llywodraeth ysgwyddo costau uwchraddio, cynnal a chadw a rhedeg teledu daearol digidol fel cost gwasanaeth i bawb er mwyn osgoi gwariant dyblyg ac anghynaliadwy i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ar ben hynny, roedd y BBC yn ystyried cynnig dyfais ffrydio cyfryngau wedi'i dylunio'n benodol i helpu'r rheini nad oeddent wedi elwa eto o wasanaethau teledu protocol rhyngrwyd.[83]

Cyfeiriodd Fforwm Dinasyddion y Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus at ymchwil a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol teledu daearol digidol o ran helpu cynulleidfaoedd i gael gafael ar newyddion o ansawdd uchel, yn enwedig i bobl nad ydynt yn gallu fforddio band eang neu danysgrifiadau teledu drutach.

[83] BBC News, 2025. BBC director general Tim Davie vows to tackle Britain's 'crisis of trust'.

### Mae’r angen am gynllun ar gyfer dyfodol teledu daearol digidol yn fwy brys nag erioed

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd darparu teledu'n gyffredinol ar deledu daearol digidol yn newid o fod yn fantais sylweddol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, i rwymedigaeth sylweddol y bydd angen iddyn nhw ei hariannu. Byddai hyn yn golygu dargyfeirio mwy o fuddsoddiad i ddosbarthu, yn hytrach na chomisiynu cynnwys sydd o fudd i bob cynulleidfa a'r diwydiannau creadigol.

Wrth i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ganolbwyntio ar wasanaethu cynulleidfaoedd ar-lein a buddsoddi yn y gwasanaethau hynny, bydd cartrefi sydd â gwasanaethau teledu protocol rhyngrwyd yn elwa. Ond, os bydd cynulleidfaoedd yn parhau i fudo heb i’r sefyllfa gael ei rheoli, mae perygl y bydd y rheini sy'n dibynnu ar deledu daearol digidol yn colli allan ar y cynnwys neu'r swyddogaethau gorau. Wrth i gynulleidfaoedd ymrannu fel hyn, mae’n golygu bod yr egwyddor o sicrhau gwasanaeth i bawb yn gwegian yn barod.

Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dangos bod mwy o frys am weledigaeth a chynllun ar gyfer sut bydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol yn cael eu darparu. Mae amseroldeb penderfyniad y Llywodraeth yn parhau i fod yn ffactor hollbwysig. Ym mis Mai 2024, fe ddywedom y byddai angen penderfyniad o fewn dwy flynedd. Rydym yn parhau i gredu y byddai penderfyniad ddechrau 2026 yn caniatáu digon o amser i ystyried pob opsiwn. Gallai penderfyniad diweddarach danseilio'r buddsoddiad a'r arloesedd sydd eu hangen i reoli newid cynhwysol.

## Sicrhau bod costau teledu protocol rhyngrwyd yn aros yn gystadleuol

Mae costau darparu teledu protocol rhyngrwyd yn gymharol isel ar hyn o bryd o'i gymharu â chost dosbarthu teledu daearol digidol a lloeren, ond mae nifer o randdeiliaid wedi mynegi pryder y gallai costau godi'n sylweddol yn y dyfodol wrth i'r niferoedd symud o deledu daearol digidol i deledu protocol rhyngrwyd. Yn ogystal â chostau cynyddol sy'n cael eu sbarduno gan yr angen am gapasiti ychwanegol, dywedodd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y gallai darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd hefyd gynyddu costau ar gyfer telerau ffafriol i ddarparu traffig y gallai fod eu hangen i gynnal gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel. Er enghraifft, fe wnaethon nhw dynnu sylw at ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd yn cymryd camau i godi tâl am ryng-gysylltu. Dywedodd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y dylid cael cefnogaeth reoleiddiol ar gyfer dosbarthu teledu protocol rhyngrwyd i ddisodli manteision mynediad at sbectrwm. Fe wnaethon nhw awgrymu y gallai hyn gynnwys telerau rhyng-gysylltu a chludo sy’n cael ei reoleiddio rhwng darparwyr cynnwys dynodedig a darparwyr rhwydwaith priodol.

Wrth i'r ddibyniaeth ar ddarpariaeth teledu protocol rhyngrwyd gynyddu, mae'n fwyfwy pwysig bod darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dod o hyd i atebion effeithlon a chynaliadwy ar gyfer dosbarthu cynnwys o ansawdd uchel mewn marchnad deg a chystadleuol. Bydd hyn yn helpu i sbarduno arloesedd, lleihau costau, a gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr. Mae gan Ofcom rôl yn sicrhau bod rhwydweithiau telegyfathrebiadau yn parhau i fod yn effeithlon a bod marchnadoedd yn parhau i fod yn gystadleuol, gan gynnwys gwasanaethau rhyng-gysylltu a gwasanaethau rhwydweithiau darparu cynnwys. Rydym hefyd yn goruchwylio rheolau niwtraliaeth y rhyngrwyd ar gyfer darparu traffig nad yw’n gwahaniaethu gan ddarparwyr gwasanaethau band eang sefydlog a symudol.

## Cefnogaeth ychwanegol ar gyfer Digwyddiadau Rhestredig

Mae digwyddiadau chwaraeon uchel eu proffil wedi llwyddo ers tro byd i ddod â'r wlad at ei gilydd a chysylltu cynulleidfaoedd â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Maen nhw'n un o'r ychydig ddigwyddiadau teledu sy'n dal yn llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd mawr.

Nod y drefn digwyddiadau rhestredig yw sicrhau bod darllediadau o ddigwyddiadau chwaraeon mawr penodol sydd o ddiddordeb cenedlaethol, fel y Gemau Olympaidd, a thwrnameintiau dynion a menywod Cwpanau Pêl-droed y Byd a Rowndiau Terfynol Pencampwriaethau Ewrop, ar gael yn eang i gynulleidfaoedd ledled y DU am ddim. Roedd y Ddeddf Cyfryngau wedi moderneiddio'r drefn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys dod â gwasanaethau ffrydio yn rhan o'r cwmpas ochr yn ochr â gwasanaethau darlledu. Fodd bynnag, yng nghyd-destun gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau ar gyfer digwyddiadau rhestredig, mae rhanddeiliaid wedi dweud y gallai diffyg diogelwch ar gyfer hawliau cynnwys digidol ar-alw gyfyngu ar effeithiolrwydd y drefn.

Mae llawer o ddarparwyr o'r farn bod cynnwys digidol ac ar-alw yn rhan hanfodol erbyn hyn o becyn hawliau chwaraeon, ochr yn ochr â darllediadau byw a phecynnau uchafbwyntiau traddodiadol ar ffurf hir. Dywedodd y BBC y byddai cynulleidfaoedd yn debygol o ystyried bod dwy ffrwd fyw o'r Gemau Olympaidd yn annigonol pe na bai ganddo hawliau digidol o gwbl neu gyfyngedig iawn. Dywedodd Channel 4 y gallai diffyg hawliau digidol arwain at lai o gyfleoedd i gynulleidfaoedd ar-lein wylio digwyddiadau sy'n bwysig yn genedlaethol.[84] Mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau yn dweud bod cynnwys digidol ac ar-alw yn rhan hanfodol erbyn hyn o becyn hawliau chwaraeon, ochr yn ochr â darllediadau byw a phecynnau uchafbwyntiau traddodiadol ar ffurf hir. Fel rhan o waith ymchwil a gomisiynwyd ar gyfer ein hymgynghoriad ar ddigwyddiadau rhestredig, dywedodd un darlledwr y gallai cyfyngiad o gael y ffrwd fyw yn unig a dim darpariaeth dal i fyny ar unrhyw ffurf, boed hynny yn uchafbwyntiau neu glipiau, fod yn ddigon, o bosibl, i droi cefn ar unrhyw drafodaeth ynghylch contract.[85]

Rydym hefyd wedi canfod bod fideo ar-alw yn cynrychioli cyfran gynyddol o wylio chwaraeon. Yn 2022, roedd 6% o'r chwaraeon a wyliwyd ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn digwydd ar wasanaethau fideo ar-alw'r darlledwyr, gyda'r gweddill yn digwydd drwy eu sianeli llinol. Erbyn 2024, roedd hyn wedi codi i 10%.[86]

Er mwyn sicrhau bod y drefn digwyddiadau rhestredig yn parhau i fod yn effeithiol wrth i arferion gwylio newid, efallai y bydd y Llywodraeth am ystyried a ddylid diogelu hawliau digidol ar-alw i ddigwyddiadau rhestredig (ac os felly, sut) fel rhan o becyn ehangach i gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn nodi y byddai ehangu'r drefn digwyddiadau rhestredig hefyd yn effeithio ar gyrff chwaraeon a darparwyr cyfryngau eraill, y byddai angen i'r Llywodraeth eu hystyried i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n gymesur.

## Cefnogaeth ychwanegol ar gyfer newyddion

Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom nodi'r heriau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol newyddion, gan gynnwys dibyniaeth sefydliadau newyddion ar gwmnïau technoleg mawr, yr anghydbwysedd yn eu sefyllfaoedd bargeinio cymharol, a chostau cynyddol darparu cynnwys ar draws nifer o lwyfannau.

Mae rhai meysydd penodol hefyd a allai elwa o gymorth ychwanegol. Yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith y gallai'r sector newyddion lleol elwa o gyllid arloesi, ac

[84] Ofcom, 2025. Digwyddiadau rhestredig: Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau. Paragraff 7.6.
[85] Ampere Analysis, 2025. Trends and Dynamics in the Sports Broadcasting Sector – Rhifyn 2025, t.99.
[86] Barb fel y'i gwelwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith WiFi y cartref, unigolion 4+.

mae'r Llywodraeth wedi dweud ei bod yn ystyried hyn. Fe wnaethom hefyd nodi manteision posibl llywodraeth leol yn gweithio gyda newyddiaduraeth leol, er enghraifft i roi mwy o fynediad at gyrff cyhoeddus. Mynegodd rhanddeiliaid bryderon ei bod yn anodd dod o hyd i newyddiadurwyr medrus a'u cadw. Gall darparwyr cyfryngau lleol hyfforddi a gweithredu fel llif o dalent ar gyfer y sector ehangach, ac felly mae dod o hyd i ffyrdd o gefnogi'r hyfforddiant hwn yn debygol o fod yn fuddiol. Mae rhanddeiliaid wedi galw hefyd am gyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol, fe wnaethom nodi bod llawer o randdeiliaid yn cefnogi ehangu'r Cynllun Gohebu Democratiaeth Leol (LDRS) sy'n cael ei ariannu gan y BBC, o bosibl fel rhan o drafodaethau'r Siarter. Yn gynharach eleni, nododd Tim Davie y posibilrwydd o ehangu'r cynllun hwn i gynnwys awdurdodau iechyd, comisiynwyr heddlu a throseddu, a dadansoddiad dyfnach o'r maeryddiaethau rhanbarthol.

Fe wnaethon ni awgrymu hefyd y dylai bod mwy o gydweithredu rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a’r sector cyfryngau lleol, megis hyrwyddo ymwybyddiaeth ar y cyd o rôl a gwerth cyfryngau lleol i gymunedau lleol; darparwyr mewn ardal leol yn cronni adnoddau i roi sylw i straeon a datblygu talent; a chreu partneriaethau tymor hir gyda phrifysgolion lleol neu ddarparwyr radio cymunedol. Ac ystyried ei rôl yn y Bartneriaeth Newyddion Lleol, mae gan y BBC rôl bwysig yn hyn o beth.

Rydym yn rhagweld y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi manylion ei Strategaeth Cyfryngau Lleol a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn ystyried pa waith pellach y gallai fod angen i ni ei wneud i gefnogi'r sector ar ôl cyhoeddi strategaeth y Llywodraeth.

# Cefnogi sector cynhyrchu'r DU i wneud cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd y DU

Mae'r heriau ariannol sy'n wynebu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r newid yn y galw gan gynulleidfaoedd wedi arwain at arafu eu comisiynu, gan ganolbwyntio ar lai o gynyrchiadau 'effaith uchel'. Mae sector cynhyrchu'r DU yn profi cyfnod o drawsnewid cythryblus wrth iddo addasu i'r newidiadau hyn ynghyd â bod yn fwy dibynnol ar fuddsoddiad rhyngwladol cynyddol ond anrhagweladwy, a chwyddiant mewn costau cynhyrchu cynnwys. Mae angen i'r sector addasu i'r newidiadau hyn a gall ei faint a'i gyfansoddiad barhau i esblygu. Mae’n bwysig bod y sector yn cadw digon o gapasiti a deinameg i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel, a bod llwybrau i dalent a busnesau yn y DU symud ymlaen.

## Mae cyfleoedd yn codi wrth i gomisiynu barhau i newid

Mae angen cyllid sefydlog a digonol ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac er mwyn darparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Gallai hyn gynyddu'r galw am gynyrchiadau o'r DU, gwneud y sector cynhyrchu yn fwy gwydn, a chefnogi’r gwaith o ddatblygu busnesau a sgiliau ledled y DU. Ar ben hynny, mae Cynllun Sector Diwydiannau Creadigol y llywodraeth yn nodi amrywiaeth o fesurau i gefnogi'r diwydiannau creadigol, gan gynnwys y diwydiant ffilm a theledu. Mae'r rhain yn cynnwys Pecyn Twf Sgrin newydd gwerth £75 miliwn, sy'n cynnwys mwy o gyllid ar gyfer Cronfa Sgrin

Fyd-eang y DU[87] cymorth i fusnesau gael gafael ar gyllid twf; mesurau i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a chefnogi gweithwyr llawrydd; a chronfa twf Lleoedd Creadigol[88] newydd gwerth £150 miliwn ar gyfer chwe rhanbarth y tu allan i Lundain.

## Dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o ariannu cynnwys

Rydym yn croesawu enghreifftiau o gydweithio rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod cyllidebau cynnwys yn cael yr effaith fwyaf posibl. Er enghraifft, nod partneriaeth y BBC â'r darlledwr ZDF o'r Almaen yw cefnogi cynhyrchwyr i greu dramâu o safon ar gyfer y ddau ddarlledwr, gan rannu cyfleoedd yn gynharach i helpu cynhyrchwyr i ariannu eu rhaglenni'n gyflymach, a thrwy hyn, helpu'r BBC a ZDF i gael mynediad at deitlau a fyddai fel arall yn mynd i brynwyr byd-eang. Mae'r BBC hefyd yn un o 11 o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Ewropeaidd a fydd yn cydweithio i gynhyrchu cyfres animeiddio newydd ar gyfer gwylwyr ifanc ledled Ewrop. Rydym yn annog y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i barhau i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o fynd i'r afael â heriau cyllidebol.

## Dylai diwydiant barhau i gefnogi twf sgiliau a busnesau

Wrth i gomisiynau gwerth canolig ostwng, mae cyfle i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r diwydiant ehangach feddwl yn arloesol am lwybrau amgen i gefnogi cynhyrchwyr a phobl sy'n gweithio ym maes cynhyrchu i feithrin gallu ar gyfer mwy o gomisiynau o safon. Er enghraifft, rydym yn deall bod rhai sioeau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu ar y cyd gan gynhyrchwyr llai a mwy o faint, lle mae'r cynhyrchwyr llai yn cynnig syniadau creadigol ar gyfer comisiynau ac yn elwa o adnoddau a phrofiad y cynhyrchwyr mwy. Rydym yn annog cynhyrchwyr mwy i ddod o hyd i ffyrdd creadigol ychwanegol o gefnogi cynhyrchwyr llai i ddatblygu, a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i hwyluso gwahanol fathau o bartneriaethau. Rydym hefyd wedi clywed awgrymiadau am ffyrdd eraill o uwchsgilio talent ar gyfer cynyrchiadau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd â chyllideb uwch. Argymhellodd Directors UK fwy o gyfleoedd â thâl i ddatblygu sgiliau ar gynyrchiadau â chyllideb uchel[89] a chydweithio rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i fapio llwybrau gyrfa. Awgrymodd y BBC fwy o gydweithio rhwng y BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill - fel buddsoddwyr mawr mewn rhaglenni yn y DU - ar strategaeth gyflenwi a darparu adnoddau hyfforddi. Rydym yn cefnogi'r awgrymiadau hyn i helpu i sicrhau cynaliadwyedd sgiliau'r DU yn y dyfodol.

Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus amrywiaeth o fentrau sy'n cefnogi lefelau gwahanol o'r ecosystem gynhyrchu, gan gynnwys cyllid a chynlluniau i gefnogi twf cynhyrchwyr llai i ganolig ledled y DU a datblygu sgiliau a gweithwyr o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli. Rydym yn croesawu ymdrechion i ddatblygu haen ganol o gwmnïau cynhyrchu; er enghraifft, mae Business Boost Channel 4 yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol canolig neu gwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n tyfu'n gyflym sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau i'w helpu i gyrraedd y cam twf nesaf. Rydym yn croesawu mentrau arloesol i ehangu'r llif o dalent, gan gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr eraill sy'n cydweithio â chrewyr cynnwys (e.e. brodorion digidol TikTok a YouTube) i gysylltu â chynulleidfaoedd iau.

---

[87] Bydd cyllid yn cael ei gynyddu i £18 miliwn bob blwyddyn (2026-2029) i ddatblygu galluoedd busnes rhyngwladol, galluogi cyd-gynyrchiadau ac arddangos cynnwys sgrin annibynnol yn y DU ledled y byd.
[88] Bydd hyn yn cael ei ddatganoli i chwe Awdurdod Strategol Maerol a fydd yn gallu gwario'r gronfa i ddatblygu canolfannau ffilm a theledu rhanbarthol ledled Lloegr.
[89] Er enghraifft, mae Directors UK yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau cynhyrchu i ddarparu lleoliadau datblygu sgiliau â thâl. Gweler enghreifftiau o astudiaethau achos o'r lleoliadau, yma ac yma.

Rydym yn cefnogi argymhellion adroddiad ScreenSkills a 4Skills ar dargedu cynlluniau at fylchau mewn sgiliau technegol sy'n benodol i rôl ac at ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy mewn meysydd lle mae'r galw'n gostwng (e.e. cynhyrchu cynnwys heb sgript), gan deilwra mentrau i wahanol wledydd a rhanbarthau'r DU ar yr un pryd. Gall hyn gefnogi'r gweithlu i symud mwy a lleddfu'r pwysau mewn meysydd lle mae llawer o alw.

Wrth i gyllidebau darlledu gwasanaeth cyhoeddus leihau, rydym hefyd o'r farn bod cyfle i wahanol asiantaethau sgrin gydweithio mwy er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyllid a chefnogi amrywiaeth addas o ganolfannau cynhyrchu gwydn ledled y DU.

## Canolbwyntio cymorth ar gyfer rhai cwmnïau cynhyrchu

Mae sector cynhyrchu'r DU wedi addasu i bresenoldeb cynyddol comisiynwyr byd-eang a chynhyrchwyr mwy/nad ydynt yn eiddo i'r DU, ac wedi elwa ohono. Fodd bynnag, er bod gan rai cynhyrchwyr mwy o opsiynau comisiynu nag o'r blaen, gallai cynhyrchwyr llai a mwy arbenigol fod yn fwy tebygol o ddibynnu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am gomisiynau. Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rwymedigaethau cwota i gomisiynu cynnwys gan gynhyrchwyr annibynnol cymwys[90] ac mae Ofcom yn cyhoeddi canllawiau[91] ar eu cyfer mewn perthynas â chomisiynu gan y cynhyrchwyr hyn. Nid yw'r rheoliadau hyn yn gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau a meintiau o gynhyrchwyr annibynnol.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cwmnïau cynhyrchu llai a/neu gwmnïau cynhyrchu sy'n eiddo i'r DU drwy bennu meini prawf cymhwyso mwy penodol ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol yng nghyswllt rhwymedigaethau cwota cynyrchiadau annibynnol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac ar gyfer y canllawiau comisiynu. Mae'r BBC wedi dweud y gallai pennu meini prawf cymhwyso mwy penodol ar gyfer cynyrchiadau annibynnol arwain at nifer o ganlyniadau gwahanol, gan gynnwys galluogi mwy o amrywiaeth o gynhyrchwyr, a allai gefnogi allbwn y DU, arbenigeddau genre a chynyrchiadau y tu allan i Lundain. Dywedodd y BBC hefyd fod gwahanol gytundebau masnachol â chynhyrchwyr y tu allan i gwmpas y meini prawf yn gallu cefnogi mwy o werth i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded ac ailfuddsoddi yn y sector ehangach. Rydym wedi siarad hefyd ag academyddion sydd wedi mynegi pryderon am gwmnïau cynhyrchu sy'n eiddo i gwmnïau tramor sy'n gymwys ar gyfer y cwota cynhyrchu annibynnol.

Er bod cynhyrchwyr annibynnol llai yn aml yn cynnig syniadau newydd ac amrywiol gwerthfawr i gynulleidfaoedd yn y DU, gallai gwneud y meini prawf cymhwyso yn fwy penodol arwain at gyfaddawdau posibl. Er enghraifft, pe bai'r cwota cynyrchiadau annibynnol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gynyddu lefelau comisiynu gan gwmnïau llai, gallai hyn gyfyngu ar hyblygrwydd y darlledwyr hynny, drwy eu gorfodi i ddibynnu ar gwmnïau nad oes ganddynt y profiad gofynnol na'r un galluoedd o bosibl i ddiwallu eu hanghenion comisiynu. Gallai hefyd annog cwmnïau, sy'n gallu darparu mwy o gymorth ariannol i feithrin syniadau a thalent newydd, sydd yn y pen draw yn cyflwyno straeon amrywiol i gynulleidfaoedd, i beidio â chaffael cynhyrchwyr llai. Ar ben hynny, mae cwmnïau sy'n eiddo i ddarlledwyr tramor neu sydd â pherchnogaeth arall y tu allan i'r DU yn cyfrannu at yr economi genedlaethol (ac at yr economi leol berthnasol) drwy fuddsoddi mewn cynyrchiadau yn y DU.

---

[90] Mae 'cynhyrchwyr annibynnol' yn golygu cynhyrchwyr nad ydynt yn cael eu cyflogi gan ddarlledwr; heb gyfranddaliad sy'n fwy na 25% mewn darlledwr; ac nad ydynt yn gorff corfforaethol lle mae gan ddarlledwr gyfranddaliad sy'n fwy na 25% (neu lle mae gan ddau neu fwy o ddarlledwyr gyfranddaliad cyfun sy'n fwy na 50%). Gweler Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991.

[91] Mae Ofcom yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng nghyswllt llunio Codau Ymarfer ar gyfer comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Roedd adroddiad Pwyllgor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y sector teledu o safon a ffilmiau o Brydain wedi argymell y dylid rhoi rheoliadau newydd ar waith o ran y sector fideo ar-alw drwy danysgrifio er mwyn sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu'n cadw lefel sylfaenol o berchnogaeth ar eu heiddo deallusol (gan ddefnyddio mecanweithiau tebyg i'r canllawiau comisiynu darlledu gwasanaeth cyhoeddus)[92] a fyddai, ym marn y Pwyllgor, yn eu helpu i adeiladu busnesau cynaliadwy.[93] Fodd bynnag, mae cwestiynau perthnasol ynghylch cymesuredd, gan fod fideo ar-alw drwy danysgrifio wedi buddsoddi'n sylweddol yn y DU, nad yw'n destun manteision na rhwymedigaethau'r 'Compact darlledu gwasanaeth cyhoeddus', ac nad yw darlledwyr eraill yn y DU sydd ddim yn darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ddarostyngedig i rwymedigaethau o'r fath 'chwaith. Mae ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at fanteision ecoleg gymysg lle gall cynhyrchwyr daro bargeinion gyda ffrydwyr, sydd fel arfer yn cynnwys ffioedd uwch ymlaen llaw, a gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, lle mae'r cynhyrchydd fel arfer yn cadw'r hawliau eilaidd.

### Byddwn yn parhau i asesu'r datblygiadau ac rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith mewn cysylltiad â hyn

Mae'n amlwg bod y sector mewn cyfnod o newid a thrawsnewid a fydd yn debygol o barhau dros y blynyddoedd nesaf. Mae newidiadau ar droed hefyd o ran diweddaru'r rhwymedigaethau cynhyrchu darlledu gwasanaeth cyhoeddus o dan y Ddeddf Cyfryngau ac mae Channel 4 yn dechrau symud yn raddol i gynhyrchu'n fewnol.

Wrth i'r sector ail-lunio, byddwn yn parhau i asesu'n agos ddatblygiadau o ran cynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU. Bydd ein hadolygiad o'n prosesau rheoleiddio radio a theledu sy'n caei ei ddarlledu (a drafodir yn Adran 7) yn ystyried y gyd-ddibyniaeth rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu yn y DU o ran gwneud cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU gyfan.

## Casgliadau ar ariannu a chynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Bydd angen cyllid sefydlog a digonol ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus er mwyn cynnal amrywiaeth eang o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU. Mae hyn yn cynnwys newyddion a rhaglenni dibynadwy a chywir sy'n adrodd straeon o'r DU, yn arddangos amrywiaeth y DU gyfan, ac sy'n dod â'r wlad at ei gilydd. Mae angen hyblygrwydd ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr eraill i addasu i arferion gwylio sy'n newid yn gyflym. Mae comisiynau gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn allweddol i gynnal sector cynhyrchu bywiog a chynaliadwy yn y DU.

Mater i'r Llywodraeth yw gwneud penderfyniadau ar lefel gyffredinol y cyllid a sut dylid cyflawni hyn. Mae amrywiaeth eang o opsiynau ac, o ystyried maint yr her, mae'n debygol y bydd angen pecyn o fesurau er mwyn sicrhau y bydd y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn y dyfodol.

---

[92] Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn cynnwys set o ofynion yn ymwneud â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr annibynnol. Yn fras, effaith y rheoliad hwn yw bod cynhyrchwyr annibynnol, yn ddiofyn, yn cadw'r hawliau eilaidd dros eu cynnwys.
[93] Gweler Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin, Ebrill 2025. Teledu o safon a ffilmiau o Brydain, Adroddiad Cyntaf y Sesiwn 2024-25, t. 24.

**Argymhellion:**

- Mae rhanddeiliaid wedi galw am amrywiaeth o fesurau i gefnogi cyllid ar gyfer cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, sy’n cwmpasu ardollau a newidiadau i gredydau treth i ariannu genres penodol o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mater i'r Llywodraeth yw ystyried y rhain, ac arwain gwaith ar gyllido'r BBC yn y dyfodol drwy’r Adolygiad o'r Siarter.
- Os bydd cyllid newydd, rydym yn argymell y dylai flaenoriaethu genres sy'n werthfawr yn gymdeithasol ond yn llai hyfyw yn fasnachol ac yn denu refeniw hysbysebu is, fel newyddion, newyddion lleol, a rhaglenni plant.
- Mae angen i grewyr cynnwys gael elw teg am eu gwaith ar lwyfannau trydydd parti, gan gynnwys pan fyddan nhw’n cael eu defnyddio i hyfforddi gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae'r Llywodraeth yn ystyried ymatebion i'w hymgynghoriad ar ddeallusrwydd artiffisial a hawlfraint. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi agor ymgynghoriad yn ddiweddar hefyd ar Google Search, sy'n cynnwys nifer o ymyriadau posibl a ddylai helpu i wella telerau masnachol ar gyfer crewyr cynnwys sy'n dibynnu ar yr adnodd chwilio.
- Dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (a darparwyr eraill yn y DU) fynd ar drywydd partneriaethau strategol newydd (e.e. mewn technoleg a sut maen nhw'n cyrraedd cynulleidfaoedd) lle bydd y rhain yn darparu gwelliannau i gynulleidfaoedd.
- Mae angen eglurder ar frys ynghylch sut bydd teledu'n cael ei ddosbarthu yn y dyfodol. Bydd hyn yn caniatáu i'r sector wneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a’r diwydiant yn ehangach groesawu cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy dros y tymor hwy, gan gynnwys drwy barhau i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o ariannu cynnwys ac amrywio llwybrau ar gyfer twf busnesau a sgiliau.

# 5. Cefnogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

**Yn yr adran hon, rydym yn:**

- Ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn gallu dod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd ar y llwyfannau trydydd parti maen nhw'n eu defnyddio fwyfwy i gael gafael ar newyddion a chynnwys arall.
- Canolbwyntio'n benodol ar opsiynau ar gyfer rhoi amlygrwydd i raglenni plant a newyddion y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau mawr.

## Cyflwyniad

Mae arferion cynulleidfaoedd yn parhau i esblygu a hollti wrth iddynt gael mynediad at newyddion a chynnwys fwyfwy ar draws cymysgedd o lwyfannau digidol a thrydydd parti, o gyfryngau cymdeithasol i lwyfannau rhannu fideos. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eraill yn esblygu'n gyflym sut maen nhw'n cysylltu â chynulleidfaoedd yn yr amgylchedd hwn sy'n newid o hyd.

Rydym yn canolbwyntio ar opsiynau sy'n sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu gweld a dod o hyd i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd lle bynnag maen nhw - yn y lle cyntaf ar gyfer rhaglenni plant a newyddion y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Wrth i ddefnydd digidol gynyddu, gallai fod achos dros adolygu a ddylai amlygrwydd ymestyn i ystod ehangach o gynnwys a set ehangach o ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

## Arferion gwylio newydd yn tanseilio amlygrwydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Mae rheoleiddio wedi helpu cynulleidfaoedd ers tro byd i weld cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar deledu darlledu llinol a dod o hyd iddo'n hawdd. Mae'r gofynion ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn darparu cynyrchiadau gwreiddiol o'r DU a newyddion cywir, diduedd o ansawdd uchel ar wasanaethau llinol. Mae rheolau mewn grym hefyd i roi amlygrwydd priodol i sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar amserlenni rhaglenni electronig.

Ond fel y trafodwyd yn flaenorol, mae pobl yn treulio llai o amser yn gwylio teledu darlledu llinol, a oedd yn cyfrif am lai na hanner amser gwylio yn y cartref cynulleidfaoedd yn ystod 2024. Mae hyn yn ymestyn i newyddion, gan mai dim ond 46% o gynulleidfaoedd sydd bellach yn gwylio newyddion ar sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob wythnos ar setiau teledu (gostyngiad o 10 pwynt canran

ers 2022).[94] Mae ein Harolwg ar Gael Gafael ar Newyddion yn dangos bod y defnydd o'r teledu fel ffynhonnell newyddion yn gostwng: roedd 63% yn defnyddio teledu darlledu ar gyfer newyddion yn 2025 o'i gymharu â 79% yn 2018, ac mae'r defnydd o ffynonellau a gwasanaethau ar-lein wedi cynyddu i 70% o 64% yn 2018.

Gyda chynulleidfaoedd yn troi at wasanaethau ar-lein gan gynnwys fideo ar-alw gan ddarlledwyr, fideo ar-alw drwy danysgrifio a llwyfannau rhannu fideos (a oedd gyda'i gilydd yn cyfrif am 43% o gyfanswm y gwylio yn y cartref yn ystod 2024)[95], mae'n debygol eu bod yn gwylio llai o raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae ein dadansoddiad o'r hyn mae cynulleidfaoedd y DU yn ei wylio ar YouTube (gweler Atodiad 1) yn awgrymu bod tua thraean o'u hamser gwylio yn cael ei dreulio ar ffynonellau traddodiadol fel darlledwyr teledu, dosbarthwyr a stiwdios teledu neu ffilmiau, neu labeli cerddoriaeth. Mae hefyd yn awgrymu mai dim ond un rhan o bump o'u hamser gwylio oedd yn cael ei dreulio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU.

Mae diffyg cysylltiad cynyddol rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynulleidfaoedd yn bygwth cynaliadwyedd darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, ac yn sgil hynny, fynediad cynulleidfaoedd at newyddion dibynadwy a chywir sy'n cefnogi cymdeithas ddemocrataidd. Mae hefyd yn peryglu eu gallu i gael gafael ar amrywiaeth o raglenni sy'n adlewyrchu'r DU gyfan. Mae hon yn her benodol o ran plant a phobl iau a allai, heb gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, golli mynediad at gynnwys o'r DU sy'n eu helpu i ddysgu a thyfu a gweld eu bywydau, a gwerthoedd cymdeithasol a rennir yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin.

Penderfynodd y Senedd ddiweddaru amlygrwydd cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy'r Ddeddf Cyfryngau, a gyflwynodd drefn amlygrwydd ac argaeledd ar-lein ar gyfer chwaraewyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu dosbarthu ar lwyfannau teledu sydd wedi'u cysylltu. Er ein bod yn disgwyl i hyn arwain at fanteision amlwg o ran pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ni fydd y rheoliadau hyn yn berthnasol i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau rhannu fideos, ac ni fyddant 'chwaith yn helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfryngwyr ar-lein fel y cyfryngau cymdeithasol. Byddai ymestyn amlygrwydd ar gyfer cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau ychwanegol sy'n chwarae rhan gynyddol fawr yn y gwaith o gysylltu cynulleidfaoedd â newyddion a chynnwys arall yn estyniad naturiol i'r egwyddor amlygrwydd.

## Mae llwyfannau ar-lein yn dylanwadu'n gryf ar ba gynnwys sy'n ymddangos i ddefnyddwyr

Llwyfannau ar-lein sy'n pennu sut mae cynnwys ac eitemau newyddion yn cael eu cyflwyno, fel cynnwys delweddau neu destun, ac a ydynt yn ymddangos yn gymysg â chynnwys arall neu ar dudalen newyddion benodol.[96] Maent hefyd yn effeithio ar sut mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â chynnwys: er enghraifft, canfu ein gwaith blaenorol fod pobl yn treulio bron i 15 gwaith yn fwy yn edrych ar

---

[94] Barb fel y'i gwyliwyd. Oedolion 16 oed a hŷn. Meini prawf cyrhaeddiad: 3 munud a mwy yn olynol. Gwylio newyddion cenedlaethol/rhyngwladol a chyffredinol ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unig (rhaglenni byw a chwarae'n ôl, ac eithrio fideo ar-alw gan ddarlledwyr).
[95] Barb fel y'i gwyliwyd, unigolion 4 oed a hŷn. Canran cyfanswm gwylio fideos yn y cartref (gan gynnwys defnydd anhysbys o setiau teledu, heb gynnwys defnydd o gonsolau gemau), fel y dangosir yn Ffigur 1.
[96] Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y ffyrdd mae peiriannau chwilio a systemau argymell cyfryngau cymdeithasol yn gweithio. Er enghraifft, mae peiriannau chwilio yn graddio cynnwys o bob rhan o'r rhyngrwyd (cronfa ddata agored) ar sail perthnasedd i'r ymholiad (yn ogystal â metrigau eraill fel dibynadwyedd, awdurdod a phoblogrwydd). Mae systemau argymell cyfryngau cymdeithasol yn mynd ati'n annibynnol i guradu ffrydiau newyddion o gronfa cynnwys y llwyfan (cronfa ddata gaeedig) yn seiliedig ar ragdybiaeth o'u perthnasedd i'r defnyddiwr.

eitemau newyddion ar frig ffrwd cyfryngau cymdeithasol na'r rhai sydd ymhellach i lawr yn y ffrwd, a bod hyn yn cynyddu'n sylweddol y tebygolrwydd y byddai darllenwyr yn cofio cynnwys yr erthyglau hynny ar y brig. Mae ymchwil arall wedi canfod bod trefn canlyniadau peiriant chwilio yn gallu effeithio ar ba mor debygol yw hi y bydd pobl yn darllen erthygl newyddion neu ddarn o gynnwys.[97] Canfu ein dadansoddiad diweddar (gweler Atodiad 1) fod y rhan fwyaf o fideos YouTube sy'n cael eu gwylio o borwyr gwe yn y DU yn cael eu gwylio o ganlyniad i system argymell YouTube.[98]

Gall y systemau hyn ganiatáu i ddefnyddwyr weld a dod o hyd i gynnwys maen nhw'n ei fwynhau ac eisiau ymgysylltu ag ef, gan eu helpu i lywio drwy'r swmp mawr o wybodaeth sydd ar gael.[99] Roedd ein hymchwil flaenorol yn dangos y gallai llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gael eu cymell i guradu cynnwys mewn ffordd sy'n cadw defnyddwyr ar eu llwyfannau am gyn hired â phosibl ac sy'n annog defnyddwyr i ryngweithio er mwyn casglu mwy o ddata.

Mae'r systemau hyn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth guradu cynnwys ar gyfer defnyddwyr unigol, gan gynnwys eu hymddygiad yn y gorffennol, fel 'hoffi' cynnwys a thanysgrifio i grewyr penodol, ochr yn ochr â phoblogrwydd crëwr neu ddarn o gynnwys. Rydym hefyd wedi edrych ar dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai rhai llwyfannau gael eu cymell i hybu ymgysylltiad drwy ddarparu cynnwys ac arlwy newyddion sy'n hollti barn defnyddwyr, ac sy'n gul ac yn cynnwys camwybodaeth.[100]

Ar y llaw arall, rydym wedi siarad â nifer o lwyfannau sydd wedi egluro eu bod yn ystyried amrywiaeth o elfennau wrth argymell cynnwys, fel rhoi profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr, annog ymweliadau dro ar ôl tro, a chyfyngu ar amlygrwydd unrhyw gynnwys sy'n debygol o dorri safonau'r llwyfan. Gall y ffyrdd y mae llwyfannau'n llunio argymhellion amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr a thros amser.

Mae'n anodd deall pa mor amlwg yw cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau ar-lein ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn ôl dadansoddiad cychwynnol a gynhaliwyd gennym gan ddefnyddio API Data YouTube (gweler Atodiad 1), wrth chwilio am amrywiaeth o dermau poblogaidd sy'n ymwneud â'r newyddion, gwelsom fod 6% o'r deg canlyniad uchaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac nad oedd tri chwarter y fideos yn tarddu o'r DU er bod y lleoliad chwilio wedi cael ei osod i'r DU.[101]

Nid oes gofynion i lwyfannau ar-lein fel llwyfannau rhannu fideos na chyfryngau cymdeithasol eraill gario cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, nac i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus roi eu cynnwys ar y gwasanaethau hyn, felly nid oes sicrwydd y byddant ar gael ar y gwasanaethau hyn. Mae enghreifftiau rhyngwladol o lwyfannau'n ystyried neu'n penderfynu cael gwared â chynnwys newyddion. Er enghraifft, ymatebodd Meta i gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo negodi cytundebau ariannol â chyhoeddwyr newyddion Canada drwy rwystro cynnwys newyddion ar gyfer defnyddwyr yn y wlad. Mae ymchwil yn awgrymu bod gweithredoedd Meta wedi arwain at fwy o

---

[97] Mae ymchwil flaenorol ar hyn yn cynnwys: Urman a Markhortykh, 2021. You Are How (and Where) You Search? Comparative Analysis of Web Search Behaviour Using Web Tracking Data; a Roberto Ulloa, Celina Sylwia Kacperski, 2024. Search engine effects on news consumption: Ranking and representativeness outweigh familiarity in news selection.

[98] Mae system argymell yn cyfeirio at adnodd awtomataidd sy'n rhyngwynebu â llyfrgell o gynnwys sy'n cael ei gynnal ar lwyfan digidol i ddod â chynnwys penodol gerbron defnyddwyr. Mae'n fath o system adalw a graddio gwybodaeth sy'n awgrymu cynnwys i ddefnyddiwr gwasanaeth, ac mae'n cael ei phweru gan set o algorithmau. I gael trafodaeth fanylach am systemau argymell gweler Adroddiad Patrwm, 2023.

[99] Adroddiad Patrwm, 2023. Gwerthuso systemau argymell mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol.

[100] Ofcom, 2024. Newyddion Ar-lein: Diweddariad ymchwil, t. 14-18; Robertson et al, 2023. Negativity drives online news consumption, Nature Human Behaviour, 2023.

[101] Mewn rhai achosion, bydd y straeon a fydd wedi bod yn ganolbwynt mawr i'r agenda newyddion ar y diwrnodau roeddem yn cynnal yr ymchwil, wedi bod yn straeon newyddion y byd neu'n straeon sy'n deillio o'r tu allan i'r DU sy'n dal o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn y DU.

ddefnyddwyr yn dod i gysylltiad â gwybodaeth o ansawdd isel[102] a bod darparwyr newyddion Canada wedi colli 85% o'u hymgysylltiad ar Facebook ac Instagram, ar ôl dibynnu'n flaenorol ar Facebook yn benodol i gyrraedd cynulleidfaoedd.[103]

## Yn yr amgylchedd newydd hwn, dylai cynulleidfaoedd barhau i allu cael gafael ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a dod o hyd iddyn nhw'n hawdd

Er mwyn cynnal manteision cymdeithasol rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwneud yn siŵr eu bod i bawb, mae'n bwysig bod darparwyr yn cynnig eu cynnwys ar lwyfannau trydydd parti blaenllaw a bod yn rhaid i wylwyr allu ei weld a dod o hyd iddo'n hawdd.

Mae amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r sector darlledu a thu hwnt - gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, grwpiau cynulleidfaoedd, ymchwilwyr academaidd a Phwyllgor Digidol a Chyfathrebu Tŷ'r Arglwyddi - wedi adleisio hyn, gan alw am wneud cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn fwy amlwg ar y gwasanaethau. Er enghraifft, mae Channel 4 wedi galw am "*amlygrwydd algorithmig*" ar gyfer cynnwys dibynadwy o ansawdd uchel.[104] Roedd ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i Ddyfodol Newyddion hefyd yn annog llwyfannau technoleg i roi amlygrwydd i ddarparwyr newyddion cydnabyddedig.[105]

### Mae modd dehongli amlygrwydd mewn sawl ffordd

Bydd yr hyn y mae 'amlygrwydd' yn ei olygu yn amrywio ar draws gwahanol fathau o wasanaethau a llwyfannau, ond fel arfer mae'n disgrifio arferion sydd wedi'u cynllunio i gynyddu neu leihau pa mor amlwg yw rhai mathau o gynnwys a'u cynrychiolaeth. Er enghraifft, rydym wedi trafod sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael amlygrwydd ar deledu sy'n cael ei ddarlledu drwy'r slotiau uchaf ar amserlenni rhaglenni electronig. Disgwylir i wasanaethau fideo ar-alw fel Netflix roi amlygrwydd i gynyrchiadau Ewropeaidd o dan Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yr UE, er enghraifft drwy greu mannau pwrpasol ar eu hafanau neu yn eu catalogau.[106] Ar hyn o bryd mae ein gwaith i weithredu'r Ddeddf Cyfryngau yn edrych ar beth fydd amlygrwydd priodol yn ei olygu i chwaraewyr dynodedig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau teledu sydd wedi'u cysylltu.

Mae amlygrwydd ar lwyfannau ar-lein yn cyfeirio'n gyffredinol at roi safle uwch i eitem benodol o gynnwys mewn rhyngwyneb defnyddiwr. Ar lwyfannau rhannu fideos a gwefannau cyfryngau cymdeithasol, gallai hyn olygu bod cynnwys yn ymddangos yn y pum prif ganlyniad chwilio, yn y pum argymhelliad cyntaf neu mewn rheiliau neu faneri hyrwyddo ar gyfer mathau penodol o gynnwys.

Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys y BBC, hefyd wedi galw am ehangu amlygrwydd i ddyfeisiau y gellir eu defnyddio i gael gafael ar gynnwys, fel teclynnau rheoli o bell, consolau gemau a ffonau symudol. Safbwynt presennol y Llywodraeth yw y byddai ymestyn amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus i

[102] ISD, 2025. 'This content isn't available in Canada': How Meta's news ban is disrupting discourse about the Israel–Hamas war.
[103] Arsyllfa Ecosystem y Cyfryngau, 2024. Information Ecosystem Brief – Old News, New Reality: A Year of Meta's News Ban in Canada.
[104] Channel 4, 2025. Gen Z Truth Trust and Trends.
[105] Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi, Gorffennaf 2024. The future of news: impartiality, trust and technology.
[106] O dan Erthygl 13(1) o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ar-alw sicrhau o leiaf 30% o gyfran y gwaith Ewropeaidd yn eu catalogau a sicrhau amlygrwydd y gwaith hwnnw.

ffonau clyfar a chonsolau gemau yn anghymesur, o ystyried nad gwylio teledu yw prif swyddogaeth y dyfeisiau hyn.[107] Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymrwymo i adolygu'r rhestr o offer teledu rhyngrwyd sy'n dod o dan ddarpariaethau amlygrwydd y Ddeddf Cyfryngau.[108]

## Mae amlygrwydd yn arbennig o bwysig i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ran newyddion a rhaglenni plant

Er eu bod yn chwarae rolau sylweddol mewn cymdeithas, mae rhaglenni plant a newyddion y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu heriau amlwg o ran cysylltu â phobl ar-lein. Rydym yn trafod isod y rôl bwysig y mae'r genres hyn yn ei chwarae yn y DU, a pham ei bod yn arbennig o bwysig bod modd i gynulleidfaoedd weld a dod o hyd i'r cynnwys hwn yn hawdd ar lwyfannau trydydd parti blaenllaw.

### Mae newyddion cywir a diduedd o ansawdd uchel yn hanfodol i ddemocratiaeth sy’n gweithio’n dda

Mae mynediad at newyddion a gwybodaeth gywir o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn hwyluso dealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth wybodus. Er bod mwy o bobl yn cael gafael ar newyddion drwy gyfryngwyr ar-lein, mae gan bobl lai o ffydd mewn newyddion ar y llwyfannau hyn nag sydd ganddyn nhw mewn darparwyr newyddion traddodiadol a ddarlledir. Mae ein dadansoddiad wedi canfod hefyd bod y rheini sy’n defnyddio allbwn newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn fwy tebygol o adnabod gwybodaeth ffeithiol bwysig yn gywir, bod ganddyn nhw lefelau uwch o ymddiriedaeth mewn sefydliadau, a bod llai o hollti barn yn eu plith nag ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[109]

Mae mynediad cynulleidfaoedd at wybodaeth ddibynadwy a chywir ar-lein yn arbennig o bwysig hefyd ar adeg pan mae cynulleidfaoedd mewn mwy o berygl o ddod i gysylltiad â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Mae ein hymchwil ddiweddar yn dangos bod 43% o oedolion yn honni eu bod wedi dod ar draws camwybodaeth a thwyllwybodaeth, ac roedd 71% o’r grŵp hwnnw yn dweud eu bod wedi’i gweld ar-lein, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, yn fwy nag ar unrhyw lwyfan arall.[110] Mae newyddion dibynadwy gan ddarparwyr fel y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn hanfodol i helpu cynulleidfaoedd i asesu hygrededd y newyddion maen nhw'n ei ddarllen ar draws nifer o ffynonellau. Mae adroddiad diweddar yn awgrymu y gallai atgyfnerthu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a sicrhau bod newyddion er budd y cyhoedd ar gael ar gyfryngau cymdeithasol, helpu i ddiogelu'r gadwyn gyflenwi gwybodaeth.

Mae hyn i gyd yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod newyddion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus dibynadwy a chywir o ansawdd uchel ar gael yn rhwydd ac yn amlwg ar wasanaethau ar-lein sy'n cael eu defnyddio'n eang.

---

Mae tua 8% o bobl yn y DU yn defnyddio consol gemau i wylio teledu/fideo, a dim ond tua 2% o bobl sy'n defnyddio un fel eu dyfais gwylio fideos dewis cyntaf. Ffynhonnell: Ymchwil Defnyddwyr Omdia, Tachwedd 2024. Oedolion 18-64 oed.

[108] Dywedodd y llywodraeth y byddai'n adolygu'r rhestr o ddyfeisiau sy'n cael eu hystyried yn offer teledu rhyngrwyd o dan y darpariaethau amlygrwydd yn y Ddeddf Cyfryngau flwyddyn ar ôl gweithredu'n llawn (tua 2027).

[109] Ofcom, 2025. Y berthynas rhwng defnyddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer newyddion a chanlyniadau ar lefel cymdeithas: Dadansoddiad empirig.

[110] Ofcom, 2024. Deall camwybodaeth: archwilio ymddygiad ac agweddau oedolion yn y DU.

### Mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn galluogi plant i ddysgu, tyfu a gweld eu bywydau'n cael eu hadlewyrchu ar y sgrin

Mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus plant yn helpu cynulleidfaoedd ifanc i ddysgu am y DU, ei hamrywiaeth a'r byd o'u cwmpas. Mae newid mawr wedi bod yn y gwasanaethau mae plant yn eu defnyddio i wylio cynnwys, gan symud oddi wrth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a thuag at lwyfannau trydydd parti fel YouTube. Er bod dau gomisiwn darlledu gwasanaeth cyhoeddus (*Bluey a Peppa Pig*) ymysg y 50 sianel YouTube â'r nifer mwyaf o wylwyr yn y DU, canfu dadansoddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar nad oedd sianeli plant y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain ymysg y 50 uchaf.[111]

Nid oes gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o sut mae plant yn defnyddio'r llwyfannau hyn, gan gynnwys y mathau o fideos maen nhw'n eu gwylio a'r tebygolrwydd y byddan nhw'n dod ar draws cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ac yn ei wylio. Mae'r darlun anghyflawn hwn, ynghyd â'r dewis cynyddol y mae gwasanaethau trydydd parti yn ei gynnig, wedi arwain at bryderon bod plant yn yr oes sydd ohoni yn llai tebygol o fod yn gwylio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ac o'r herwydd, eu bod yn gweld llai o gynnwys sy'n gallu eu helpu i ddysgu ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU gyfan a'i gwerthoedd cymdeithasol.

Ym mis Rhagfyr, nododd yr Ysgrifennydd Gwladol ei bod yn bwysig bod plant yn gallu *"gweld a dod o hyd i gynnwys o ansawdd uchel yn haws o lawer"* ar lwyfannau fel YouTube. Mae perygl hefyd, os nad yw pobl yn troi at gynnwys gwasanaeth cyhoeddus pan fyddant yn ifanc, eu bod yn llai tebygol o greu cysylltiad ag ef wrth iddynt heneiddio, gan roi cynulleidfa cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn y fantol, ynghyd â'r manteision cymdeithasol maen nhw'n eu cynnig o ran adlewyrchu'r DU gyfan, ei hamrywiaeth a dod â'r wlad ynghyd.

## Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, llwyfannau a'r Llywodraeth rôl i'w chwarae o ran cysylltu cynulleidfaoedd â chyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sicrhau bod eu cynnwys ar gael ar y llwyfannau mae pobl yn troi atynt fwyfwy, gan apelio at chwaeth cynulleidfaoedd sy'n newid. Dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r llwyfannau weithio gyda'i gilydd ar frys i wneud y cynnwys hwn yn amlwg ac yn hawdd dod o hyd iddo, yn enwedig rhaglenni plant a newyddion. Dylai'r Llywodraeth ystyried a oes angen deddfwriaeth wrth gefn hyn.

### Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd ar lwyfannau trydydd parti

Er mwyn cysylltu â gwylwyr ar lwyfannau rhannu fideos, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr eraill yn datblygu ac yn addasu eu strategaethau dosbarthu a chynnwys digidol yn barhaus - gan ystyried pa wasanaethau i roi eu deunydd arnynt, yn ogystal â faint o gynnwys a'r mathau o gynnwys.

Wrth wneud hynny, maen nhw wedi gorfod wynebu amrywiaeth o risgiau posibl. Rydym wedi clywed pryderon, wrth wylio cynnwys darlledwr ar lwyfan rhannu fideos, na fydd cynulleidfaoedd, o bosibl, yn

[111] Fodd bynnag, mae'r ffigurau gwylio hyn yn ymwneud â gwylwyr o bob oed ac yn cynrychioli ciplun o ddata sy'n gallu bod yn gyfnewidiol iawn ac yn anodd i drydydd partïon eu holrhain dros amser. Gweler: E Shapiro, 2025. YouTube: A Landscape, Mehefin 2025.

ymwybodol o'i ffynhonnell wreiddiol. Gallai'r diffyg priodoli hwn arwain at wanhau eu brandiau, ac i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael arian cyhoeddus fel y BBC ac S4C, gallai arwain at gynulleidfaoedd yn tanamcangyfrif gwerth ffi'r Drwydded Deledu. Rydym hefyd wedi clywed am berygl 'canibaleiddio,' lle mae cynulleidfaoedd yn gwylio ar lwyfan rhannu fideos yn hytrach nag ar lwyfan y darlledwyr, a allai arwain at lai o refeniw hysbysebu i'r darlledwyr nag y byddent yn ei gael o'u llwyfannau eu hunain. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod eu cynnwys newyddion yn gallu cael ei rwystro yn ôl oedran neu ei ddadflaenoriaethu yn dibynnu ar natur y cynnwys a thelerau gwasanaeth y llwyfannau.

Channel 4 oedd y cyntaf ymysg y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i roi cynnwys ar YouTube gyda'r bwriad bod cynulleidfaoedd yn ei wylio ar y llwyfan, yn hytrach na chyfeirio gwylwyr yn ôl at eu chwaraewr fideo ar-alw eu hunain. Mae hyn yn cynnwys lanlwytho penodau llawn o raglenni fel *Location, Location, Location* ac *8 out of 10 Cats* i YouTube, yn ogystal â chreu cynnwys sy'n 'frodorol' i lwyfannau rhannu fideos a chyfryngau cymdeithasol eraill drwy ei gangen cynhyrchu digidol fewnol. Dywedodd nad yw ei strategaeth yn arwain at 'ganibaleiddio', ond yn hytrach yn caniatáu iddo gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Yn 2022, cytunodd Channel 4 ar gytundeb gyda YouTube a oedd yn caniatáu iddo werthu hysbysebion yn erbyn ei gynnwys.

Mae ITV hefyd wedi dechrau cynnig amrywiaeth ehangach o gynnwys ar YouTube yn ddiweddar, gan gynnwys rhai penodau llawn sydd hefyd wedi ymddangos ar ddarllediad llinol. Ar ddiwedd 2024, fe luniodd hefyd gytundeb hysbysebu gyda YouTube sy'n caniatáu iddo werthu hysbysebion yn erbyn ei gynnwys. Prif strategaeth y BBC oedd rhoi cynnwys ar lwyfannau rhannu fideos i ddenu cynulleidfaoedd yn ôl at BBC iPlayer. Mae'r fideos sy'n ymddangos ar YouTube a TikTok yn tueddu i fod yn fwy hyrwyddol, ond mae hyn yn newid. Mae Channel 5 yn gosod cynnwys hyrwyddo gan gynnwys clipiau a rhagflasau o amrywiaeth o genres ar lwyfannau fel YouTube, TikTok ac Instagram.

Bydd yn cymryd amser i ddeall yr effaith y bydd y strategaethau cymharol newydd hyn yn ei chael ar wylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy lwyfannau trydydd parti.

## Rhoi mwy o newyddion ar wasanaethau ar-lein a phrofi fformatau newydd

Mae ein dadansoddiad diweddar gan ddefnyddio Data API YouTube yn awgrymu bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynyddu'n sylweddol nifer y fideos maen nhw'n eu postio o'u prif sianeli newyddion (gweler Atodiad 1). Mae rhai yn newid fformat y fideos maen nhw'n eu postio ar YouTube hefyd. Er enghraifft, mae Channel 4 News, ITV News ac STV News i gyd wedi gwyro tuag at fideos byrrach ers dechrau 2023.

Mae rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym, yn ogystal ag ailbecynnu cynnwys o'u bwletinau darlledu llinol ar gyfer llwyfannau trydydd parti, eu bod hefyd yn creu cynnwys pwrpasol ar gyfer y gwasanaethau hyn, sydd, yn eu barn nhw, yn sbarduno lefelau gwell o ymgysylltu. Mae rhai hefyd yn rhoi sylw i straeon newydd a gwahanol ar y llwyfannau hyn fel ffordd o ymgysylltu â'r grwpiau cynulleidfa gwahanol y gallant eu cyrraedd ar-lein. Mewn trafodaethau â ni, mae llawer o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi tynnu sylw at y gofal maen nhw'n ei gymryd wrth barhau i gynnal y safonau cywirdeb a didueddrwydd dyladwy y mae'n rhaid iddyn nhw eu cyrraedd gyda'u cynnwys llinol, gyda'u cynnwys newyddion ar-lein hefyd.

## Creu cynnwys i blant yn benodol ar gyfer llwyfannau rhannu fideos

Mae strategaethau darlledwyr ar gyfer dosbarthu cynnwys i blant yn esblygu ar draws nifer o lwyfannau. Er enghraifft, mae'r BBC yn parhau i ddarparu rhaglenni plant ar ei sianeli llinol, CBeebies a CBBC, ochr yn ochr â BBC iPlayer a YouTube. Mae hefyd yn ymgorffori cynnwys a phersonoliaethau'r

BBC mewn gemau poblogaidd, fel Roblox. Fel sy'n cael ei drafod yn Atodiad 1, mae Channel 5, ITV, S4C a Sky wedi creu a datblygu sianeli YouTube gwahanol sy'n dangos eu cynnwys eu hunain i blant.

Mae'r mathau o gynnwys i blant y mae darlledwyr yn ei ddarparu ar YouTube yn cynnwys amrywiaeth o glipiau, casgliadau ac, mewn rhai achosion, penodau llawn. Mae'r BBC yn creu cyfres o sianeli byw ac yn datblygu cynnwys sydd wedi'i wneud yn benodol ar gyfer YouTube. Mae ganddo dîm penodol sy'n mynd ati i ddeall sut mae plant yn ymgysylltu â'i gynnwys ar YouTube a sut mae sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd iddo. Gan mai megis dechrau mae'r strategaethau hyn o hyd, nid yw'n hysbys eto beth fydd effaith plant yn dod o hyd i'w cynnwys ar YouTube ac yn ei wylio.

## Bydd yn rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud eu gorau glas i greu cynnwys sy'n apelio at wahanol wylwyr

Mae cael darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod eu cynnwys ar gael ar wasanaethau trydydd parti poblogaidd yn amod angenrheidiol er mwyn i gynulleidfaoedd allu ei wylio a gwrando arno yn yr amgylchedd newydd hwn. Fodd bynnag, nid yw'n debygol o fod yn ddigon: hyd yn oed gydag argaeledd ac amlygrwydd, bydd angen iddyn nhw sicrhau eu bod yn gallu darparu cynnwys y mae grwpiau cynulleidfa amrywiol eisiau ei wylio a gwrando arno.

O ran newyddion, mae ein hymchwil yn dangos bod llai o ymatebwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol (65%) nag oedolion Gwyn (73%) yn dweud eu bod yn defnyddio newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob wythnos, ar draws pob llwyfan. Mae ymddiriedaeth mewn newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn amrywio ymysg gwahanol ddemograffeg. Ar draws newyddion teledu ac ar-lein y BBC, roedd defnyddwyr rheolaidd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o'i sgorio'n uchel ar gyfer ymddiriedaeth o'u cymharu â'r rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch. Ymysg gwylwyr rheolaidd newyddion ar ITV a Channel 4, roedd y rheini o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn llai tebygol o'u sgorio'n uchel am ymddiriedaeth o'u cymharu â gwylwyr Gwyn. Fel yn 2024, mae bron i hanner (46%) poblogaeth y DU yn dweud eu bod weithiau neu'n aml yn osgoi newyddion yn 2025.[112]

Gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd neu gynulleidfaoedd sydd wedi ymddieithrio drwy'r hyn maen nhw'n ei wneud ar-lein. Os yw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu cyrraedd rhai o'r cynulleidfaoedd hyn drwy'r llwyfannau ar-lein maen nhw nawr yn eu defnyddio neu drwy arbrofi gyda mathau o gynnwys a thalent newydd a gwahanol, efallai y byddan nhw'n gallu gwella lefelau ymddiriedaeth ar yr un pryd â chyrraedd cynulleidfaoedd sydd â llai o ymgysylltiad. Mae sicrhau eu bod yn rhoi sylw i straeon perthnasol sy'n taro tant â chynulleidfaoedd ar-lein mewn ffordd ddilys yn bwysig hefyd.

Mae ein hymchwil hefyd wedi archwilio agweddau at y broses cynhyrchu newyddion. Fel rhan o hyn, gwelsom fod 44% o bobl yn cytuno â'r datganiad mai po fwyaf y mae stori'n cael ei golygu, y lleiaf y mae'n debygol o fod yn wir, a bod 42% yn dweud eu bod yn ymddiried mwy mewn fideos llygad-dystion na lluniau neu erthyglau ysgrifenedig. Ar ben hynny, dim ond 32% o bobl a ddywedodd eu bod yn meddwl bod newyddiadurwyr fel arfer yn dilyn codau ymarfer i annog cynnwys cywir a moesegol. Wrth i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio datblygu eu strategaethau newyddion ar-lein ac yn ehangach, fe ddylen nhw fod yn ymwybodol o'r canfyddiadau hyn, sy'n tanlinellu pwysigrwydd darparwyr newyddion traddodiadol fel y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dangos y camau maen nhw'n eu cymryd wrth gynhyrchu stori i sicrhau ei bod yn gywir. Yn Adran 6, rydym yn trafod yn

[112] Astudiaeth Newyddiaduraeth Sefydliad Reuters, 2025. Adroddiad Newyddion Digidol Sefydliad Reuters 2025, t. 27.

fanylach rai o'r mentrau mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac eraill wedi'u lansio yn y maes hwn, a allai helpu i barhau i feithrin ymddiriedaeth.

Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod eu cynnwys yn apelio at ystod gynyddol o chwaethau, o blant a gwylwyr ifanc sy’n mabwysiadu llwyfannau fel TikTok a YouTube yn gynnar, i grwpiau cynulleidfa hŷn sy'n treulio mwy a mwy o amser yn gwylio cynnwys ar YouTube gan gynnwys ar y teledu. Nid yw cyflawni hyn yn syml. Er enghraifft, bydd gofyn iddyn nhw dreialu dulliau a fformatau dosbarthu newydd ac asesu pa mor eang yw’r gynulleidfa darged y dylai eu brandiau a'u rhaglenni gwahanol anelu at ei chyrraedd. Bydd angen iddyn nhw barhau i ystyried a ddylid ymgorffori rhai priodoleddau sy’n apelio at grwpiau cynulleidfa gwahanol i'w cynnwys, ac os felly sut - er enghraifft, ‘dilysrwydd’ - rhywbeth y mae rhai cynulleidfaoedd iau yn ei werthfawrogi.

Mae’r Ddeddf Cyfryngau wedi rhoi mwy o hyblygrwydd a rhyddid i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran y gwasanaethau y gallant eu defnyddio i gyflawni eu cylchoedd gwaith. Rydym wedi cynnig y bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nodi a ydyn nhw’n bwriadu defnyddio gwasanaethau ar-lein i gyfrannu at gyflawni eu cylchoedd gwaith yn eu Datganiadau Polisi Rhaglenni, ac os felly, sut. Byddwn wedyn yn gallu ystyried cyfraniadau o'r fath mewn Adolygiadau o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol.

## Dylai llwyfannau a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud mwy i helpu cynulleidfaoedd i weld cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Mae'n hanfodol bod cynulleidfaoedd yn gallu gweld a darganfod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau trydydd parti. Yn y lle cyntaf, mae'n bwysig bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a YouTube yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg ar ei wasanaeth i ddefnyddwyr yn y DU. Dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd weithio gyda llwyfannau eraill i sicrhau bod eu cynnwys newyddion yn gallu parhau i gysylltu â phob cynulleidfa. Dylai llwyfannau fod yn dryloyw gyda'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch sut gallant wneud y defnydd gorau o nodweddion a swyddogaethau i sicrhau bod eu cynnwys yn cyrraedd cynulleidfaoedd yn y DU. Dylent hefyd gynnig cyngor a chymorth ar sut gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio gwybodaeth a dadansoddiadau perthnasol o gynnwys yn effeithiol i ddeall pam ac ymysg pwy mae eu cynnwys yn perfformio'n dda, neu ddim yn perfformio cystal.

### Gellir gwella amlygrwydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus drwy adeiladu ar rai mesurau sy'n bodoli'n barod

Mae rhai llwyfannau ar-lein eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darlledwyr eraill, cyhoeddwyr a chynhyrchwyr. Mae YouTube wedi dweud wrthym ei fod yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar y llwyfan, gan gynnwys drwy drafod eu strategaethau YouTube, a thrwy ddarparu cymorth gweithredol, hyfforddiant pwrpasol a data iddynt ar sut mae eu cynnwys yn perfformio.

Gwyddom ei bod yn dechnegol bosibl dylunio systemau argymell i roi mwy o amlygrwydd i fathau penodol o gynnwys. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo mathau o gynnwys yn algorithmig ar sail amrywiaeth o signalau. Mewn perthynas â newyddion, gallai hyn gynnwys signalau uniondeb sy'n ymwneud ag ansawdd, dibynadwyedd ac awdurdod y cynnwys. Er enghraifft, mae YouTube yn datgan ei fod yn hyrwyddo rhai “ffynonellau o le da” pan fydd cynulleidfaoedd yn chwilio am bynciau sy’n ymwneud â newyddion a phynciau sy’n debygol o arwain at gamwybodaeth.[113] Gall hyn gynnwys y

[113] YouTube - Authoritative news and information gwelwyd ar 16 Gorffennaf 2025.

darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ochr yn ochr â brandiau newyddion eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

Ar gyfer defnyddwyr yn y DU, credwn ei bod yn bwysig bod darparwyr gwasanaethau ar-lein yn cydnabod bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ffynonellau credadwy ac awdurdodol o gynnwys newyddion. Rydym yn eu hannog i gymryd camau rhesymol a chymesur i sicrhau bod cynnwys newyddion perthnasol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ddigon amlwg mewn canlyniadau chwilio, a phan fydd eu systemau algorithmig yn argymell ac yn cyflwyno cynnwys newyddion i ddefnyddwyr yn y DU, bod cynnwys newyddion y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg.

Gallai llwyfannau fel YouTube hefyd adeiladu ar yr arferion presennol i hyrwyddo rhaglenni plant y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ymysg defnyddwyr yn y DU. Mae YouTube yn darparu cynnwys i blant ar ei brif ap ac ar YouTube Kids - ap ar wahân sydd dim ond yn dangos cynnwys i blant sydd wedi pasio cyfres o ofynion a throthwyon, ac sy'n cynnig rhagor o reolaethau i rieni. Mae gan y llwyfan gyfres o egwyddorion ansawdd cynnwys ar gyfer ei grewyr cynnwys i blant, a gall eu defnyddio ddylanwadu ar sut mae'r cynnwys hwnnw'n cael ei argymell, dylanwadu ar sut mae'n cael ei dderbyn ar YouTube Kids, ac mewn rhai achosion, effeithio ar gytundebau gwneud arian. Gallai hyn fod yn elfen ganolog o unrhyw bartneriaeth rhwng llwyfannau a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

## Dylai llwyfannau hefyd ystyried mesurau sy'n cynnig mwy o ddewis i ddefnyddwyr o ran yr hyn maen nhw'n ei weld

Mae camau ychwanegol y gallai llwyfannau ystyried eu cymryd, fel rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr dros y cynnwys sy'n cael ei gyflwyno iddyn nhw. Mae ein gwaith blaenorol ar blwraliaeth y cyfryngau wedi tynnu sylw at wahanol ffyrdd y gellid cyflawni hyn, gan gynnwys: 1) caniatáu i ddefnyddwyr osod dewisiadau o ran cynnwys, er enghraifft y mathau o gynnwys neu ddarparwyr maen nhw eisiau eu gweld (e.e. gallai hyn ganiatáu i gynulleidfaoedd ddewis gweld mwy o newyddion gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, neu ddarparwyr newyddion lleol a newyddion masnachol eraill o ansawdd uchel os byddai'n well ganddyn nhw); 2) caniatáu i ddefnyddwyr ddewis gwahanol brofiadau/ffrydiau argymell (e.e. cynnwys neu adroddiadau newyddion ar fater cyfoes, ffrwd thematig, neu ffrwd bersonol); a 3) defnyddio labeli i gefnogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus wrth ymgysylltu â chynnwys gan gynnwys newyddion.

Rydym wedi ystyried effeithiolrwydd gwahanol adnoddau grymuso defnyddwyr o'r blaen ac wedi canfod, os cânt eu dylunio a'u defnyddio'n dda ar yr adeg iawn, y gallant helpu defnyddwyr i ddewis pethau sy'n cyd-fynd â'u dymuniadau.[114] Fodd bynnag, gall y rhain arwain at heriau, gan gynnwys a oes gan ddefnyddwyr yr wybodaeth gywir i wneud dewisiadau o’r fath, a ydyn nhw’n wynebu gormod o ddewis, ac ymddygiad personol defnyddwyr ac ym mha gyd-destun maen nhw’n defnyddio gwasanaeth. Mae rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i ddefnyddwyr dros eu profiad ar-lein hefyd yn un o flaenoriaethau Ofcom ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau penodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ar-lein sydd wedi'u dynodi'n 'Gategori 1' - y gwasanaethau mwyaf a'r rhai sy'n peri'r risg fwyaf. Bydd angen i'r darparwyr hyn gymryd camau ychwanegol, yn ogystal â'u dyletswyddau craidd sy'n ymwneud â niwed anghyfreithlon ac amddiffyn plant, i gynnig nodweddion i ddefnyddwyr sy'n oedolion sy'n lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dod

[114] Ofcom, 2024. Deall Dewisiadau a Lles Ar-lein.

ar draws mathau penodol o gynnwys cyfreithlon, fel casineb a cham-drin.[115] Ar ôl i Ofcom roi'r dyletswyddau hyn ar waith yn llawn, bydd angen i'r llwyfannau hyn roi mesurau grymuso defnyddwyr ar waith.

Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys Channel 4, wedi awgrymu bod labeli a nodau barcud yn gallu helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys a newyddion dibynadwy. Nodwn fod rhai cynlluniau nod barcud y diwydiant eisoes yn bodoli, er bod y nifer sy'n manteisio ar y rhain yn amrywio, a phrin yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar yr effaith maen nhw'n ei chael ar ddefnyddwyr. Mae rhai cyhoeddwyr newyddion yn gweld eu brand fel eu nod barcud ac maen nhw wedi mynegi pryderon am yr effaith y gallai system nod barcud, yn enwedig un sy'n cael ei goruchwylio gan y Llywodraeth, ei chael ar eu hannibyniaeth. Er mwyn helpu cynulleidfaoedd i wahaniaethu rhwng gwybodaeth gywir a gwybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol, mae rhai llwyfannau'n defnyddio gwirwyr ffeithiau annibynnol neu adnodd gwirio ffeithiau torfol.

## Dylai'r Llywodraeth ystyried rheoliadau newydd i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'i ddefnyddio'n hawdd, gan gynnwys newyddion

Efallai y bydd y Llywodraeth yn dymuno ystyried deddfwriaeth sy'n ymestyn yr egwyddor hirsefydlog o roi amlygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i YouTube, a llwyfannau rhannu eraill o bosibl, sy'n chwarae rhan ganolog yn y gwaith o siapio'r newyddion a'r cynnwys mae cynulleidfaoedd yn eu gweld.[116] Gallent hefyd ystyried ehangu'r fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys darparwyr newydd sy'n cynnig genres sy'n cael eu tanariannu neu sydd mewn perygl o beidio â chael eu gwneud yn y dyfodol.

Mae rhai ymdrechion rhyngwladol yn y gofod hwn: yn 2021, cyhoeddodd Cyngor Ewrop ganllawiau ar sut gallai gwladwriaethau gyflwyno mesurau sy'n sicrhau amlygrwydd cynnwys budd y cyhoedd ar-lein. Ar hyn o bryd mae'r UE yn ystyried opsiynau rheoleiddio ar gyfer amlygrwydd cynnwys budd y cyhoedd ar lwyfannau rhannu fideos er mwyn gwella plwraliaeth y cyfryngau a mynd i'r afael â thwyllwybodaeth.

### Mae diffinio cwmpas a siâp amlygrwydd ar-lein yn gymhleth

Byddai sicrhau amlygrwydd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau trydydd parti ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU yn codi nifer o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys meini prawf ar gyfer sefydlu'r llwyfannau y dylai amlygrwydd fod yn berthnasol iddynt, y darparwyr a allai elwa, y mathau a'r ffurfiau penodol o gynnwys y dylid eu gwneud yn amlwg, sut gellid darparu amlygrwydd, ac a ddylid cynnwys gofynion 'rhaid dosbarthu, rhaid cynnig'. Byddai angen i'r Llywodraeth hefyd ystyried a ellid cynnwys proses o rymuso defnyddwyr mewn unrhyw drefn, fel y byddai cynulleidfaoedd nad ydynt am i'r cynnwys hwn gael ei hyrwyddo iddyn nhw yn cael cynnig dewis. Yn olaf, byddai angen i'r drefn fod

[115] Adran 16(4) o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein: mae'r dyletswyddau grymuso defnyddwyr yn cofnodi cynnwys cyfreithlon sy'n gamdriniol, ac mae'r cam-drin yn targedu hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu ailbennu rhywedd. Adran 16(5): mae'r dyletswyddau grymuso defnyddwyr yn cofnodi cynnwys cyfreithlon sy'n ysgogi casineb yn erbyn pobl: o hil, crefydd, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol penodol; pobl sydd ag anabledd; neu bobl sydd â nodwedd ailbennu rhywedd.

[116] Fe wnaethom ganolbwyntio ein hargymhellion ar YouTube oherwydd ei fod yn chwarae rhan bwysig a chynyddol o ran cysylltu cynulleidfaoedd â chynnwys, gan gynnwys ar setiau teledu. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw drefn yn y dyfodol fod yn ddigon hyblyg i fod yn berthnasol, o bosibl, i lwyfannau eraill er mwyn adlewyrchu newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd.

yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau mewn technoleg, fel sut mae cynnwys yn cael ei gyflwyno i gynulleidfaoedd.

Fel rhan o unrhyw waith i sicrhau amlygrwydd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, efallai y bydd y Llywodraeth am ystyried a ddylid ehangu'r fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys darparwyr newydd. Er enghraifft, awgrymodd rhanddeiliad y dylid ehangu'r fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys darparwr newydd i wella'r ddarpariaeth bresennol, yn enwedig ar gyfer genres lle mae gennym bryderon am blwraliaeth a darpariaeth yn y dyfodol.

Byddai angen i drefn amlygrwydd sy'n benodol i'r newyddion gydbwyso'r amcan ar gyfer sector amrywiol a lluosog â'r realiti na all pob darparwr fod yn amlwg. Byddai'n bwysig bod cynnwys sy'n cael ei hyrwyddo yn cael ei reoleiddio ac yn cyrraedd safonau cynnwys penodol. Rydym o'r farn bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn fan cychwyn da - dyma rhai o'r endidau newyddion mwyaf dibynadwy; mae ganddyn nhw ofynion i ddarparu newyddion a gwybodaeth ac maent yn cael eu hasesu'n rheolaidd i weld sut maen nhw'n bodloni'r gofynion hyn; ac maen nhw eisoes yn cyrraedd safonau uchel gan gynnwys didueddrwydd dyladwy a chywirdeb. Wrth i arferion defnyddio newyddion symud tuag at lwyfannau trydydd parti, gallai hefyd fod yn werth rhoi amlygrwydd i nifer cyfyngedig o ddarparwyr ychwanegol yn y DU, os ydynt yn barod i fodloni gofynion a safonau penodol. Yn y pen draw, y Llywodraeth fyddai'n penderfynu i bwy y dylid rhoi amlygrwydd, a'r meini prawf ar gyfer hyn.

Byddai llawer o'r ystyriaethau hyn hefyd yn berthnasol i roi amlygrwydd i raglenni plant y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Byddai angen i'r Llywodraeth ystyried y meini prawf ar gyfer pwy sy'n elwa o amlygrwydd: er enghraifft, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr eraill y mae eu rhaglenni llinol yn dod o dan y cod darlledu, neu grŵp ehangach o ddarparwyr, y mae'n rhaid i'w cynnwys fodloni set wahanol o feini prawf. Byddai pa gynnwys ddylai gael lle amlwg - er enghraifft fideos unigol neu 'sianeli' sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol - yn ystyriaeth arall. Mae hwn yn gwestiwn arbennig o bwysig ar gyfer cynnwys i blant o ystyried mai rhai rhaglenni a gomisiynwyd yn wreiddiol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ond a gynigir ar-lein drwy eu canghennau cynhyrchu - fel *Bluey a Peppa Pig* - yw rhai o'r sianeli YouTube sy'n cael eu gwylio fwyaf gan blant yn y DU. Byddai angen i'r Llywodraeth hefyd weithio gyda llwyfannau i sicrhau mai dim ond gwylwyr perthnasol sy'n gweld cynnwys plant y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn safle amlwg ar eu sgriniau, y gellid eu cysylltu â'r mesurau grymuso defnyddwyr a ddisgrifir uchod.

Rydym yn ymwybodol y byddai dylunio mesurau amlygrwydd ar gyfer llwyfannau ar-lein yn effeithio ar sut mae ffrydiau cynnwys yn cael eu rheoli. Mae Ofcom wedi cynnal ei waith ymchwil ei hun, ac mae academyddion wedi cynnal amrywiaeth o dreialon rheoledig, sy'n edrych ar effeithiau gwneud newidiadau i ffrydiau cynnwys defnyddwyr. Mae'r astudiaethau hyn wedi dangos y gall ymyriadau arwain at ganlyniadau cymysg.[117] Mewn rhai achosion, roedd gan ymyriadau gymysgedd o effeithiau 'da' a 'drwg' sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd profi unrhyw newidiadau i wasanaethau cyn eu rhoi ar waith.

Byddwn yn rhoi cymorth i'r Llywodraeth os bydd yn penderfynu edrych ar amlygrwydd cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a newyddion ar lwyfannau trydydd parti. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth am arferion gwylio cynulleidfaoedd ar lwyfannau ar-lein a byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall pa gynnwys sy'n cael ei gyflwyno i wahanol grwpiau cynulleidfa.

---

[117] Ofcom, 2024. Newyddion Ar-lein: Diweddariad Ymchwil, t. 22-24

### Gallai'r Llywodraeth hefyd ystyried pwerau newydd i gefnogi amlygrwydd

Gallai rheoliadau newydd helpu i sicrhau bod llwyfannau ar-lein yn fwy tryloyw o ran sut maen nhw'n dylunio eu systemau argymell. Rydym eisoes wedi nodi'r achos dros gael mwy o dryloywder o ran sut mae cynnwys newyddion yn cael ei restru a'i gyflwyno i ddefnyddwyr yn y DU. Argymhellodd ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i ddyfodol newyddion hefyd y dylid rhoi'r *"pwerau angenrheidiol i Ofcom ymchwilio i algorithmau argymell cwmnïau technoleg a gweithrediadau modelau iaith mawr."* Mae Cyngor Ewrop a'r Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE) wedi tynnu sylw at y diffyg tryloywder yn y maes hwn.

Byddai rhoi mwy o dryloywder i reoleiddwyr ynghylch sut mae systemau argymell yn cael eu dylunio, ochr yn ochr â phwerau i brofi a threialu gwahanol bensaernïaeth dewis a systemau argymell cysylltiedig, yn helpu i nodi opsiynau sy'n cefnogi defnyddwyr i ddod o hyd i wybodaeth ddibynadwy. Gallai hyn hefyd ddarparu sylfaen dystiolaeth i helpu i ddylunio unrhyw reoliadau amlygrwydd yn y dyfodol. Pe bai trefn amlygrwydd yn cael ei chyflwyno, mae'n debygol y byddai angen rhwymedigaethau tryloywder ar gyfer gwasanaethau o fewn y cwmpas er mwyn profi'r ymyriadau arfaethedig cyn eu cyflwyno, i fonitro cydymffurfedd ac i asesu effeithiolrwydd y drefn.

## Casgliadau ar gefnogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Wrth i gynulleidfaoedd droi at lwyfannau trydydd parti fel llwyfannau rhannu fideos a chyfryngau cymdeithasol i gael newyddion a chynnwys arall, maen nhw'n debygol o weld a chael mynediad at lai o raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r gostyngiad hwn yn rhoi cynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y fantol, a thrwy hynny, fynediad cynulleidfaoedd at ystod o gynnwys sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU.

Er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gweld a dod o hyd i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn yr amgylchedd newydd hwn, mae'n hanfodol bod cynulleidfaoedd yn gallu gweld a dod o hyd i'r cynnwys hwn yn hawdd ar lwyfannau sydd nawr yn chwarae rhan flaenllaw o ran cysylltu pobl â newyddion a chynnwys arall. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y lle cyntaf ar gyfer newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd, fel ffynonellau dibynadwy, cywir a diduedd, yn cyfrannu at gefnogi cymdeithas ddemocrataidd. Mae hefyd yn bwysig ar gyfer cynnwys i blant yn y DU, sy'n helpu pobl ifanc i ddysgu, tyfu a deall y DU a'r byd o'u cwmpas, a gall hefyd helpu pobl ifanc i feithrin cysylltiad â chyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y dyfodol.

Wrth i arferion gwylio newid ar-lein, efallai y bydd angen ystyried sut gellid ehangu mesurau amlygrwydd i gynnwys set ehangach o genres a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys ehangu'r fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys darparwyr ychwanegol, yn enwedig lle gallant gefnogi genres sy'n cael eu tanariannu neu sydd mewn perygl o beidio â chael eu gwneud yn y dyfodol.

Mae'r cyfrifoldeb dros roi'r gallu i gynulleidfaoedd weld a dod o hyd i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau trydydd parti yn un sy'n cael ei rannu: bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sicrhau bod cynnwys ar gael a gwneud eu gorau glas i greu rhaglenni sy'n apelio at chwaeth gwylwyr sy'n newid. Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau weithio gyda'i gilydd i wneud cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg ac i ddeall ei apêl ymysg gwahanol wylwyr. Dylai'r Llywodraeth ystyried a oes angen deddfwriaeth i ategu'r ymdrechion hyn.

**Argymhellion:**

- Mae angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i addasu i’r hyn sydd orau gan gynulleidfaoedd drwy herio eu hunain yn gyson i brofi a defnyddio ffyrdd newydd o ddosbarthu a chreu cynnwys sawl gwaith drosodd ar gyfer grwpiau cynulleidfa amrywiol.
- Mae’n hollbwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a YouTube yn cydweithio i sicrhau bod cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg ar ei wasanaethau, ac ar delerau masnachol teg. Mae hyn yn bwysig er mwyn i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus barhau i gysylltu â phob cynulleidfa, yn enwedig ar gyfer newyddion, sy'n cefnogi democratiaeth, ac ar gyfer rhaglenni plant yn y DU sy'n helpu cynulleidfaoedd ifanc i ddysgu a thyfu.
- Dylai'r Llywodraeth ystyried a oes angen deddfwriaeth wrth gefn hyn. Byddai hyn yn gofyn am waith sylweddol ond byddai'n rhoi cefnogaeth statudol i amlygrwydd cynnwys darlledwyr gwasanaeth ar YouTube, yn union fel y mae'r Ddeddf Cyfryngau yn rhoi amlygrwydd i chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar setiau teledu sydd wedi’u cysylltu ac ar ddyfeisiau eraill.
- Ar lefel ehangach, efallai y bydd y Llywodraeth am edrych ar amlygrwydd newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau eraill, er y byddai ei weithredu'n gymhleth ac y byddai angen adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae llwyfannau'n hyrwyddo cynnwys i ddefnyddwyr. Yn y cyfamser, mae angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithio gyda llwyfannau rhannu fideos a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill i sicrhau bod eu cynnwys ar gael ac yn hawdd i ddefnyddwyr ddod o hyd iddo.

# 6. Grymuso cynulleidfaoedd mewn oes ddigidol

**Yn yr adran hon, rydym yn:**

- Amlinellu sut bydd datblygiadau technolegol fel deallusrwydd artiffisial yn parhau i newid y ffyrdd mae cynnwys yn cael ei wneud a'i gyflwyno i gynulleidfaoedd, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar allu cynulleidfaoedd i gael gafael ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac ymddiried ynddynt.
- Tynnu sylw at y rôl bwysig mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn ei chwarae o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu deall y ffyrdd newydd o gael gafael ar gynnwys.
- Trafod y ffaith bod gan bawb rôl i'w chwarae i helpu cynulleidfaoedd i feithrin a gloywi eu gwybodaeth a'u sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r ffyrdd y mae technoleg yn parhau i esblygu, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar allu cynulleidfaoedd yn y dyfodol i gael gafael ar gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac ymddiried ynddo. Yn benodol, rydym yn canolbwyntio ar y datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael yn y sector newyddion.

Mae newidiadau o ran sut mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar gynnwys ac yn rhyngweithio â chynnwys hefyd yn golygu bod sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn bwysicach nag erioed. Mae angen i gynulleidfaoedd gael yr hyder a'r gallu i gael gafael ar gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig ar wasanaethau a dyfeisiau newydd. Mae angen y sgiliau meddwl yn feirniadol arnyn nhw hefyd i lywio newyddion yn ddiogel a gwahaniaethu rhwng newyddion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a mathau eraill o wybodaeth ar-lein.

## Mae datblygiadau technolegol yn parhau i newid sut mae pobl yn creu cynnwys ac yn cael gafael arno

Dros amser, rydym wedi gweld datblygiadau mewn technoleg yn newid sut gall cynulleidfaoedd gael gafael ar gynnwys ar y teledu. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad Dyfodol Dosbarthu Teledu, roedd gwasanaethau teledu cebl a lloeren yn rhoi mwy o ddewis o sianeli i gynulleidfaoedd, ac roedd newid i'r digidol[118] yn golygu bod teledu daearol yn mynd o gynnig pum sianel i ddwsinau. Ers hynny, mae gwasanaethau ffrydio a chwaraewyr fideos ar alw gan ddarlledwyr wedi cynnig mwy fyth o ddewis i gynulleidfaoedd sy'n cael gafael ar gynnwys dros y rhyngrwyd, a thrwy ddyfeisiau wedi'u cysylltu. Ac yn fwy diweddar, fel rydym wedi'i drafod drwy gydol yr adroddiad hwn, bu twf yn y defnydd o lwyfannau rhannu fideos a gwasanaethau ar-lein eraill ar gyfer gwylio a gwrando ar gynnwys.

[118] Newid i'r digidol oedd yr enw a roddwyd i'r broses o newid darlledu teledu yn y DU o lwyfannau analog i lwyfannau digidol. Digwyddodd hyn fesul rhanbarth rhwng 2008 a 2012.

Mae datblygiadau technolegol diweddar mewn deallusrwydd artiffisial hefyd yn newid y ffyrdd mae cynnwys yn cael ei greu a'i gyflwyno i gynulleidfaoedd. Er nad yw defnyddio deallusrwydd artiffisial yn newydd i'r sector darlledu a'r cyfryngau o bell ffordd, mae technolegau deallusrwydd artiffisial wedi arloesi'n sylweddol ac wedi cael eu mabwysiadu'n helaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gan y rhain y potensial i sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr a busnesau ar draws y sector cyfryngau. Er enghraifft, yn ein Dull Strategol ar gyfer deallusrwydd artiffisial a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fe wnaethom dynnu sylw at y modd y mae deallusrwydd artiffisial yn helpu i wella hygyrchedd drwy gynhyrchu capsiynau amser real, cyfieithu cynnwys i nifer o ieithoedd, a darparu disgrifiadau sain a throsleisio awtomataidd i helpu cynulleidfaoedd amrywiol i ddefnyddio'r cyfryngau. Fe wnaethom hefyd drafod yn flaenorol bod rhai cwmnïau cynhyrchu wedi nodi eu bod eisoes yn defnyddio deallusrwydd artiffisial neu'n bwriadu ei ddefnyddio yn y dyfodol agos. Wrth i'r dechnoleg hon esblygu, mae'n debygol y bydd datblygiadau sylweddol eraill o ran sut mae cynnwys yn cael ei greu a'i ddefnyddio. Er enghraifft, gallai deallusrwydd artiffisial asiantol, sy'n galluogi cyflawni tasgau heb lawer o oruchwyliaeth ddynol, ddechrau newid y ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar gynnwys, ac mae adnoddau deallusrwydd artiffisial asiantol hefyd yn dechrau cael eu datblygu yn y diwydiant cyfryngau.

Wrth edrych ar y diwydiant newyddion, rydym yn gweld tarfu ac esblygiad penodol, yn enwedig drwy ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.[119] Er enghraifft: mae rhai darparwyr newyddion yn defnyddio deallusrwydd artiffisial i greu cynnwys yn fwy effeithlon a chynhyrchu penawdau; twf mewn argaeledd crynodebau newyddion synthetig sy'n cael eu creu gan adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol; a gweithredwyr gwael sy'n manteisio ar y dechnoleg i greu camwybodaeth a thwyllwybodaeth argyhoeddiadol. Mae'n bwysig achub ar y cyfleoedd y mae'r dechnoleg hon yn eu cynnig ar yr un pryd â rheoli'r risgiau posibl y mae'n eu hachosi.

## Wrth i ddarparwyr newyddion fanteisio ar y cyfleoedd y mae adnoddau deallusrwydd artiffisial yn eu cynnig, rhaid iddyn nhw geisio cynnal ymddiriedaeth y gynulleidfa

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r darlledwyr traddodiadol yn perfformio'n well yn gyson o ran canfyddiadau o ymddiriedaeth a chywirdeb o'u cymharu â llwyfannau ar-lein ar y cyfan.[120] Fodd bynnag, mae mwy o ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn y sector newyddion yn cyflwyno heriau newydd o ran cynnal ymddiriedaeth a pherthynas cynulleidfaoedd â brandiau newyddion.

Mae cynulleidfaoedd newyddion wedi nodi bod ganddyn nhw rai amheuon ynghylch y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial gan gynhyrchwyr newyddion. Yn ôl ein hymchwil, byddai gan tua hanner (52%) y defnyddwyr lai o ffydd mewn erthygl ar-lein wedi'i hysgrifennu gan ddeallusrwydd artiffisial nag erthygl wedi'i hysgrifennu gan berson. Yn Adroddiad Newyddion Digidol Reuters 2025, roedd oedolion yn y DU ymysg y lleiaf cyfforddus, o gymharu â gwledydd eraill, â'r syniad o ddefnyddio newyddion a gynhyrchwyd 'yn bennaf gan ddeallusrwydd artiffisial gyda rhywfaint o oruchwyliaeth ddynol'; dim ond 11% oedd yn gyfforddus â hyn, ac roedd 64% yn anghyfforddus.

Mae llawer o ddarparwyr newyddion yn dechrau archwilio a threialu adnoddau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Mae'r rhan fwyaf yn dal i honni bod ganddyn nhw ryw lefel o oruchwyliaeth ddynol wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn, er y gallai hyn newid dros amser. Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi

[119] Modelau deallusrwydd artiffisial sy'n gallu creu testun, delweddau, sain a fideos mewn ymateb i anogwr defnyddiwr.
[120] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025.

cynlluniau i gyfuno deallusrwydd artiffisial â newyddiaduraeth y BBC i greu adnodd gwirio ffeithiau newydd.

Mae tryloywder ynghylch defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y sector yn allweddol. Fel y nodwyd gennym ym mis Rhagfyr, mae'r BBC wedi cyhoeddi ei ddull gweithredu ar gyfer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ac rydym yn annog cyhoeddwyr eraill i rannu dulliau gweithredu manwl. Dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i fod yn agored am eu polisïau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a bod yn dryloyw gyda chynulleidfaoedd lle mae deallusrwydd artiffisial wedi cael ei ddefnyddio i greu cynnwys newyddion. Rydym yn disgwyl i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gynnal safonau uchel o ran ei ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial, gan osod y safon i eraill yn y diwydiant.[121]

## Crynodebau newyddion cynhyrchiol yn cyflwyno heriau penodol

Mae cynulleidfaoedd hefyd yn arbrofi gyda defnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial i gael gafael ar newyddion, yn enwedig crynodebau newyddion deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, er bod ganddyn nhw rai amheuon. Mewn un arolwg, dywedodd 36% o'r ymatebwyr y byddent yn ystyried defnyddio adnoddau chwilio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i grynhoi'r prif straeon newyddion, ond dywedodd tua chwarter (26%) o'r defnyddwyr y byddai'n well ganddyn nhw fynd at ffynonellau adnabyddus fel gwefannau newyddion.[122]

Mae darparwyr newyddion wedi bod yn glir ynghylch y risgiau i ddarparu newyddion dibynadwy drwy grynodebau newyddion synthetig deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a gynhyrchir gan sgwrsfotiau, canlyniadau chwilio neu hysbysiadau dyfeisiau. Maen nhw wedi tynnu sylw at effaith anghywirdebau a rhithweledigaethau (ymatebion a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial sy'n anghywir neu'n hurt). Er enghraifft, nododd BBC News a Sky News ddiffygion sylweddol yn hysbysiadau newyddion deallusrwydd artiffisial Apple Intelligence a gafodd eu hatal ddechrau 2025 ar ôl sawl wythnos o wallau. Mae'r BBC hefyd wedi cynnal ymchwil lle mae'n honni iddo ganfod 'problemau sylweddol' gyda hanner (51%) yr atebion a gynhyrchwyd gan gynorthwywyr deallusrwydd artiffisial pan ofynnwyd cwestiynau am y newyddion.

Mae perygl y bydd unrhyw wallau yn allbynnau crynodebau newyddion deallusrwydd artiffisial yn camarwain cynulleidfaoedd. Mewn rhai achosion, gallai'r rhain arwain at ganlyniadau niweidiol, yn enwedig os yw'r gwallau'n ymwneud â phynciau sensitif fel cyngor ar iechyd neu faterion gwleidyddol. Gallant hefyd effeithio ar gyhoeddwyr ffynhonnell y newyddion, gan effeithio ar ymddiriedaeth cynulleidfaoedd ynddynt, a niweidio eu brandiau. Mae rhai rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y ffaith bod posibilrwydd y gallai cynulleidfaoedd ddechrau dibynnu ar y crynodebau hyn yn hytrach na chael gafael ar ddarnau llawn o gynnwys gan ddarparwyr newyddion, ac y gallai hyn arwain at oblygiadau o ran dealltwriaeth darllenwyr o faterion cymhleth, yn ogystal â thraffig i wefannau cyhoeddwyr, a'u cynaliadwyedd (fel y trafodir yn Adran 4).

Mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at nifer o ffactorau a fyddai, yn eu barn nhw, yn gwneud crynodebau newyddion a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial yn fwy cydnaws â darparu newyddion dibynadwy ac i ddangos beth allai model da fod ar gyfer defnyddio'r adnoddau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys awgrymiadau rhanddeiliaid y dylai cyhoeddwyr gael rheolaeth dros a chaiff eu cynnwys ei ddefnyddio a sut, bod angen i Fodelau Iaith Mawr ddefnyddio a thalu am drwydded

[121] Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gallu chwarae rhan arloesol yn y gwaith o ddatblygu deallusrwydd artiffisial newyddiadurol, gweler Canllawiau Cyngor Ewrop ar Weithredu Systemau Deallusrwydd Artiffisial yn Gyfrifol mewn Trafodaeth Newyddiaduraeth, 2023.

[122] 'Thinks Insight & Strategy' ar ran y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF), 2025. Deall Defnydd Defnyddwyr o Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol.

cynnwys gwasanaeth cyhoeddus er mwyn hyfforddi eu peiriannau, y dylai cynnwys gael ei labelu'n glir os yw wedi'i greu gan ddeallusrwydd artiffisial er mwyn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus a all hefyd helpu i briodoli'r ffynhonnell, ac y dylai cynorthwywyr deallusrwydd artiffisial fod yn gywir a dilyn safonau golygyddol sylfaenol wrth ateb cwestiynau am y newyddion.

# Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gallu helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys ar-lein

Mae Ofcom yn diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau. Mae gan Ofcom ddyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (fel y nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ac fel y'u diweddarwyd yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein) i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac annog a chefnogi eraill i gyflawni gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Wrth i'r amgylchedd cyfryngau newid yn barhaus, gall hyn gyflwyno heriau i gynulleidfaoedd o ran llywio cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, dod o hyd iddo a'i ddefnyddio. Felly, mae'n hanfodol bod gan gynulleidfaoedd y sgiliau a'r wybodaeth iawn i allu gwneud hyn.

## Cefnogi cynulleidfaoedd i ddefnyddio a chael gafael ar gynnwys ar-lein

Dim ond os oes ganddynt fynediad at fand eang a dyfeisiau wedi'u cysylltu, a'r sgiliau a'r wybodaeth i allu defnyddio a llywio'r gwasanaethau hyn, y gall cynulleidfaoedd gael gafael ar swmp y cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael ar-lein ac elwa ohono. Mae Ofcom o'r farn bod cysylltiad agos rhwng y sgiliau digidol hyn a chynhwysiant digidol, ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau[123].

Mae gwaith diweddar a wnaed gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dangos y gallai'r rhan fwyaf o bobl fod yn "*gyfforddus i sefydlu a defnyddio IPTV yn annibynnol, ond roedd grŵp llai - unigolion hŷn yn bennaf neu'r rheini heb lawer o hyder digidol - yn teimlo y byddent yn ei chael hi'n anodd*." Mae ein tystiolaeth yn dangos bod diffyg sgiliau a hyder yn gallu bod yn rhwystr rhag mynd ar-lein a bod 'defnyddwyr cul y rhyngrwyd' (pobl sy'n gwneud ychydig bach o dasgau ar-lein er bod ganddynt gysylltiad) yn fwy tebygol o gael trafferth gydag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Mae cynulleidfaoedd sy'n teimlo'n ddi-hyder ar-lein yn fwy tebygol o wynebu heriau o ran cael gafael ar gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-lein, ac fe allant elwa o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wedi'u targedu - yn ogystal â'r rheini sy'n mynd ar-lein am y tro cyntaf. Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr traddodiadol eraill berthynas gref â'r cynulleidfaoedd hyn (yn enwedig cynulleidfaoedd hŷn) ac felly mae ganddyn nhw rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi cynulleidfaoedd sy'n llai hyderus yn ddigidol i gael gafael ar gynnwys a gwasanaethau ar-lein. Mae rhaglen hybiau digidol Sky Up, (sy'n gweithio mewn partneriaeth â phobl dan 25 oed, a phobl dros 65 oed, gyda sefydliadau cymunedol lleol ledled y DU i gefnogi ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gydag uwchsgilio digidol), yn enghraifft dda o'r math o waith y gellir ei wneud i helpu grwpiau agored i niwed.

Gan fod y Llywodraeth yn ystyried dyfodol dosbarthu teledu, bydd yn bwysig bod yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â phob rhan o'r broses gymhleth o gyflawni unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn

[123] Ofcom, 2024. Banc Canlyniadau Ofcom ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau

chwarae eu rhan i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn barod a bod ganddyn nhw’r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lywio llwybrau newydd i gael gafael ar gynnwys a'i ddefnyddio.

## Helpu cynulleidfaoedd i ddiogelu eu hunain rhag camwybodaeth a thwyllwybodaeth

Gall ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gefnogi'r ddealltwriaeth o sut mae newyddion yn cael ei gasglu a'i gynhyrchu, gan alluogi pobl i adnabod cynnwys dibynadwy a chywir ar-lein yn well. Mae sicrhau bod gan gynulleidfaoedd y sgiliau a'r wybodaeth iawn er mwyn iddyn nhw allu llywio drwy newyddion ar-lein a diogelu eu hunain rhag camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn hanfodol, ac mae amrywiaeth o randdeiliaid wedi pwysleisio ei bwysigrwydd.

Fe wnaethom amlinellu rhai o'r canlyniadau a'r peryglon posibl y mae'r cynnydd mewn camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein yn eu hachosi i ddemocratiaeth ym mis Rhagfyr. Yn ein gwaith ymchwil diweddaraf, dywedodd 49% o ddefnyddwyr llwyfannau cyfathrebu ar-lein eu bod wedi gweld straeon newyddion anwir/camarweiniol. Yn 2024, roedd y ganran yn 45%.[124] Er bod 34% wedi cymryd camau drwy riportio’r cynnwys i'r wefan/ap, ni chymerodd 40% unrhyw gamau a dewisodd 13% rannu'r stori ar eu cyfryngau cymdeithasol eu hunain i roi gwybod i'w dilynwyr eu bod yn meddwl ei bod yn gamarweiniol neu'n anwir, gweithred a allai helpu, yn anfwriadol, i ledaenu'r wybodaeth gamarweiniol neu anwir ymhellach. Yn rhyngwladol, yn ystod yr etholiad Ffederal diweddar yng Nghanada, gwelwyd camwybodaeth wedi’i chynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial am bynciau newyddion gwleidyddol yn cael ei lledaenu, rhai wedi'u dylunio i edrych fel cynnwys gan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus cenedlaethol, CBC/Radio Canada, i dwyllo cynulleidfaoedd i ymgysylltu ag ef.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr eraill mewn sefyllfa unigryw i helpu i gefnogi cynulleidfaoedd a rhoi'r sgiliau iddynt asesu'n feirniadol y newyddion maen nhw'n ei weld ar-lein, a gallu adnabod gwybodaeth ddibynadwy maen nhw'n ymddiried ynddi. Y rheswm am hyn yw eu bod yn cyrraedd cyfran fawr o boblogaeth y DU a bod ganddynt berthynas â nhw, maent yn gweithredu ar draws amrywiaeth o lwyfannau, ac mae pobl yn ymddiried yn fawr ynddynt ar y cyfan. Mae gan bob un berthynas gadarn â gwahanol grwpiau cynulleidfa a gallant fanteisio ar y cryfderau hyn i ddenu cynulleidfaoedd at gynnwys ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wedi'i deilwra a chymorth sgiliau digidol.

Rydym wedi cwrdd ag amrywiaeth o ddarlledwyr i ddeall y cynlluniau a'r gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau maen nhw eisoes yn eu cynnal, yn enwedig mewn perthynas â llythrennedd newyddion. Mae'r gwaith hwn wedi nodi pedwar phrif fath o weithgarwch:

- **Darparu gwersi neu weithdai byw ar-lein, wyneb yn wyneb neu hybrid.** Mae Sky, y BBC ac STV i gyd yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd fel hyn. Er enghraifft, drwy raglen 'Sky Up Academies’ Sky, mae pobl ifanc yn ymweld â'u stiwdios newyddion i ddeall y broses o greu newyddion. Mae menter ‘Expert Voices’ STV yn cynnig gweithdai cyfryngau sydd wedi'u dylunio i gynyddu amrywiaeth ei raglenni newyddion a materion cyfoes, ac sydd wedi’u targedu at grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli.
- **Cynlluniau gwirio ffeithiau.** BBC Verify yw brand y BBC ar gyfer gwirio ffeithiau, dilysu fideos, mynd i'r afael â thwyllwybodaeth a dadansoddi data. Mae ei allbwn yn ymddangos mewn bwletinau newyddion llinol, ar wefan ac ap newyddion y BBC, ac mae hefyd yn cael ei bostio ar sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae gan Channel 4 ei adnodd FactCheck Channel 4 News sy'n dadansoddi ac yn dilysu honiadau a wneir yn y cyfryngau newyddion.
- **Adnoddau ar-lein fel cwisiau, deunyddiau addysgu a deunyddiau dysgu rhyngweithiol.** Ymhlith yr enghreifftiau mae rhaglen Other Side of the Story y BBC, sy’n cynhyrchu cynnwys i

[124] Ofcom, 2025. Agweddau Oedolion a’u Defnydd o Gyfryngau 2025 t.4.

bobl ifanc fel esboniadau a chwisiau, yn ogystal ag adnoddau i athrawon ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer gwefan BBC Bitesize.

- **Defnyddio amrywiaeth o raglenni i annog ymgysylltu beirniadol.** Mae'r cyfle i ddarlledwyr gefnogi ymgysylltiad beirniadol yn eu cynnwys yn aml yn ymestyn ymhellach na dim ond newyddion. Er enghraifft, mae rhaglenni cylchgrawn sy'n trafod sgamiau, plot drama am bobl sy'n rhannu damcaniaethau ffug, neu stori mewn opera sebon am breifatrwydd data ar-lein, i gyd yn gallu cefnogi ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd o'r cyfryngau. Roedd gan bob darlledwr y gwnaethom siarad ag ef enghreifftiau yn y maes hwn.

## Mae gan bawb rôl i'w chwarae

Yn ein Strategaeth Tair Blynedd ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau, nodwyd bod ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fusnes i bawb. Rydym yn annog y darlledwyr i barhau i adeiladu ar y gwaith pwysig maen nhw'n ei wneud. Ochr yn ochr â darparu newyddion cywir a diduedd o ansawdd uchel, gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn benodol chwarae rhan bwysig yn y gwaith o egluro pam mae gwybodaeth ddibynadwy yn bwysig mewn cymdeithas ddemocrataidd a chyfraniad eu cynnwys newyddion at ecosystem wybodaeth iach. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gydweithio ar fentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gan wella i ba raddau y gellir darparu.

Mae gwreiddio technegau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn newyddiaduraeth ac egluro i gynulleidfaoedd sut mae cynnwys yn cael ei greu yn ddull gweithredu penodol y gallai darlledwyr barhau i'w ddefnyddio, ac rydym yn credu ei fod yn debygol o ennyn diddordeb cynulleidfaoedd a meithrin ymddiriedaeth yn y tymor hir.[125] Yn ôl yr ymchwil, mae mwy o dryloywder am brosesau casglu newyddion yn gallu cynyddu ymgysylltiad ac ymddiriedaeth. Ac ystyried ei gylch gwaith i gefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed, mae gan y BBC gyfrifoldeb penodol hefyd. Drwy BBC Verify, mae eisoes yn defnyddio esboniadau i ddangos y broses o greu straeon ac mae'n parhau i ehangu'r gwasanaeth hwn. Er enghraifft, yn ddiweddar, lansiodd ei dudalen fyw BBC Verify; fformat arbrofol lle mae newyddiadurwyr yn rhannu eu gwaith - gan gynnwys gwirio ffeithiau, dadansoddi a'r broses ar gyfer chwalu camwybodaeth - drwy gydol y dydd drwy ffrwd newyddion fyw amser real. Mae hefyd wedi nodi ei fod yn bwriadu cynyddu ei bresenoldeb ar lwyfannau fel YouTube a TikTok.[126] Mae hefyd yn ystyried sut gall gefnogi sgiliau llythrennedd digidol pobl ifanc ymhellach er mwyn iddynt allu asesu gwybodaeth ddibynadwy yn well ac adnabod twyllwybodaeth.

Canfu'r Undeb Darlledu Ewropeaidd yn 2023 fod ychydig dros hanner ei aelodau yn ymwneud â gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Yn Ffrainc, mae'n ofynnol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac adrodd ar eu gweithgareddau i'r rheoleiddiwr cyfryngau Arcom, sy'n cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn sy'n tynnu sylw at arferion gorau ac yn gwneud argymhellion.[127] Yng Ngwlad Belg, mae'n rhaid i'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y Gymuned Ffleminaidd, VRT, helpu i gynyddu lefelau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymhlith holl ddinasyddion Fflandrys fel rhan o'i gylch gwaith addysgol.[128] Yn yr ysbryd hwn, yn ein canllawiau SoPP arfaethedig, fe wnaethom annog y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddangos yr hyn maen nhw'n ei wneud i gefnogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn eu Datganiadau blynyddol.

---

[125] Ysgol y Cyfryngau a Chyfathrebu, Prifysgol Leeds, 2022. Research reveals link between lack of trust in journalism and low levels of public news literacy.
[126] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC 2024/25, t.115
[127] Edwards, L., Obia, V., Goodman, E., Spasenoska, S. (2025). Heriau trawstoriadol i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau: astudiaethau achos. Ysgol Economeg Llundain.
[128] Ibid.

Mae gan lwyfannau ar-lein rôl i'w chwarae hefyd a dylent alluogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gynhenid. Yn yr hydref, byddwn yn cyhoeddi datganiad o argymhellion o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, sy'n nodi sut gall darlledwyr a llwyfannau rymuso eu defnyddwyr i ddeall ac ymgysylltu â chyfryngau a gwasanaethau ar-lein. Yn Adran 5, fe wnaethom hefyd annog y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r llwyfannau ar-lein i weithio gyda'i gilydd i wneud cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn fwy gweladwy. Byddai unrhyw gamau maen nhw'n eu cymryd i wneud hyn yn fwy effeithiol os ydyn nhw hefyd yn helpu cynulleidfaoedd i ddeall y newyddion maen nhw'n eu gweld. Er enghraifft, pe bai llwyfannau ar-lein yn ceisio rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr o ran y cynnwys sy'n cael ei ddangos iddyn nhw, byddai hefyd yn bwysig iddynt feddwl sut gallant sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael digon o wybodaeth i wneud unrhyw newidiadau a deall sut byddai newidiadau o'r fath yn effeithio ar eu ffrwd. Gallai fod cymhelliant cryf a rôl hefyd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr newyddion eraill wrth addysgu eu cynulleidfaoedd am yr adnoddau hyn.

Yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith y gall fod manteision i ddull llawr gwlad o ymdrin ag ymwybyddiaeth o’r cyfryngau, sy’n ymgysylltu â chymunedau. Fe wnaethom argymell y dylai sefydliadau newyddion lleol ddatblygu rhaglenni llythrennedd newyddion ar y cyd â’u cymunedau. Mae'r Pecyn Cymorth Cyd-greu’r Cyfryngau a lansiwyd yn ddiweddar gan y Sefydliad Newyddion er Budd y Cyhoedd a'i bartneriaid yn gyfraniad ymarferol at y drafodaeth sy'n canolbwyntio ar weithredu ar sut gellir cynnwys cymunedau wrth gynhyrchu a dosbarthu newyddion ar yr un pryd â chynnal safonau newyddiadurol uchel.

Gall llywodraethau San Steffan a'r gwledydd unigol hefyd sicrhau bod y system addysg fodern yn rhoi’r sgiliau sydd eu hangen ar blant ac oedolion ar gyfer y dyfodol. Rydym yn barod i weithio gyda'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r llwyfannau, a chefnogi'r Adran Addysg a'r gweinyddiaethau datganoledig i geisio darparu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

## Casgliadau ar rymuso cynulleidfaoedd mewn oes ddigidol

Bydd sut mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar gynnwys, yn ei ddefnyddio ac yn ymgysylltu ag ef yn parhau i newid, yn enwedig gyda datblygiadau mewn technoleg fel deallusrwydd artiffisial. Felly, mae'n hanfodol bod gan gynulleidfaoedd y sgiliau a'r wybodaeth i barhau i elwa o ddarpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ac mae angen i bawb chwarae eu rhan i helpu i gyflawni yn y maes hwn.

**Argymhellion:**

- Mae angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fuddsoddi a chyfrannu at ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU a defnyddio eu perthynas unigryw a dibynadwy â chynulleidfaoedd i roi'r hyder iddyn nhw ddefnyddio gwasanaethau digidol.
- Mae'r BBC yn gwneud cyfraniad pellach, gan gefnogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ei gynlluniau addysg i blant. Mae hefyd yn ystyried sut gall gefnogi sgiliau llythrennedd digidol pobl ifanc ymhellach er mwyn iddynt allu asesu gwybodaeth ddibynadwy yn well ac adnabod twyllwybodaeth.
- Ochr yn ochr â darlledwyr, dylai llwyfannau ar-lein, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos, alluogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gynhenid. Yr hydref hwn, bydd Ofcom yn cyhoeddi Datganiad o Argymhellion o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, sy'n nodi sut gall darlledwyr a llwyfannau ar-lein rymuso eu defnyddwyr i ddeall ac ymgysylltu â chyfryngau a gwasanaethau ar-lein.
- Mae gan Ofcom ddyletswyddau ers tro i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac i helpu eraill i wneud gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Ond o ran gwariant ar y cwricwlwm ac addysg, mater i Lywodraethau - yn San Steffan ac yn y gwledydd - yw sicrhau bod y system addysg fodern yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant ac oedolion ar gyfer y dyfodol.

# 7. Ymrwymo i ddiweddaru ein gwaith o reoleiddio teledu a radio sy'n cael ei ddarlledu

**Mae'n bwysig bod ein gwaith rheoleiddio yn hyblyg** ac yn gallu ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad ar yr un pryd â diogelu cynulleidfaoedd wrth iddynt newid i wylio a gwrando ar-lein.

Rhaid i’r gwaith rheoleiddio fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'i dargedu dim ond pan fydd ei angen. **Byddwn yn cael gwared ar unrhyw gyfyngiadau hen ffasiwn a diangen** ac yn gosod rheoliadau i **annog twf ac arloesi**. Byddwn yn gallu rhoi rhywfaint o hyn ar waith ein hunain a, lle bo hynny'n briodol, byddwn yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau. Mewn meysydd eraill, efallai y bydd angen newid deddfwriaethol.

Rydym eisoes yn rhoi newidiadau hanfodol y Ddeddf Cyfryngau ar waith, sef y diweddariad mwyaf i'r fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys **sicrhau amlygrwydd i chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar setiau teledu sydd wedi’u cysylltu** a gwell rheoliadau safonau cynnwys ar rai gwasanaethau rhaglenni ar-alw.

Fodd bynnag, mae'r **gofynion rydym yn gallu eu rhoi ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn seiliedig i raddau helaeth ar eu gwasanaethau teledu llinol** (ar wahân i'r BBC). Byddwn yn edrych ar ba **ddiwygiadau pellach sydd eu hangen** i sicrhau bod rheoleiddio'n cefnogi pob cynulleidfa sy'n elwa o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein a'r berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a sector cynhyrchu'r DU. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar yr Adolygiad o Siarter y BBC a rheoleiddio'r BBC yn y dyfodol, sy'n ganolog i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Bydd penderfyniad y Llywodraeth ar ddyfodol dosbarthu teledu hefyd yn arwain at oblygiadau ar gyfer rheoleiddio ar draws y sector. **Mae'n bwysig bod yr holl randdeiliaid yn eglur ynghylch sut bydd teledu'n cael ei ddosbarthu yn y dyfodol** gan y byddai cryn dipyn o waith yn gysylltiedig â’r cynllunio, y buddsoddi a’r arloesi sydd ei angen i reoli trawsnewid cynhwysol. Ni waeth beth fydd canlyniad y penderfyniad hwn, byddwn yn adolygu'r **rheoleiddio ar draws gwasanaethau llinol ac ar-lein** i benderfynu a oes angen mwy o gysondeb i **ddiogelu cynulleidfaoedd rhag niwed** ni waeth ble maen nhw'n gwylio ac yn gwrando.

Ar ôl y cyhoeddiad hwn, byddwn yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid ynghylch y meysydd blaenoriaeth ar gyfer diwygio’r broses reoleiddio a chefnogi'r gwaith o ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. **Cyn diwedd y flwyddyn, byddwn yn cyhoeddi cais cynhwysfawr am dystiolaeth ar y gwaith rydym yn bwriadu ei wneud.**

# 8. Geirfa

**AVoD** - Gwasanaethau fideo ar-alw a gefnogir gan hysbysebion. Gwasanaethau ar-alw/ffrydio sy'n cynnwys

hysbysebion a heb fod yn gysylltiedig â sianeli teledu sy'n cael eu darlledu (gwahanol i wasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr).

**BVoD** - Gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu darparu gan sianeli teledu llinol. Mae BBC iPlayer a My5 yn enghreifftiau o wasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys rhaglenni sydd eisoes wedi'u darlledu ar wasanaethau llinol ac, yn fwyfwy, rhaglenni sydd heb gael eu darlledu eto neu raglenni sydd wedi'u creu dim ond ar gyfer y gwasanaeth fideo ar-alw gan ddarlledwyr.

**CAGR** – Cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. Mae'n mesur y gyfradd twf flynyddol gymedrig dros gyfnod penodol.

**DTT** – Teledu Daearol Digidol. Mae'n trosglwyddo cynnwys teledu dros sbectrwm radio drwy erial.

**IPTV** - Cynnwys tebyg i deledu sy'n cael ei ddarparu dros y rhyngrwyd, gan gynnwys gwasanaethau ffrydio ar-alw a chynigion llinol ar y rhyngrwyd.

**Teledu llinol** - Mae'n cyfeirio at gynnwys sy'n cael ei ddarlledu yn unol ag amserlen. Mae modd ei wylio naill ai'n fyw (ar yr adeg y mae wedi'i amserlennu) neu mae modd ei ohirio drwy oedi teledu byw neu drwy ddefnyddio dyfais recordio. Nid yw'n cynnwys gwasanaethau ar-alw/ffrydio.

**Amlsianeli** - Mae'r sector amlsianel yn cynnwys pob sianel deledu, ar wahân i brif sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u sianeli portffolio, sy'n cael eu darlledu yn y DU.

**Termau nominal** - Mae data a gyflwynir mewn termau nominal heb gael ei addasu ar gyfer chwyddiant

a gall fod yn hanesyddol

**Cyfryngydd ar-lein** – Mae cyfryngwyr ar-lein yn wasanaethau sy'n gweithredu rhwng cyhoeddwr cynnwys ar-lein, er enghraifft cynnwys newyddion, a defnyddwyr sy'n cael mynediad at y cynnwys dan sylw drwy'r gwasanaeth cyfryngu. Gall gwasanaethau o'r fath drefnu sut mae'r cynnwys yn cael ei arddangos, ei dagio, neu ei gyflwyno mewn trefn benodol. Mae mathau o gyfryngwyr ar-lein yn cynnwys: peiriannau chwilio, cyd-gasglwyr newyddion, a chyfryngau cymdeithasol.

**Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus -** Y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU yw'r BBC, y rheini sy'n darparu gwasanaethau Channel 3, Channel 4 Corporation, trwyddedai Channel 5, ac S4C. Er bod pob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd â'r statws hwn. Gyda'i gilydd, mae ganddyn nhw ddyletswydd i gyflawni dibenion ac amcanion y gwledydd.

**Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus** - Amrywiaeth eang o gynnwys ar wasanaethau llinol, gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr, a gwasanaethau ar-lein sydd o ansawdd uchel, sy'n adlewyrchu pob rhan o'r DU, ac sy'n dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd. Mae'n cynnwys newyddion cywir, dibynadwy o ansawdd uchel.

**Termau real** - Mae data a gyflwynir mewn termau real wedi cael ei addasu ar gyfer chwyddiant (wedi'i fesur gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr).

**SVoD** - Gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio. Gwasanaethau ar-alw/ffrydio sydd ond ar gael wrth dalu am danysgrifiad. Enghreifftiau yw Netflix, Amazon Prime Video a Disney+.

**VoD** – Fideo ar-alw.

**VSP** – Llwyfannau rhannu fideos. Mae llwyfannau fideo ar-lein sy'n caniatáu i ddefnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu â'r cyhoedd yn cael eu hystyried yn llwyfannau rhannu fideos, hyd yn oed os ydyn nhw'n cael eu hariannu gan danysgrifiadau neu hysbysebion. Mae'r rhain yn cynnwys YouTube, TikTok a Twitch.